Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru?

Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau
Inspiring Leaders - Enriching Lives

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â gweithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Nghymru ac mae wedi'i fwriadu ar gyfer arweinwyr ysgolion a rhanddeiliaid perthnasol. Nod y diwygiadau hyn yw creu system addysg gwbl gynhwysol, lle mae anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu eu nodi'n gynnar ac yn cael sylw yn gyflym, gan feithrin amgylchedd lle gall pob myfyriwr wireddu eu potensial.

Mae'r system ADY yn cefnogi plant a phobl ifanc 0 i 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bu Cymdeithion Carfan 3 yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn archwilio rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni'r diwygiadau hyn. Bu pandemig COVID-19 yn gyfrifol am ohirio dechrau'r gwaith hwn a hefyd ymestyn y llinell amser ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (y Ddeddf ADY).

Roedd yr ymchwil yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn defnyddio arolwg ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig, gydag Ymchwil OB3 yn cynorthwyo i gynnal arolygon gydag arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Ceisiodd yr arolwg archwilio dealltwriaeth arweinwyr o'r Ddeddf a pha mor barod oeddent i'w gweithredu. Defnyddiwyd Dadansoddiad Thematig i nodi patrymau yn y data a dealltwriaeth o'r canlyniadau.

Cafodd yr arolwg, a oedd yn fyw rhwng Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023, gyfanswm o 730 o ymatebion. Daeth themâu allweddol i'r amlwg o'r ymatebion hyn, gan arwain at gyfres o argymhellion.

Roedd yr argymhellion hyn yn mynd i'r afael â lles, recriwtio a chadw, partneriaethau amlasiantaethol, cyllid, a darpariaeth Gymraeg. Roedd y ffocws ar sicrhau adnoddau digonol, meithrin cydweithredu, gwella cyflog a sicrwydd swyddi, gwella cymorth a hyfforddiant, a sicrhau cysondeb mewn cyllid ADY ledled Cymru.

I gloi, mae'r adroddiad yn galw ar yr holl randdeiliaid yn y system ADY i weithredu ar yr argymhellion hyn i helpu arweinwyr i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Er gwaethaf heriau a chyfyngiadau amser a achoswyd gan bandemig COVID-19, y gred yw y gall ymdrech ar y cyd arwain at newid parhaus wrth gyflawni'r Ddeddf ADY, gan sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol i bob myfyriwr.

Cynnwys

1. Cynulleidfa

2. Cyflwyniad

3. Cyflwyno'r Sefyllfa

4. Methodoleg

5. Canfyddiadau Cychwynnol

6. Themâu Allweddol

7. Argymhellion

8. Casgliad

9. Cyfeirnodau

10. Rhestr Atodiadau

11. Atodiadau 1 – 5

12. Cymdeithion

13. Diolchiadau

1. Cynulleidfa

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer arweinwyr ysgolion a phawb sy'n ymwneud â'r system ehangach o gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu, Estyn, Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Rhieni, Undebau'r Gweithlu ac Awdurdodau Esgobaethol.

**At ddibenion yr adroddiad hwn fe wnaeth y Cymdeithion yng Ngharfan 3 ddiffinio arweinwyr ysgolion fel Pennaeth, Pennaeth Dros Dro, Dirprwy Bennaeth, Pennaeth Cynorthwyol, Pennaeth Gweithredol, CADY, Uwch Arweinydd ac Arweinydd Canol. Rydym yn cydnabod y bydd rolau arweinyddiaeth eraill mewn ysgolion nad ydynt efallai wedi'u henwi'n benodol.*

2. Cyflwyniad

Nod y diwygiadau ADY yw darparu system addysg gwbl gynhwysol yng Nghymru, lle mae anghenion addysgol plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n gynnar ac yn cael sylw yn gyflym, a lle mae pob un yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial. O dan y system ADY newydd, bydd cynllunio yn hyblyg ac ymatebol, bydd ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus wrth nodi anghenion a defnyddio strategaethau i helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu, a bydd y plentyn a'r person ifanc wrth wraidd popeth a wnawn.

Nod yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yw cefnogi pob arweinydd wrth weithredu Diwygiadau ADY. Mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid haen ganol eraill a phob uwch arweinydd yn y sector i ddatblygu sgiliau, hyder a galluoedd arweinyddiaeth ymhellach i gyflawni'r Ddeddf ADY. Ei nod yw datblygu sgiliau'r gweithlu addysg i wrando, adnabod ac ymateb i anghenion plant a phobl ifanc pan fydd angen cymorth ychwanegol arnynt i ffynnu ym myd addysg.

3. Cyflwyno'r Sefyllfa

Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yw'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cyhoeddir y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (neu "y Cod") o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY"). Mae'r Ddeddf ADY, ynghyd â'r Cod a'r rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf ADY, yn darparu'r ddarpariaeth statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae'n gosod barn, dymuniadau a theimladau'r dysgwyr wrth wraidd y broses o gynllunio'r cymorth sydd ei angen, i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol a gwireddu eu potensial. (https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/contents)

Cafodd Cymdeithion Carfan 3 yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol y dasg o ystyried rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru. Gohiriwyd dechrau'r comisiwn hwn oherwydd pandemig COVID-19.

Ar ôl Covid, mae'r llinell amser ar gyfer gweithredu Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol 2019 hefyd wedi'i hymestyn i gefnogi ysgolion yn eu proses drawsnewid.

Er eu bod am sicrhau bod ystod eang o dystiolaeth yn cael ei chasglu, roedd y Cymdeithion yn ymwybodol o gyfyngiadau, megis amser a chapasiti. Mae'r Cymdeithion wedi ceisio bod yn realistig o ran mewnbwn rhanddeiliaid, i adlewyrchu cymaint o leisiau o arweinyddiaeth addysgol ledled Cymru ag a fyddai'n ymarferol bosibl. Roedd hyn yn cynnwys 730 o ymatebion i arolwg ar-lein ar gyfer arweinwyr ysgolion, 12 cyfweliad lled-strwythuredig gyda Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA), Swyddogion ADY Awdurdodau Lleol, Arweinwyr ac Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar, Arweinwyr CADY y Clwstwr, Estyn a thrafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

4. Methodoleg

Ffig.1: Gweithgaredd mapio rhanddeiliaid



Roedd ymchwil y comisiwn yn eang a chynhwysol, er bod yr amserlen ei hun yn fyr.

Ein cam cyntaf fel grŵp oedd cynnal gwaith rhagchwilio. Cynhaliwyd gwaith darllen cefndirol helaeth, gan gynnwys cymariaethau rhyngwladol, trafodaethau anffurfiol o'r cychwyn cyntaf gyda Llywodraeth Cymru, a sgyrsiau anffurfiol gyda rhanddeiliaid eraill a nodwyd yn yr ymarfer mapio (gweler ffig.1). Defnyddiwyd y wybodaeth hon i arwain y gwaith ac i flaenoriaethu'r camau nesaf. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y diffiniad o arweinyddiaeth ysgolion* yng nghyd-destun y diwygiadau ADY.

O'r canfyddiadau cychwynnol, penderfynwyd bod angen i'r comisiwn ystyried llais cynulleidfa eang o randdeiliaid trwy arolwg ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig. Penododd y Cymdeithion Ymchwil OB3 Research i gefnogi'r gwaith o gynnal arolygon gydag arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Crëwyd arolwg dwyieithog ar-lein mewn trafodaethau rhwng y Cymdeithion ac Ymchwil OB3 Research. Ymgynghorodd y Cymdeithion â Llywodraeth Cymru i fireinio cwestiynau'r arolwg. Y nod oedd casglu barn ar ba mor barod oedd yr arweinwyr i weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) newydd. Dyluniwyd yr arolwg ei hun i'w gwblhau gan gynrychiolwyr fel penaethiaid ysgolion, uwch arweinwyr a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ar draws pob lleoliad ysgol a'i nod oedd archwilio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Ddeddf ADY yn ogystal â pha mor barod oeddent i'w gweithredu.

Gyda'n gilydd, fel Cymdeithion, buom yn trafod canlyniadau'r arolwg ar-lein ac aethom ati i benderfynu fel grŵp pa randdeiliaid fyddai orau i ni gyfweld â nhw i fynd i'r afael â gofynion y comisiwn. Yna defnyddiwyd canfyddiadau'r arolwg ar-lein i greu cwestiynau ar gyfer y cyfweliadau lled-strwythuredig (gweler Atodiad 4). Cynhaliwyd y cyfweliadau lled-strwythuredig ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn cynnwys Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA), Swyddogion ADY Awdurdodau Lleol, Arweinwyr ac Athrawon Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar , Arweinwyr CADY y Clwstwr, ac Estyn.

Amserlen

Llinell amser sy'n rhoi trosolwg o waith y comisiwn.

Ebrill 2022
Dechrau'r comisiwn

Mai 2022
Cyfarfod cychwynnol
- Casglu syniadau
- Adnabod rhanddeiliaid y Ddeddf ADY
- Paratoi trafodaethau cychwynnol
- Rhagchwilio

Mehefin 2022
Ail gyfarfod
- Rhannu syniadau ac adborth
- Nodi mannau problematig
- Cynllunio

Medi 2022
3ydd cyfarfod
- Adborth o gyfarfodydd a sgyrsiau
- Dyfeisio cwestiynau cychwynnol ar gyfer arolwg ar-lein
- Tendr ar gyfer cwmni ymchwil – OB3 wedi'i benodi

Hydref a Thachwedd 2022
- Gweithio gydag OB3 i greu'r holiadur
- Cyfarfodydd ar-lein i drafod y fformat
- Ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn ghylch cwestiynau

Rhagfyr 2022
- Cwblhau arolwg ar-lein
- Rhannu arolwg ar-lein gyda rhanddeiliaid

Ionawr 2023
- Cau'r arolwg ar-lein
- Archwilio'r canlyniadau
- Cyfarfod i graffu ar y canlyniadau ac i gynllunio'r camau nesaf
- Trefnu cyfweliadau lled-strwythuredig

Chwefror 2023
- Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid
- Dadansoddi adborth

Mawrth 2023
- Crynhoi'r canlyniadau
- Casgliadau ac argymhellion
- Ysgrifennu'r adroddiad
- Panel craffu

Ebrill 2023
- Adroddiad wedi'i baratoi i'w gyhoed di'n derfynol

Mai 2023
- Cyhoeddi'r adroddiad

5. Canfyddiadau Cychwynnol

5.1 Dadansoddiad Arolwg Ar-lein - OB3

Ar gyfer y dadansoddiad llawn gweler Atodiad 2

Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 14 Rhagfyr 2022 ac 16 Ionawr 2023 ac fe'i dosbarthwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'i Chymdeithion Carfan 3. Derbyniwyd cyfanswm o 730 o ymatebion i'r arolwg gydag 122 o ymatebwyr yn cwblhau'r arolwg yn Gymraeg a 608 yn Saesneg. Roedd yr arolwg yn nodi'n glir rôl yr ymatebwyr, ardal ddaearyddol, sector gwaith a phrif iaith.

Awdurdod lleol	Nifer	%	Awdurdod lleol	Nifer	%
Blaenau Gwent	10	1%	Sir Fynwy	13	2%
Pen-y-bont ar Ogwr	18	2%	Castell-nedd Port Talbot	42	6%
Caerffili	31	4%	Casnewydd	52	8%
Caerdydd	63	9%	Sir Benfro	20	3%
Sir Gâr	37	5%	Powys	32	5%
Ceredigion	15	2%	Rhondda Cynon Taf	42	6%
Conwy	7	1%	Abertawe	85	12%
Sir Ddinbych	23	3%	Torfaen	15	2%
Sir y Fflint	30	4%	Bro Morgannwg	16	2%
Gwynedd	44	6%	Wrecsam	26	4%
Ynys Môn	9	1%	Gwell gennyf beidio â dweud / Dim ateb	99	14%
Merthyr Tudful	1	0%			
Cyfanswm				**730**	**100%**

Nododd cyfanswm o 450 o holl ymatebwyr yr arolwg (62%) eu bod yn Gydlynwyr ADY yn eu lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg yn gweithio mewn lleoliad ysgol gynradd (69% neu 502) neu uwchradd (18% neu 130). Cafwyd nifer fach o ymatebion hefyd gan ymatebwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill fel ysgol arbennig, ysgol 3-16 neu 3-19, coleg addysg bellach / coleg chweched dosbarth neu uned cyfeirio disgyblion. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliad cyn ysgol neu ysgol ganol.

Dywedodd tri chwarter ymatebwyr yr arolwg (73% neu 513) eu bod wedi'u lleoli mewn lleoliadau addysgol cyfrwng Saesneg, tra bod un o bob pump wedi'u lleoli mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg (19% neu 136). Mae nifer fach (6% neu 42) wedi'u lleoli mewn lleoliad dwyieithog.

O'r ymatebion hyn i'r arolwg, nodwyd themâu sy'n dod i'r amlwg. Roedd y rhain yn sail i'n cyfweliadau lled-strwythuredig.

Hyder i ddarparu gofynion y Ddeddf ADY

Mae pedwar o bob pump o ymatebwyr yr arolwg naill ai'n hyderus iawn (11% neu 83) neu'n weddol hyderus (68% neu 493) ynghylch darparu gofynion y Ddeddf ADY gydag un o bob pump yn dweud nad ydynt yn arbennig o hyderus (16% neu 119) neu ddim yn hyderus o gwbl (4% neu 27), fel y dangosir yn Ffigur 5.02. Yr ymatebwyr a nododd eu prif rôl fel CADY yw'r rhai mwyaf hyderus ynghylch darparu'r Ddeddf ADY, gyda 79% (275 o 326) yn nodi eu bod naill ai'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus i wneud hynny.

Ffigur 5.02: Hyder ymatebwyr yr arolwg i ddarparu'r Ddeddf ADY (n = 730)



Mae'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn deall gwahanol elfennau o'r Cod ADY. Mae'r arolwg yn dangos bod gan ymatebwyr ddealltwriaeth dda o rôl y CADY a sut i gynnwys disgyblion a'u rhieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau, tra bod ganddynt lai o ddealltwriaeth am baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a sicrhau cyfraniad amlasiantaethol i'r broses hon.

Cymorth i weithredu'r Ddeddf ADY

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n gyffredinol dda gan eu lleoliad addysgol, eu hawdurdod lleol ac ysgolion eraill neu leoliadau addysgol ond roeddent yn teimlo eu bod yn cael llai o gymorth gan eu gwasanaeth iechyd a'u consortia addysgol rhanbarthol, a ddiffinnir fel y ddarpariaeth a sefydlwyd gan grŵp o awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion fel y nodir ym Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio Rhanbarthol. *Y Cwricwlwm i Gymru - Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cefnogi ysgolion? Estyn 2022*

Rhoddodd cyfanswm o 77 o ymatebwyr enw darparwr arall a oedd wedi eu cefnogi i ddarparu'r Ddeddf ADY. Mewn llawer o'r achosion hyn, soniodd ymatebwyr am rôl neu wasanaeth penodol o fewn y rhestr o sefydliadau a restrir, megis athrawon ymgynghorol ADY, arweinwyr clwstwr ADY, a Chydlynwyr ADY eraill. Nododd llawer o'r ymatebwyr eu bod wedi cael cymorth gan wasanaethau iechyd penodol fel y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Therapi Lleferydd ac Iaith, seicolegwyr addysgol, a therapyddion chwarae. Nododd nifer llai o ymatebwyr eu bod wedi derbyn cymorth gan sefydliadau'r trydydd sector fel SNAP Cymru, Anabledd Cymru a Barnardo's, tra bod llond llaw wedi derbyn cefnogaeth gan sefydliadau fel Gyrfa Cymru a Cholegau Cymru.

Nododd cyfanswm o 378 o'r ymatebwyr i'r arolwg y cymorth a fu'n ddefnyddiol iddynt wrth ddarparu gofynion y Ddeddf ADY. Nododd dadansoddiad o'r ymatebion 36 prif thema, ac roedd mwyafrif llethol y sylwadau yn gadarnhaol. Mae'r ymatebion a gafwyd yn awgrymu bod barn ymatebwyr â mwy o ffocws ac yn llai rhanedig nag ar gyfer cwestiynau penagored eraill yr arolwg. Roedd nifer fach iawn o enghreifftiau lle mynegwyd safbwyntiau croes cryf ar faterion yn ymwneud â'r Ddeddf, er enghraifft, y Ddeddf ADY yn cael ei hystyried fel arf ariannol i ddiwygio ADY.

Rhoddodd yr ymatebwyr ddigon o enghreifftiau cadarnhaol o'r gefnogaeth roeddent yn ei chael yn ddefnyddiol wrth ddarparu'r Ddeddf ADY. Dywedodd mwyafrif llethol fod eu hyfforddiant sylweddol wedi bod yn rhagorol. Yn yr un modd, roedd y cymorth a dderbyniwyd mewn cyfarfodydd grŵp clwstwr yn cael ei ganmol a'i werthfawrogi'n fawr:

> "Mae'r hyfforddiant a gafwyd gan yr ALl wedi bod yn helaeth ac yn fanwl."

> "Mae ein grŵp CADY Ysgolion Clwstwr yn adnodd ardderchog ac yn seinfwrdd".

Myfyriodd yr ymatebwyr ar drylwyredd yr hyfforddiant a'r cymorth a dderbyniwyd, ansawdd y wybodaeth ar faterion fel y prosesau dan sylw, defnyddioldeb yr enghreifftiau a'r templedi a rennir mewn digwyddiadau hyfforddi, gwybodaeth a rhannu arferion da, y cyfle i rwydweithio a gofyn cwestiynau a derbyn cyngor. Defnyddiwyd y sesiynau hyn i gael yr arweiniad diweddaraf ar weithredu'r Ddeddf ADY, i ddatblygu technegau a sgiliau datrys problemau gyda 'chyfeillion beirniadol', ac i feithrin cysylltiadau cefnogol:

> "Mae cyfarfodydd Clwstwr ADY lle mae pob CADY o'r clwstwr yn cyfarfod bob tymor yn darparu rhwydwaith cryf a diogel o gefnogaeth i drafod cwestiynau a datrys problemau."

> "Arweinwyr Clwstwr a diwrnodau gweithredu. Cydweithwyr clwstwr - rydyn ni wedi meithrin cysylltiadau cefnogol gwych."

Roedd gwaith clwstwr, yn arbennig, yn helpu ymatebwyr i ddatblygu arferion mwy cyson, rhannu arferion da a gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf:

> "Mae gweithio gyda'r ALl i ddatblygu dulliau sy'n seiliedig ar yr ALl hefyd wedi bod o gymorth i ddatblygu arferion ar draws ein clwstwr. Mae gwaith clwstwr wedi datblygu arferion mwy cyson, gan gefnogi pontio, deall a chynnal y berthynas â rhieni."

Roedd hyfforddiant ar y cynlluniau datblygu unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn rhywbeth roedd yr ymatebwyr wedi'i gael yn arbennig o ddefnyddiol, ynghyd â mynd dros ddogfennau, enghreifftiau ac adnoddau penodol (fel "Dyma Fi" a llythyrau llifliniad) a'u helpodd i baratoi i weithredu'r Ddeddf ADY.

> "Mae'r Cydlynwyr ADY o'r Awdurdod Lleol wedi bod yn anhygoel drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf; mae wedi bod yn hawdd iawn mynd atynt ac yn gyflym i'n cefnogi gyda chyfarfodydd CDU a chyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn."

Roedd yr ymatebwyr yn myfyrio'n gadarnhaol ar y cymorth gan awdurdod lleol a dderbyniwyd gan wahanol weithwyr proffesiynol ar gyfer cymorth cyffredinol a phenodol.

Nododd yr ymatebion llai ffafriol gyfyngiadau amser o ran mynychu digwyddiadau hyfforddi oherwydd eu bod yn gorfod blaenoriaethu cyfrifoldebau a rolau sy'n cystadlu, llwyth gwaith gormodol yn yr ysgol, a gorfod ymgymryd â darllen ac ymchwil annibynnol.

Effaith ar les personol

Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr o'r farn bod gweithredu'r Ddeddf ADY naill ai wedi cael effaith negyddol iawn (19% neu 139) neu eithaf negyddol (44% neu 322) ar eu lles eu hunain, ac mae'r rhain yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr sy'n gweithredu fel CADY fel eu prif rôl. Nid oedd chwarter y rhai a holwyd (25% neu 183) o'r farn ei bod wedi cael unrhyw effaith. Mae un o bob deg o'r rhai a holwyd yn credu ei bod naill ai wedi cael effaith gadarnhaol iawn (1% neu 8) neu eithaf cadarnhaol (9% neu 63) ar eu lles, fel y dangosir yn Ffigur 5.03, ac mae'r rhain yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli mewn lleoliadau addysg bellach/chweched dosbarth.

Ffigur 5.03 yn yr adroddiad llawn: Effaith gweithredu'r Ddeddf ADY ar les personol (n = 730)



Codwyd pryderon am y llwyth gwaith a'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rôl Cydlynwyr ADY gan ymatebwyr wrth ateb cwestiwn olaf yr arolwg, o ystyried bod hyn yn cael ei ystyried yn effeithio'n negyddol ar iechyd a lles Cydlynwyr ADY. Roedd sylwadau gan benaethiaid, ac uwch staff eraill yn cynnwys:

> "Mae Cydlynwyr ADY dan straen [ac yn] gorweithio, yn enwedig mewn ysgolion sydd â lefel uchel o ddisgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol."

> "Mae hwn yn amser ofnadwy i fod yn CADY. Mae'r atebolrwydd yn llethol, ac mae'r llwyth gwaith yn anghynaladwy. Dyw e ddim yn gweithio!"

> "Mae fy CADY ar ben ei thennyn gyda'r diwygiadau hyn."

> "Yr wythnos hon, mae'r holl aelodau wedi crio ar ryw adeg ac wedi dweud eu bod nhw'n rhwystredig gan nad oedden nhw'n gallu helpu'r plant fel maen nhw eisiau! Mae dau aelod o staff rhwng 39 a 45 oed wedi dweud eu bod am roi'r gorau i ddysgu."

Ategwyd y safbwyntiau hyn gan sylwadau a gynigiwyd gan Gydlynwyr ADY eu hunain:

> "Mae'r effaith mae'r ddeddfwriaeth wedi ei chael arna i'n bersonol fel CADY yn aruthrol. Dydw i bellach ddim yn teimlo y galla i wneud fy ngwaith yn iawn ac mae'n effeithio arnaf mewn ffordd dydw i erioed wedi'i phrofi o'r blaen mewn gyrfa 22 mlynedd."

> "A bod yn onest, dw i wedi cael trafferth mawr wrth geisio arwain ysgol fawr drwy'r newidiadau. Dydy'r cyfathrebu ddim wedi bod yn glir ac mae wedi bod yn straen ARUTHROL. Mae fy lles meddyliol wedi cael ei effeithio'n fawr. Mae aelodau staff yn poeni, a dw i'n gweld na allaf eu helpu. Cydlynwyr ADY fy nghlwstwr yw'r unig beth sydd wedi fy nghadw yn y swydd hon."

Dealltwriaeth a gweithrediad lleoliadau addysgol o'r Ddeddf ADY

Staff sy'n ymgymryd â rôl CADY

Mae ystod eang o staff yn ymgymryd â rôl Cydlynwyr ADY, gydag uwch arweinwyr (35% neu 256) ac arweinwyr canol (19% neu 142) yn cyfrif am dros hanner yr holl ymatebion. Mewn 29% o achosion (neu 213), disgwylir i'r Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol ymgymryd â'r rôl.

Nododd nifer fach (16) fod disgwyl i ddeiliad swydd arall ymgymryd â rôl CADY. Roedd y rhain yn cynnwys chwe ymateb lle mae mwy nag un person yn y lleoliad addysgol yn gyfrifol am y rôl (mewn rhai achosion oherwydd bod y lleoliad yn ysgol arbennig ac mae'r holl ddarpariaeth yn seiliedig ar CDU) a dau achos lle mae'r swyddog awdurdod lleol yn ymgymryd â'r rôl.

Mewn un o bob pump o achosion (20% neu 143), y CADY yn y lleoliad addysgol yw'r CADY arweiniol ar gyfer clwstwr yr ysgol, ond nid yw hyn yn wir gyda'r rhan fwyaf o'r achosion sy'n weddill (77% neu 541). Roedd tua 2% (17) naill ai ddim yn gwybod neu ddim wedi ateb.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi eu lleoli mewn lleoliadau ysgol (701) a oedd eu Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig wedi trosglwyddo i rôl CADY. Yn y rhan fwyaf o achosion (78% neu 550 o 701), roedd y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig wedi trosglwyddo i rôl CADY, er nad oeddent wedi gwneud hynny mewn 14% o achosion (neu 97). Nododd yr ymatebwyr oedd yn weddill naill ai nad yw hyn yn berthnasol iddynt (6% neu 43) neu nad oeddent yn gwybod neu heb ateb (2% neu 11).

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl CADY (cyfanswm o 450) a oeddent yn fwy neu'n llai tebygol o aros yn y rôl fel CADY ers cyflwyno'r Ddeddf ADY. Nodir y canfyddiadau yn Ffigur 5.04 ac maent yn awgrymu darlun cymysg. Mae'r data'n dangos bod dros draean (37% neu 167) yn llai tebygol o wneud hynny tra bod un o bob pump (20% neu 89) yn fwy tebygol o aros yn y rôl. Ar gyfer ychydig llai na thraean (31% neu 139) nid yw'r newid yn gwneud unrhyw wahaniaeth ac nid oedd 12% (neu 55) yn gwybod neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn.

Ffigur 5.04 yn yr adroddiad llawn: Tebygolrwydd y bydd deiliaid swyddi CADY yn aros yn eu rôl yn dilyn gweithredu'r Ddeddf ADY (n = 450)



Pontio o weithredu gan yr ysgol i ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi eu lleoli mewn ysgol[2] (cyfanswm o 701 o ymatebwyr) pa gyfran o ddysgwyr sydd ganddynt, a oedd gynt ar weithredu gan yr ysgol, sydd bellach yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod ysgolion wedi gwneud cynnydd amrywiol. Er bod chwarter y rhai a holwyd yn nodi bod hyd at 20% o'r disgyblion hyn ar ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol, (25% neu 175) mae tua 15% (neu 101) wedi symud dros 80% o'r disgyblion hyn i ddarpariaeth gyffredinol.

Amser a dreulir ar gyfrifoldebau CADY

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl CADY (450) faint o amser maent yn ei dreulio yn paratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Gofynnwyd iddynt nodi cyfanswm yr oriau a dreuliwyd o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd a fynychwyd. Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan 435 o'r ymatebwyr hyn, mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd yn cyfateb i 10 awr 36 munud. Mae hyn yn amrywio o lai nag awr i hyd at 100 awr.

Mae tri chwarter y rhai a ddarparodd ddata (73% neu 318) yn treulio hyd at a chan gynnwys 10 awr ar bob CDU. Mae'r data'n awgrymu bod Cydlynwyr ADY sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion cynradd yn treulio mwy o amser ar gyfartaledd yn paratoi pob CDU, sef 11 awr 20 munud yr un. Mae'r rhai o fewn colegau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth yn treulio'r lleiaf, o dan 4 awr yr un, er bod yn rhaid cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli'r data hyn o ystyried y nifer isel o ymatebwyr a roddodd ddata o'r lleoliadau hyn. Mae ymatebwyr mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion hefyd ar gyfartaledd yn treulio llai o amser yn paratoi CDU, sef cyfartaledd o 7 awr yr un yn y lleoliadau hyn.

Yn seiliedig ar ddata dilys a ddarperir gan 410 o ymatebwyr], mae 44% o gyfrifoldebau CADY ar gyfartaledd yn cael eu cwblhau yn ystod amser ysgol. Mae'r gyfradd hon yn amrywio'n sylweddol o ddim i 100%. Ar gyfartaledd, nododd yr ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau addysg bellach/chweched dosbarth, ffederasiynau ac ysgolion 3 -19 eu bod yn gallu cwblhau cyfran uwch o bob CDU yn ystod amser ysgol (sef 56% ar gyfartaledd ar draws y lleoliadau hyn).

Mynegwyd pryder sylweddol am faint o amser a dreulir gan Gydlynwyr ADY ar waith papur, yn aml ar draul darparu cymorth i ddisgyblion. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg oedd:

> "Mae faint o waith papur sydd bellach yn ddisgwyliedig yn aruthrol."
>
> "Er mwyn cadw i fyny â'r holl waith papur sydd ei angen, rwy'n gweithio 70+ awr yr wythnos. Mae hyn yn anghynaladwy."
>
> "Rwy'n poeni'n ddifrifol gan fod mwy a mwy o waith papur a llai o gymorth i blant a staff."
>
> "Fel CADY, rydw i bellach yn treulio llawer mwy o amser ar waith papur nag yr ydw i erioed wedi gorfod ei wneud yn y gorffennol. Mae hyn yn lleihau'r amser y gallaf ei dreulio yn gwneud gwahaniaeth i fyfyrwyr unigol ac o ganlyniad mae'n wrthgynhyrchiol. Mae'n fy ngwneud i'n drist iawn i feddwl am y myfyrwyr sydd angen help ac sy'n methu ei gael."

Cynigiwyd llawer o sylwadau am faint o waith a ddisgwylir gan Gydlynwyr ADY y tu allan i oriau ysgol, gan gynnwys:

> "Nid yw Cydlynwyr ADY yn cael yr amser i gyflawni eu rolau yn ddigonol ac yn y pen draw yn gweithio yn eu hamser eu hunain y tu allan i oriau ysgol. Dydy ysgrifennu CDU ar benwythnos ddim yn dderbyniol ond dyma sy'n digwydd er mwyn cwrdd â therfynau amser caeth."
>
> "Rydw i mewn ysgol lle dw i'n dysgu yn y boreau ac mae gen i'r prynhawn i wneud cyfrifoldebau CADY bedwar diwrnod yr wythnos. Mae hynny'n uchafswm o 15 awr gwaith i gyflawni cyfrifoldebau CADY. Roedd hynny'n ddigon cyn y Ddeddf ADY newydd ond nawr dw i'n cymryd gwerth wythnos o fy amser i ysgrifennu CDU. Mae 'na wythnosau pan dw i 'n iawn ac wythnosau pan dw i'n boddi. Yn gyffredinol, pan dw i'n edrych ar fy rhestr o bethau i'w gwneud, dw i'n boddi!"

Pa mor barod yw lleoliadau addysgol?

Mae mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod eu lleoliad addysgol naill ai'n barod iawn (26% neu 189) neu'n weddol barod (64% neu 465) i gyflwyno'r Ddeddf ADY ac ychydig iawn (8% neu 59) oedd yn credu nad yw eu lleoliad yn barod, fel y dangosir yn Ffigur 5.05. Dywedodd ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau ysgolion uwchradd mai nhw oedd y rhai lleiaf parod, gyda 15% (19 o 130 o ymatebwyr ysgol uwchradd) o'r farn nad yw eu hysgol yn barod i weithredu'r Ddeddf ADY, ac yna'r rhai mewn lleoliadau cynradd, sef 7% (37 o 497 o ymatebwyr ysgol gynradd).

(Ffigur 5.05) Pa mor barod yw lleoliadau addysgol i gyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



At ei gilydd, mae'r ymatebwyr o'r farn bod eu lleoliad addysgol naill ai'n barod iawn neu'n weddol barod i gyflwyno gwahanol elfennau o'r Cod. Mae ymatebwyr o'r farn bod eu lleoliad yn barod iawn o ran cynnwys disgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau, tra eu bod yn llai hyderus bod eu lleoliad addysgol yn barod i fabwysiadu dull amlasiantaeth o gynllunio a chreu CDU.

Atgyfnerthir y sefyllfa hon ymhellach wrth ddadansoddi dewis ymatebwyr yr arolwg o'r datganiad sy'n disgrifio orau sefyllfa eu lleoliad addysgol o ran paratoi a chynnal CDU. Mae ychydig dros draean (39% neu 284) o'r farn bod eu lleoliad addysgol mewn sefyllfa sicr (yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r newidiadau allweddol a bod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol wedi'u nodi a'u cynllunio ar eu cyfer) ac mae hanner (50% neu 366) o'r farn bod eu lleoliad addysgol yn datblygu (yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r UDA ymwybyddiaeth gadarn). Mae ychydig o dan un o bob deg (9% neu 66) o'r farn bod sefyllfa eu lleoliad addysgol yn 'dod i'r amlwg' yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r UDA ychydig o ymwybyddiaeth.

Yr ymatebwyr o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio yw'r rhai mwyaf tebygol o ddweud bod eu lleoliad mewn sefyllfa sicr i ddatblygu a chynnal CDU gydag ymatebwyr ysgolion uwchradd y lleiaf tebygol o feddwl bod eu lleoliad mewn sefyllfa sicr.

Ymwybyddiaeth ymhlith cyrff llywodraethu

Mae gan bob ysgol yng Nghymru gorff llywodraethu sydd â chyfrifoldebau statudol gan gynnwys y Ddeddf ADY. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth ADY yn amrywiol. Mae ychydig llai na dau o bob pump o'r rhai a holwyd (18% neu 130) o'r farn bod pob llywodraethwr yn eu lleoliad addysgol yn gwbl ymwybodol, tra bod ymwybyddiaeth yn is ar draws y sampl sy'n weddill o'r arolwg.

Ffigur 5.06 Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth ALNET ymhlith aelodau cyrff llywodraethu (n = 730)



Derbyn dysgwyr ADY o leoliad addysgol arall

Nododd ychydig dros hanner y rhai a holwyd (52% neu 379) fod eu lleoliad addysgol wedi profi heriau wrth dderbyn dysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o leoliad addysgol arall. Nid oedd dros draean wedi gwneud (37% neu 268) ac nid oedd y gyfran sy'n weddill (11% neu 83) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn hwn.

Darparodd cyfanswm o 358 o'r ymatebwyr i'r arolwg fanylion am yr heriau a brofwyd wrth dderbyn dysgwr ADY o leoliad addysgol arall. Nododd dadansoddiad o'r ymatebion hyn 35 o brif themâu a oedd yn amrywio o ran ehangder a dyfnder y materion a godwyd, gyda rhai themâu yn rhai trosfwaol.

Un brif thema mewn ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiwn hwn yw oedi o ran gwaith papur neu waith papur ar goll, sy'n effeithio ar gyfnod pontio rhwng lleoliadau addysg eraill sy'n effeithio ar brosesau a chymorth Cynllun Datblygu Unigol neu ddatganiad ADY, ar gyfer disgyblion a sefydliadau. Roedd sylwadau'n canolbwyntio ar y diffyg gwybodaeth brydlon o leoliadau addysgol blaenorol (yn enwedig wrth i ddisgyblion drosglwyddo o leoliad cyn ysgol i ysgol gynradd, o'r cynradd i'r uwchradd, ac o addysg uwchradd i addysg bellach) a phrinder ac ansawdd y gwaith papur i'w galluogi i gynnal asesiadau digonol.

> "Cael cronolegau gan ysgolion eraill yn ogystal â gwybodaeth am DDdY a CDU sydd ar waith sy'n gwneud penderfyniadau yn anodd. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer dysgwyr sy'n symud i'n hysgol ar weithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy yn ogystal â lle mae angen gwneud penderfyniadau."

"Dydyn ni ddim yn cael gwybodaeth mewn modd amserol i wneud penderfyniadau gyda dysgwyr a theuluoedd/gofalwyr ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi'r dysgwyr gydag ADY yn dod i'r coleg.""

Roedd y pryderon hyn yn aml yn cydblethu ag ymdrechion ac anawsterau o ran methu â chael gafael ar adroddiadau neu gymorth gan asiantaethau allanol i alluogi'r lleoliad presennol i wneud asesiadau anghenion digonol a darpariaethau gofal a oedd yn cydymffurfio â naill ai CDU presennol neu dystiolaeth sy'n ofynnol i lunio CDU newydd. Mae'r diffyg strwythur o ran system sy'n hwyluso pontio disgyblion o un lleoliad addysgol i'r llall yn atal ysgolion ac asiantaethau iechyd rhag gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gefnogi'r disgyblion hyn pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Arweiniodd hyn at ymatebwyr yn mynegi pryderon ynghylch annigonolrwydd CDU.

"Trosglwyddo gwybodaeth; Nid yw CDU mewn ysgolion yn ffit i bwrpas."

"Dim digon o wybodaeth am Iechyd y Plentyn - dim rhannu gwybodaeth [....] darparu'r gefnogaeth gywir mewn modd amserol e.e., gorfod cyflogi aelodau ychwanegol o staff."

"Trosglwyddo o CDU ALl i ysgol gan fod y plentyn yn newid awdurdodau. Ceisio cael Iechyd i fynychu cyfarfodydd."

Mae'r materion hyn, yn ôl yr ymatebwyr, yn ddieithriad, yn effeithio ar ddigonolrwydd y cyllid sydd ar gael, ac yn aml maent yn rhoi llawer iawn o straen ariannol ar y sefydliadau nad ydynt yn teimlo sy'n cael eu cefnogi gan gronfeydd a chyllidebau ysgolion na chan gyllidebau awdurdodau lleol. Mae sefydliadau addysgol yn teimlo na allant ddarparu ar gyfer anghenion a fynegwyd, ac mae hyn yn peryglu cywirdeb y CDU

"Pobl sydd â darpariaeth staffio benodol ar waith, dydyn ni ddim yn darparu e.e. addysgu mewn grwpiau bach neu 1-1 pan nad oes gennym ddigon o gyllid."

"Canfod ac ariannu'r lefel o gefnogaeth sydd ei hangen pan fo cyllidebau a staff presennol eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf."

"Mae staffio yn broblem fawr ynghyd â chyllid, mae'r ysgol yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion pob dysgwr ac yn ymestyn staff yn rhy bell. Nid yw cyfyngiadau cyllidebol yn caniatáu i ysgolion ariannu anghenion ein dysgwyr yn briodol."

Mae ymatebwyr hefyd o'r farn, bron yn ddieithriad, bod y mater yn ymestyn i lefelau staffio annigonol i gynnal CDU, a chapasiti ffisegol (yn enwedig pan nodir addasiadau i ddisgyblion ag anghenion dwys) i dderbyn trosglwyddiadau dysgwyr o leoliad addysgol arall gan ofni eu bod yn cyfrannu at leihau lles a materion diogelu i staff a disgyblion. Mae'r pryderon hyn hefyd yn ymwneud â thema o bryderon ynghylch heriau ymddygiadol gan ddisgyblion ADY, a chredir bod rhai ohonynt mewn lleoliadau anaddas.

"Diffyg cyllid, diffyg adnoddau, corfforol a dynol, a lles aelodau'r staff a'r CADY."

"Heriau ymddygiadol a staff cyfyngedig i ddelio â hyn a dim cyllid ychwanegol. Mae'n dod yn fater diogelu."

"Mae gennym ddisgyblion sy'n amlwg yn ddisgyblion CAA neu Ysgol Arbennig yn cael eu rhoi mewn ysgolion pan nad yw er eu budd nhw. Argaeledd lleoliadau addas."

Mae rheoli disgwyliadau rhieni lle darparwyd darpariaethau'n ffurfiol gan ysgolion blaenorol a'r hyn y gellid neu na ellid ei ddarparu yn y lleoliad presennol yn profi i fod yn faterion hynod heriol. Mae'r rhain yn amrywio o rieni nad ydynt yn ymwybodol bod eu plant wedi'u nodi ag ADY, yn cael anawsterau wrth dderbyn diagnosis neu ddatganiad neu'n amharod i dderbyn hynny, bod yn betrus gyda'r wybodaeth a ddarperir am eu plant yn cael diagnosis ADY yn eu hysgol newydd, neu'n cael diagnosis a datganiad ar gyfer eu plant nad yw'r ysgol newydd yn cytuno â nhw. Mae hyn yn cyd-fynd â phrif thema arall: anghysondebau o fewn CDU.

"Cael cefnogaeth llawn amser yn y Cynradd dim cyllid ar gyfer cymorth yn yr ysgol uwchradd. Mae rhieni'n disgwyl yr un lefel o gefnogaeth."

"Rhieni sy'n dewis gadael darpariaeth arbenigol i gael mynediad i ddarpariaeth prif ffrwd yn hytrach na darpariaeth arbenigol."

"Nid yw ADY wedi'i adnabod gan y lleoliad arall, nid oedd rhieni yn ymwybodol yn y lleoliad blaenorol."

"Disgwyliad gan rieni, os bu anghydfod ynghylch lefel y gefnogaeth gan ysgol arall y gallant gyrraedd, mynnu cefnogaeth a bydd hynny'n cael ei rhoi er nad oes tystiolaeth i gefnogi anghenion ADY. Disgyblion sy'n symud o ysgolion eraill ond wedyn ddim yn mynychu - yn ei chael hi'n anodd adeiladu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer lleoliad arbenigol."

Mae'r thema olaf hon yn gysylltiedig iawn â'r gwahaniaeth a welwyd gan ymatebwyr rhwng prosesau CDU ar gyfer Cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal Lloegr (EHCP) a CDU yng Nghymru a oedd yn broblematig o ran parhad darpariaethau gofal ac anghenion arbenigol, ac ariannu:

"Trosglwyddo gwybodaeth o ysgolion eraill yn enwedig o dros y ffin. Y cyfrifoldeb am y datganiad/CDU ar gyfer disgybl o un ALl i un arall, yn enwedig os ydynt wedi dod o Loegr gydag EHCP."

"Trosglwyddo nodiadau a gwybodaeth am y ddarpariaeth sy'n cael ei darparu gan y lleoliad blaenorol. Plant sy'n trosglwyddo gydag EHCP o Loegr sydd ag anghenion meddygol, ac anhawster cydlynu'r trosglwyddiad gyda'r bwrdd iechyd."

Manteision gweithredu'r Ddeddf ADY

Rhoddodd cyfanswm o 440 o ymatebwyr yr arolwg ymateb i gwestiwn a ofynnodd am y manteision a ragwelir o weithredu'r Ddeddf yn eu lleoliad addysgol. Nododd dadansoddiad o'r ymatebion ymateb cymysg gyda 33 thema y gellid eu categoreiddio yn dri grŵp eang, a drafodir yn eu tro, sef:

I. y bydd y Ddeddf ADY yn fuddiol i leoliadau addysgol
II. na fydd y Ddeddf ADY yn fuddiol i leoliadau addysgol
III. ansicrwydd ynghylch buddion y Ddeddf ADY i leoliadau addysgol

I. Buddion y Ddeddf ADY

Am amrywiaeth o resymau, mae ymatebwyr o'r farn bod buddion uniongyrchol a hirdymor ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ADY yn eu lleoliadau addysgol. Mynegodd yr ymatebwyr farn gadarnhaol ar yr elfennau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (CCU) a phroffiliau un dudalen wrth weithredu'r Ddeddf:

> "Gwell dealltwriaeth o ddisgyblion gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae proffiliau un dudalen yn hynod ddefnyddiol i staff addysgu."

> "Roedd y broses CCU yn grymuso disgyblion a rhieni o'r camau cynllunio ac felly mae'n cynnwys rhieni mewn cyferbyniad â systemau blaenorol a oedd yn meithrin gwell perthynas ag ysgolion ac asiantaethau, a chefnogaeth gyfannol well i rieni eu hunain."

> "Diwallu anghenion unigol a sicrhau dull amlsynhwyraidd cyfannol o ran y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol wrth wrando ar gyfraniadau'r holl randdeiliaid."

Bu'r ymatebwyr yn myfyrio'n gadarnhaol ar y tryloywder a'r hyblygrwydd a roddwyd i CDU ochr yn ochr â'u hwylustod i ddefnyddwyr mewn cyferbyniad â threfniadau blaenorol.

> "Mae'r CDU yn canolbwyntio mwy ar y disgybl, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn haws ei ddeall na datganiadau. Gellir rhoi cefnogaeth ar waith yn gyflymach. Mae rhieni'n teimlo fel eu bod wedi'u cynnwys."

Darparwyd o leiaf 35 o enghreifftiau o sut mae gweithredu'r Ddeddf yn mynd i'r afael ag anghenion plant yn well trwy ddarparu map darpariaeth clir a chymorth pwrpasol i bawb sy'n gysylltiedig. Roedd yna hefyd lawer o enghreifftiau o sut roedd yn hwyluso proses o nodi anghenion yn gynnar ac ymyrryd yn gynnar.

Roedd ymatebwyr o'r farn bod gweithredu'r Ddeddf ADY wedi arwain/yn arwain at fwy o gydweithio cydgysylltiedig trwy gydweithredu amlasiantaethol, gan ddarparu disgwyliadau clir i ddysgwyr, teuluoedd ac addysgwyr. Dadleuwyd bod hyn yn cael ei ategu gan ddarpariaethau fel Tyfu[6], pwynt un-cam ar gyfer gwybodaeth hygyrch a fydd yn helpu i sicrhau bod golwg fwy cyfannol ar gymorth yn cael ei mabwysiadu, yn enwedig gan fod parhad y cymorth yn allweddol i rai dysgwyr hyd at 25 oed. Bydd mwy o weithio cydgysylltiedig hefyd yn helpu i bontio'n ddi-dor rhwng pob sector addysg:

> "Addysg fwy cynhwysol i ddisgyblion. Cynlluniau a fydd yn cael eu mabwysiadu gan ysgolion eraill wrth drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Uwchradd. Trosglwyddiad gwell o'r cyfnod cyn ysgol i'r Meithrin ac o'r Ysgol Gynradd i'r Uwchradd."

> "Roedd pontio i ddysgu ôl-16 wedi gwella'n fawr, disgyblion yn ymwneud mwy â'u cynlluniau."

Rhannodd yr ymatebwyr eu dealltwriaeth o sut mae gweithredu'r Ddeddf wedi caniatáu symud y rheolaeth dros ddarpariaethau a gweithredu i ffwrdd o awdurdodau lleol i'r ysgolion, ac mae hyn wedi arwain at fwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth i leoliadau addysgol unigol.

Amlygodd yr ymatebwyr y manteision addysgol a system gyfan/ysgol gyfan, sydd wedi digwydd trwy'r Ddeddf ADY:

> "Mwy o ffocws ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel i'r holl fyfyrwyr. Gwell ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, gyda chymorth wedi'i dargedu'n glir. Atebolrwydd staff addysgu ar lefel gyffredinol, yn hytrach na chyfeiriad at ADY. Gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fyfyrwyr sydd angen DDdY, gydag atebolrwydd a rennir o ran adolygu. Mwy o ffocws ar hyfforddiant ADY."

Mynegodd yr ymatebwyr hefyd eu canfyddiad o'r budd bod y Ddeddf ADY yn caniatáu iddynt symud i ffwrdd o labelu disgyblion:

> "Nid oes angen labelu plant a fyddai wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai ag AAA sydd ond angen ymyrraeth neu gymorth ychwanegol tymor byr, neu addasiad rhesymol, fel ADY o dan y Ddeddf ADY."

II. Dim buddion o'r Ddeddf ADY

Roedd ymatebion i'r arolwg yn nodi mai prin fyddai'r budd, os o gwbl, fyddai'n digwydd o ganlyniad i weithredu'r Ddeddf ADY yn cynnwys tystiolaeth yn amrywio o lwyth gwaith cynyddol y bernir ei fod yn anghynaladwy, gwaith papur nad oes modd ei reoli a chyllid annigonol, a fformiwla gyllidebol wallus nad yw'n gweithio i bob ysgol neu sy'n andwyol i ysgolion:

> "Mae CADY bellach yn swydd nad yw'n un addysgu oherwydd y llwyth gwaith, felly mae'n anodd gweld unrhyw fanteision o safbwynt yr ysgol."

> "Mae'n niweidiol - goblygiadau ariannol enfawr, gor-fiwrocrataidd, mwy o bwysau a llwyth gwaith cynyddol ar y CADY; diffyg cefnogaeth gan asiantaethau allanol. Dim darpariaeth Seicolegydd Addysg."

"Rwy'n teimlo y bydd yn cael effaith andwyol ar y staff / CADY. Roedd y system flaenorol yn darparu gwasanaeth a chefnogaeth dda i ADY. Yn sicr, dyw'r drefn newydd ddim yn well, os nad gwaeth."

"Heb gyllid ychwanegol, alla i ddim gweld unrhyw fudd. Mae staff ysgolion yn cael eu hyfforddi mewn meysydd penodol - ond mae hyn bellach yn cael effaith ar yr ysgol ehangach a'u rôl o fewn yr ysgol. Does gan ysgolion ddim yr arian i gyflogi staff ychwanegol i gymryd lle staff."

Mynegodd rhai hefyd amheuaeth bod y Ddeddf ADY wedi'i datblygu i leihau nifer y darpariaethau sy'n rhoi disgyblion dan anfantais.

"Rydym bob amser wedi gosod ADY fel blaenoriaeth ac rydym bob amser wedi cefnogi pob dysgwr fel unigolion yn ein hysgol, rydym yn credu yn y Cod Ymarfer newydd, ond nid yw wedi newid unrhyw beth yma - rydym bob amser wedi gweithio mewn dull sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion ac rydym bob amser wedi cynnwys teuluoedd ac asiantaethau amlasiantaethol wrth wneud penderfyniadau. Mae'r pryderon sydd gennym yn parhau o hyd, sef: 1. anghysondebau mewn gweithredu rhwng ALlau, 2. y diffyg cefnogaeth i lawer o faterion ADY, i'r ysgol ac athrawon dosbarth."

"Roedd angen rhywfaint o welliant ac addasu ar y system Datganiadau, ond nid i'r pwynt o ddechrau eto gyda system gwaith newydd a chymhleth iawn sy'n gofyn llawer o amser. Mae gweddill y ddarpariaeth ADY yn yr ysgol ac atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill ar gyfer disgyblion, mewn perygl o gael ei chyfaddawdu oherwydd llwyth gwaith a llwyth amser y broses newydd. Gellid bod wedi gwario arian yn well ar ddarparu cymorth uniongyrchol i ddisgyblion, yn hytrach nag ailwampio'r system yn llwyr, gwasanaethau cyfieithu a chyfreithiol, hyfforddiant i staff ALl a staff CADY, creu rolau aneffeithiol ac ati."

III. Ansicrwydd ynghylch buddion y Ddeddf ADY

Mynegodd rhai ymatebwyr ansicrwydd ynghylch manteision gweithredu'r Ddeddf ADY. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nad oedd ymatebwyr wedi penderfynu ynghylch y Ddeddf ADY, yn rhannol oherwydd ei bod yn ddyddiau cynnar. Dim ond dau ymatebydd allan o'r 440, a ddywedodd "Ddim yn Berthnasol" i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg.

Diwallu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Nododd cyfanswm o 178 o'r ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi'u lleoli mewn lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae'r mwyafrif (84% neu 149) o'r farn bod eu lleoliad addysgol naill ai'n gymwys iawn (44% neu 78) neu'n weddol gymwys (40% neu 71) i ddelio ag anghenion dysgwyr ADY sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr sy'n weddill o'r farn nad ydynt naill ai'n arbennig o gymwys (11% neu 20) neu ddim yn gymwys o gwbl (3% neu 6) i wneud hynny ac nid oedd yr ychydig sy'n weddill (2% neu 3) naill ai'n gwybod neu o'r farn bod hyn yn amherthnasol iddynt.

Mae cyfran debyg (88% neu 153) yn credu bod eu lleoliad addysgol naill ai'n gymwys iawn (53% neu 95) neu'n weddol gymwys (33% neu 58) i ddarparu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) drwy gyfrwng y Gymraeg. Ychydig iawn sy'n credu nad ydynt naill ai'n arbennig o gymwys (10% neu 18) neu ddim yn gymwys o gwbl (3% neu 6) i wneud hynny. O'r rhai sydd angen mynediad at adnoddau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg (cyfanswm o 175), mae ychydig dros draean (37% neu 65) o ymatebwyr yr arolwg yn credu bod ganddynt fynediad digonol tra nad oedd 60% (105) o'r farn bod hynny'n wir. Nid oedd yr ychydig sy'n weddill (3% neu 5) yn gwybod.

Mae ychydig dros hanner ymatebwyr yr arolwg (52% neu 90 o'r 174) o'r farn bod gan eu staff fynediad at hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol i gyflawni gofynion y Ddeddf ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd ryw dau o bob pump (43% neu 74 o 174) o'r farn bod hyn yn wir ac nid yw'r 6% sy'n weddill (neu 10) yn gwybod.

Rhoddodd cyfanswm o 138 o ymatebwyr yr arolwg sylwadau pellach ar weithredu'r Ddeddf ADY drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd y sylwadau hyn yn ymdrin â chyfanswm o 22 o themâu. Roedd rhain yn cynnwys sylwadau a gynigiwyd gan ymatebwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth a'r rhagdybiaeth a wnaed pe byddai plentyn yn dymuno cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg y byddai'n mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai ysgolion yn cydnabod bod gan rieni yr opsiwn i ddewis iaith ar gyfer dogfennaeth ac y byddai'n bosibl cael yr awdurdod lleol i'w chyfieithu, ond ar y cyfan, nid oedd llawer o geisiadau am gyfieithiadau.

Un mater allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd un yn ymwneud â diffyg cyfartaledd o ran yr adnoddau sydd ar gael yn y Gymraeg, sy'n creu anfantais i'r dysgwr, gan eu bod yn cael eu cyfieithu'n aml gan staff mewn ysgolion ac felly nid ydynt wedi'u cysoni.

> "Mae darparu ADY drwy'r Gymraeg yn anodd iawn. Mae'r mwyafrif helaeth o'r holl adnoddau ar gael yn Saesneg yn unig, gan gynnwys hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg ac mae cyngor gan asiantaethau allanol drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw profi am ddyslecsia ar gael drwy'r Gymraeg, mae hyn yn rhoi ein dysgwyr dan anfantais. Nid yw gwasanaethau cymorth llythrennedd ar gael yn Gymraeg chwaith i gefnogi gyda materion llythrennedd penodol. Mae cynlluniau darllen a ffoneg Cymraeg yn gyfyngedig, ac yn aml mae'n rhaid i ysgolion greu eu hadnoddau eu hunain i gefnogi'r unigolion."

Mynegwyd pryderon ynghylch disgyblion ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg:

> "Rhaid i ni sicrhau nad yw dysgwyr sydd wedi dewis cyfrwng Cymraeg yn trosglwyddo i gyfrwng Saesneg fel cam i fynd i'r afael ag ADY plentyn oherwydd nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd."

> "Mae fy ysgol yn rhannu safle gydag ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae 21 o ddisgyblion wedi trosglwyddo o naill ai'r ysgol Gymraeg honno neu eraill yn y dref. Roedd bron pob un ohonynt wedi cael eu nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac y byddent yn elwa o addysg cyfrwng Saesneg. Gallai rhywrai awgrymu ein bod wedi dod yn adran ADY i'r ysgol Gymraeg!"

Cadarnheir y thema hon ymhellach gan sylw arall sy'n rhoi gwerth ar fuddsoddiadau ADY cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion:

> "Byddai'n fuddiol pe bai Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gallu gweithredu'r Ddeddf ADY drwy gyfrwng y Gymraeg gan y gallai fod baich ychwanegol ar ysgolion cyfrwng Saesneg cyfagos wrth i ddysgwyr drosglwyddo yno oherwydd nad yw ysgolion yn gallu diwallu eu hanghenion."

> "Mae 'na ddiffyg adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion sy'n mynychu addysg Gymraeg dan anfantais. Mae rhai disgyblion yn gadael addysg Gymraeg oherwydd y diffyg cefnogaeth sydd ar gael yn y Gymraeg."

Mae ariannu darpariaeth Gymraeg yn destun pryder, hyd yn oed ymhlith yr ysgolion hynny sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ond sydd serch hynny yn teimlo na allant gyfieithu adnoddau a dogfennau yn ddigonol. Mae ysgolion dwyieithog hefyd yn teimlo pwysau gweithredu'r Ddeddf oherwydd diffyg cymwyseddau sgiliau Cymraeg ymhlith staff i ddarparu ymyriadau yn y Gymraeg, ac mae barn bod angen cyllideb i gwmpasu'r cyfieithiadau Cymraeg.

> "Rydym yn ysgol ddwyieithog ac mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar weithredu'r Ddeddf yn yr ysgol. [...]. Mae ymyriadau'n bennaf yn Saesneg. [...] oherwydd bod gan lai o staff lefel gymwys o Gymraeg i ddarparu ymyriadau yn Gymraeg. [...] Mae llawer llai o adnoddau ar gyfer ymyriadau yn Gymraeg. Mae angen arian i allu trefnu dwbl y swm o adnoddau ar gyfer pob disgybl gan fod yn rhaid i ni gyfieithu i'r Gymraeg."

Mae thema gyffredin arall a godwyd gan ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â recriwtio staff cyfrwng Cymraeg, a ddisgrifiwyd yn aml fel sefyllfa o argyfwng.

"Mae staffio cyfrwng Cymraeg, yn enwedig cymorth/cynorthwywyr dosbarth, yn amhosib, dros y tair blynedd diwethaf, yr unig ymgeiswyr oedd gennym oedd myfyrwyr 6ed dosbarth oedd yn cymryd blwyddyn allan. Nid yw'r unigolion hyn yn aros ac nid oes ganddynt unrhyw brofiad o'r gwaith."

Sgiliau, arbenigedd a gallu mewn lleoliadau addysgol Sgiliau a gwybodaeth y gweithlu

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod gan eu lleoliad addysgol weithlu medrus i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth, naill ai i raddau helaeth (25% neu 185) neu i ryw raddau (64% neu 470). Mae llai nag un o bob deg o'r farn nad yw eu lleoliad addysgol â'r adnoddau digonol.

Er gwaethaf hyn, mae rhai dau o bob pump o'r rhai a holwyd (41% neu 302) o'r farn bod gan eu lleoliad addysgol fylchau o ran sgiliau neu wybodaeth ar draws eu gweithlu a allai eu rhwystro rhag cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r un gyfran (42% neu 304) o'r farn nad yw hyn yn wir ac nid yw'r 18% sy'n weddill (neu 124) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn.

Ymhelaethodd 247 o ymatebwyr yr arolwg ar y bylchau sgiliau a gwybodaeth yn eu lleoliad. Nodwyd tri maes allweddol.

a. Sgiliau Cynorthwywyr Addysgu

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr anawsterau wrth recriwtio a chadw Cynorthwywyr Addysgu fel y prif reswm dros fylchau yn set sgiliau'r staff. Roedd hyn i'w weld ar sawl ffurf, ond roedd y teimlad yr un fath, h.y., bod y sefyllfa'n gwaethygu. Y prif resymau a roddwyd dros yr anallu hwn i recriwtio a chadw Cynorthwywyr oedd:

- Diffyg ymateb i hysbysebion a niferoedd isel yn cael eu nodi.
- Diffyg sgiliau i reoli dysgwyr ag ADY - roedd hyn yn arbennig o wir gyda staff 1:1. Roedd niferoedd uchel iawn yn nodi'r rheswm hwn.
- Cyflog gwael a'r gallu i ddod o hyd i waith mewn mannau eraill gyda llai o heriau a mwy o gyflog. Nodwyd archfarchnadoedd yn aml fel dewis amgen. Yn yr un modd, nododd niferoedd uchel y rheswm hwn.
- Diffyg diogelwch swydd. Nodir hyn sawl gwaith hefyd yn enwedig gan y gellir cyfyngu oriau i 2 awr y dydd ac mae disgyblion yn symud ymlaen yn aml. Cynorthwywyr Addysgu yn aml yw'r cyntaf i gael eu diswyddo pan fydd cyllidebau'n cael eu tocio.
- Y gallu i ddarparu DDdY neu ADY drwy gyfrwng y Gymraeg

Y dyfyniadau penodol yn y maes hwn oedd:

"Methu cael Cynorthwywyr ar gyfer 1:1 oherwydd tâl gwael"

"Mae llawer o Gynorthwywyr profiadol yn gadael gydag ymddeoliad cynnar neu salwch a neb yn dod yn eu lle."

"Mae cyflogi Cynorthwywyr gyda sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth addas yn rhwystr. Cyflogi Cynorthwywyr sydd ag awydd gweithio gydag anghenion ADY heriol a chael eu talu'n wael amdano."

"Mae staff sy'n gweithio gyda disgyblion ag ADY yn gadael yn eu niferoedd am swyddi sy'n talu'n well. Mae llawer o staff yn dod o asiantaethau gyda phrofiad cyfyngedig a diffyg sgiliau."

Mae'n ymddangos bod yr anallu i ddenu staff medrus fel Cynorthwywyr yn rhwystro'r ddarpariaeth gan nad oes modd diwallu anghenion disgyblion. Mae ysgolion yn symud i staff asiantaeth ac ychydig iawn sy'n cael eu hyfforddi.

b. Sgiliau CADY

O ran y CADY, nododd sawl ymatebydd fod y rôl yn un anodd i'w rheoli a'r llwyth gwaith yn llethol; mae hyn yn arwain at lai o bobl yn dymuno gwneud y swydd. Dywedodd rhai nad oedd y cyflog ychwanegol yn cyfateb i'r pwysau ychwanegol.

> "Mae rôl ADY yn amhosib i'w rheoli - does neb eisiau'r rôl a does neb yn ymgeisio."

> "Ychydig iawn o dâl ychwanegol am y swydd."

I grynhoi, mae pwysau gwaith, cymhelliad cyflog isel a chanfyddiad o ddiffyg sgiliau yn atal staff rhag gwneud cais ac mae hyn yn arwain at fwlch sgiliau yn y maes hwn.

c. Cyllid

Cyfeiriwyd hefyd at gyllidebau a rheolaeth ariannol gan nifer sylweddol fel rhesymau dros y bwlch sgiliau. Pan fydd arian yn cael ei gwtogi yna mae gan ysgolion ddewisiadau dros athrawon neu Gynorthwywyr profiadol yn aml; fel arfer y Cynorthwywyr sy'n gadael gyda'u set sgiliau.

> "Mae pwysau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi arwain at ddiswyddiadau gwirfoddol ymhlith staff cymorth allweddol gan arwain at leihad yn ein gallu i ddarparu ADY."

Roedd pryderon eraill a godwyd yn cynnwys:

- Ymddygiad heriol cynyddol fel ACEY ac ASD yn gwneud y rôl yn llai apelgar a staff yn gadael.
- Sgiliau arbenigol nad ydynt ar gael fel BSL, sgiliau nam ar y clyw a sgiliau nam ar y golwg.
- Gorweithio a llwyth gwaith ymhlith Cynorthwywyr Addysgu a Cydlynwyr ADY
- Mae nifer cynyddol o blant Blynyddoedd Cynnar ag anghenion ADY yn arwain at staff yn cael eu tynnu o ymyriadau eraill ac yna diffyg sgiliau ar gael i ddisgyblion hŷn.
- Diffyg sgiliau wrth adael y Brifysgol a'r Coleg. Nid yw staff newydd gymhwyso yn cael eu dysgu am ADY yn ddigon manwl ac yna ni allant ddisodli'r rhai sy'n gadael y proffesiwn. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon neilltuo mwy o amser i'r maes hwn.

Recriwtio a chadw

Nododd tua dwy ran o dair o'r rhai a holwyd (65% neu 472) fod eu lleoliad addysgol wedi wynebu problemau wrth recriwtio a chadw staff gyda'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i gyflwyno'r Ddeddf ADY ond nid yw chwarter (25% neu 186) wedi wynebu problemau. Nid yw'r un o bob deg sy'n weddill (10% neu 70) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn. Rhoddodd cyfanswm o 425 o ymatebwyr yr arolwg fanylion pellach am y materion hyn.

Y prif reswm dros broblemau recriwtio a chadw yw diffyg staff profiadol neu gymwys sy'n gwneud cais am swyddi gwag. Mae hyn yn digwydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg lle nodir diffyg ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith sydd â phrofiad addas.

> "Dim cynorthwywyr i'w cael yn lleol / cynorthwywyr lefel isel iawn yn chwilio am swyddi."

"Siaradwyr Cymraeg - does dim digon o sefydliadau yn hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly dydy'r staff ddim yn dod drwodd. Diffyg arian - lle mae angen mwy o ddarpariaeth oherwydd anghenion penodol dysgwyr."

"Mae recriwtio cynorthwywyr addas, medrus a phrofiadol yn hunllef. Mae eu cyflog yn ofnadwy. Mae gweithwyr McDonald's yn cael tâl uwch. Gwarthus o ystyried pa mor bwysig yw'r gwaith a'u bod yn staff proffesiynol."

Mewn llawer o achosion, ffactor sylweddol a nodwyd ar gyfer problemau recriwtio a chadw yw cyflog isel a chyflogau uwch mewn sectorau eraill.

"Nid yw cyflog Cynorthwyydd Addysgu yn denu pobl sydd â'r profiad na'r sgiliau angenrheidiol. Mae llawer o bobl sydd â chymwysterau Cynorthwyydd Addysgu wedi ceisio cyflogaeth mewn sectorau eraill, fel manwerthu, oherwydd gwell tâl."

"Mae'r tâl am gynorthwywyr addysgu ymhell islaw eu gwerth a'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud. Ni allwn recriwtio na chadw staff gan y byddent yn cael mwy o gyflog mewn swydd â llawer llai o straen, e.e. manwerthu."

Nodir diffyg cyllid i gadw staff, neu recriwtio staff i gyflawni gofynion ADY yr ysgol.

"Yr argyfwng ariannu presennol, fydd yn arwain at leihau staff."

"Does ganddon ni ddim arian i recriwtio."

Mae lleiafrif o sylwadau yn cyfeirio at lwyth gwaith a disgwyliadau afresymol am rôl y CADY, yn enwedig gan nad oes tâl da ar gyfer y rôl o ystyried lefel y cyfrifoldeb.

"Mae rôl y CADY wedi cynyddu ac nid yw'r gyllideb yn cwmpasu'r cyfrifoldeb ychwanegol hwn. Mae Cydlynwyr ADY yn dod o dan bwysau mawr oherwydd y system newydd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn cadw Cydlynwyr ADY neu berswadio staff i ymgymryd â'r rôl hon. Nid yw'r budd ariannol i staff yn cwmpasu'r cyfrifoldeb ychwanegol maen nhw'n ymgymryd ag ef."

'Dim gwobr ariannol am ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol sy'n ymwneud â'r Ddeddf ADY'.

Nodweddion arweinyddiaeth addysgol

Pan ofynnwyd iddynt raddio pedair nodwedd arweinyddiaeth addysgol effeithiol[7] wrth gyflawni'r diwygiadau'r Ddeddf ADY yng Nghymru yn nhrefn pwysigrwydd, nododd ymatebwyr yr arolwg weledigaeth gyffredin, ac yna cyfathrebu, fel y rhai mwyaf dylanwadol, ac fe nodwyd cydweithredu a chyfathrebu hefyd.

Ffigur 5.07: Graddio nodweddion arweinyddiaeth addysgol (n = 730)



Ymgysylltu â phartneriaid allweddol

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg wneud sylwadau ar eu hymgysylltiad â phartneriaid allweddol fel y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol. Fel y dangosir yn Ffigur 5.08, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod gwasanaethau awdurdodau lleol naill ai'n ymgysylltu'n dda iawn neu'n gymharol dda wrth weithredu'r Ddeddf ADY tra bod lefelau ymgysylltu ar draws y gwasanaeth iechyd yn llawer is.

Ffigur 5.08: Ymgysylltu â phartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



Ar ben hynny, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu, er bod gwasanaethau'r awdurdodau lleol wedi ymgysylltu'n fwy ar y cyfan ers cyflwyno'r Ddeddf, nid yw ymgysylltiad y gwasanaeth iechyd wedi newid llawer gyda dim ond 20% (neu 146) o'r farn bod eu hymgysylltiad wedi cynyddu dros amser.

Ffigur 5.09: Ym mha ffordd mae'r ymgysylltu â phartneriaid allweddol wedi newid ers cyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



Rhoddodd cyfanswm o 336 o ymatebwyr yr arolwg fanylion am y materion y mae eu lleoliad addysgol wedi'u profi wrth ymgysylltu â'r partneriaid allweddol hyn. Nododd y dadansoddiad o'r ymatebion sawl prif thema, y mae rhai ohonynt yn berthnasol i wasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol tra bod eraill yn benodol i bartner unigol.

Themâu ymgysylltu cyffredin

Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y cwestiwn hwn yn dangos bod yr ymatebwyr wedi rhoi llawer iawn o ystyriaeth i'w hymatebion, gan gyflwyno sylwadau hynod ddiddorol ac onest. O ran consensws ar broblemau anffafriol a brofir, dywedodd ymatebwyr nad oedd gan bartneriaethau allweddol unrhyw gapasiti i ymgysylltu â lleoliadau addysgol. Nid yw hyn yn gysylltiedig ag ymrwymiad staff o fewn y partneriaethau hyn, ond mae'n dod yn sgil problemau systemig; er enghraifft, trefniadau gweithio rhan-amser a hyblyg, gwasanaethau'n cael eu gohirio neu eu stopio, gwasanaethau sy'n cael eu heffeithio gan gyfraddau uchel o salwch a swyddi gwag.

> "Mae llawer o staff yn gweithio'n rhan-amser ac mae hyn yn dal pethau i fyny ac yn eu gwneud yn amhosibl cael gafael ynddynt pan fydd eu hangen nhw arnoch. Mae newidiadau enfawr o ran staff a lefelau salwch uchel wedi gadael swyddi'n wag ac nid oes capasiti gan y gwasanaethau i ddelio ag anghenion disgyblion mewn modd amserol."

Mae ôl-groniadau gwaith yn thema gyffredin ac roedd ymatebwyr yn tybio bod pandemig COVID-19 i'w briodoli am wasanaethau yn cael eu hymestyn oherwydd cynnydd aruthrol mewn achosion iechyd meddwl a lles gwael ymhlith plant.

> "Mae'r ddau wasanaeth yn cael eu hymestyn i'r eithaf ac felly'n ei chael hi'n anodd iawn cwrdd â'r gofynion, yn enwedig ar ôl COVID. Mae anghenion plant wedi cynyddu'n esbonyddol, yn enwedig mewn perthynas â lles ac iechyd meddwl. Mae staff hefyd yn sylwi ar gynnydd enfawr yn yr angen am gefnogaeth lleferydd ac iaith yn dilyn y pandemig, ond dyw'r gwasanaeth ddim yn gallu cwrdd â'r galw."

Byddai'r ffactorau hyn yn awgrymu pam mae ymatebwyr yn profi problemau cyfathrebu difrifol, gyda phartneriaethau allweddol yn amhosibl cael gafael ynddynt, yn methu ag ymateb i gyfathrebiadau, mynychu asesiadau, adolygiadau a chyfarfodydd na chyflawni adroddiadau oddi mewn i amserlenni disgwyliedig.

Dyma ddyfyniad sy'n cyfuno'n effeithiol y ddwy elfen o ran problemau iechyd ac awdurdodau lleol a godwyd gan ymatebwyr yn eu hymatebion (yn ogystal â sylw cadarnhaol ar gefnogaeth ac ymgysylltu):

"Mae cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd yn darparu cefnogaeth hanfodol i'n gwaith o ddydd i ddydd ac yn parhau i'w wneud yn dda - ffisio, lleferydd ac iaith, seicoleg addysgol, therapi galwedigaethol, anableddau dysgu ac ati. Fodd bynnag, dydw i ddim eto wedi gweld unrhyw newid yn eu harferion ar ôl gweithredu'r Ddeddf ADY, ee. dim ond yn dod i'r adolygiadau addysg blynyddol mwyaf dybryd, dim cyfraniad annibynnol i'r cynlluniau datblygu unigol. Mae ymgysylltiad awdurdodau lleol yn parhau i fod yn seiliedig yn gyfan gwbl ar eu blaenoriaethau. Dydyn ni ddim wedi gweld swyddogion yr ALl mewn unrhyw adolygiadau ers blynyddoedd bellach, nid hyd yn oed adolygiadau pontio pwysig Bl6 a hyd yn oed cyn i gyfyngiadau Covid gyfyngu ar sut y gellid eu cynnal. Nawr bod datganiadau yn cael eu trosglwyddo i gynlluniau datblygu unigol rydym yn sydyn iawn yn cael llawer o fewnbwn yn seiliedig ar anghenion ac amserlenni'r awdurdod lleol, ond yn rhagweld y bydd hyn yn dod i ben eto unwaith y bydd y broses drosglwyddo wedi'i chwblhau. Mae'n ymddangos bod cefnogaeth ar gyfer Cydlynwyr ADY wrth weithredu'r Ddeddf wedi bod yn eithaf da, ond nid yw hynny'n effeithio arnom ni fel ysgol arbenigol. Anhawster allweddol fu diffyg eglurder ynghylch sut dylai canlyniad ymddangos mewn CDU mewn gwirionedd - dydy hi ddim yn ymddangos bod unrhyw un â model clir, dim ond siarad yn ddamcaniaethol am y cynllun sy'n seiliedig ar yr unigolyn. Dylai'r rhai sy'n arwain y trawsnewidiad ADY ar lefel llywodraeth genedlaethol ac ac lefel uwch mewn ALl fod wedi cael model cliriach i'w werthu i bobl sy'n gwneud y gwaith o ddydd i ddydd ar lawr gwlad. Achosodd hyn lawer o grafu pen ac amser yn yr ysgol a'r clwstwr yn ceisio ei deall."

Ymgysylltu â'r gwasanaethau iechyd

Yn ogystal â'r materion cyffredin a amlygwyd uchod, nododd ymatebwyr nifer o faterion niweidiol ar wahân a brofwyd ganddynt wrth ymgysylltu â'r gwasanaethau iechyd. Ystyriwyd bod rhai o'r materion hyn yn deillio o'r ffaith nad yw darparwyr iechyd yn cael eu cynnwys yn yr un modd â lleoliadau addysgol gan y ddeddfwriaeth:

> "Er y bydd CDU yn ddogfen gyfreithiol rwymol ar gyfer pob sefydliad addysg ni fydd hyn yn wir ar gyfer iechyd."

> "Nid yw iechyd yn ymddangos fel partneriaid wrth weithredu'r ddeddfwriaeth. Mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei hysgrifennu."

Roedd yna deimlad cyffredinol hefyd fod cyfyngiadau Covid yn parhau i effeithio ar y ffordd mae gwasanaethau iechyd yn gweithredu ym myd addysg.

Nododd yr ymatebwyr nifer o faterion o ran yn ymwneud â phartneriaid iechyd, gan gynnwys:

- anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau Therapyddion Galwedigaethol, Therapyddion Iaith a Lleferydd a Seicoleg Addysg gan achosi oedi hir i wasanaethau
- adroddiadau'n cael eu hanfon gan ddarparwyr iechyd drwy'r post yn hytrach na'u llwytho i fyny i borth Tyfu
- methiant i gynnal asesiadau yn Gymraeg neu adroddiadau'n methu â chael eu cyfieithu lle bo angen
- cynnydd o ran atgyfeiriadau ddim yn cael ei adrodd yn ôl i wasanaethau addysgol
- diffyg rhannu gwybodaeth, yn enwedig gwasanaethau therapi Lleferydd ac Iaith
- gwasanaethau iechyd arbenigol yn cael eu lleihau'n sylweddol neu nid ydynt bellach mewn bodolaeth, a hyn wedi effeithio ar lwyth gwaith ac amseroedd aros

Mynegodd yr ymatebwyr bryderon nad yw gwasanaethau iechyd yn deall y cyd-destun cyfoes o ran asesu plant neu ymgysylltu â gwasanaethau addysgol/rhieni:

> "Does gan staff y GIG fawr o syniad [ymwybyddiaeth] os o gwbl o'r Ddeddf ADY. Ychydig iawn o fewnbwn gyda phlant ar restrau aros."

Nododd yr ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y cysondeb a pha mor gyfredol oedd yr wybodaeth a rennir gyda rhieni o ran Asesiad a Diagnosis Awtistiaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r broses atgyfeirio. Nododd rhai ymatebwyr faterion eraill, er enghraifft, atgyfeiriadau'n cael eu gwrthod, rhestrau aros yn cael eu cau, achosion yn cael eu rhyddhau'n gyflym a phryderon addysgol yn cael eu diystyru. Ystyrir hefyd fod prosesau atgyfeirio yn cymryd llawer o amser ar gyfer Cydlynwyr ADY (llenwi ffurflenni A20/65).

Ymgysylltu â gwasanaethau awdurdodau lleol

- Yn ogystal â'r materion cyffredin a amlygwyd uchod, nododd ymatebwyr nifer o faterion niweidiol y maent yn eu profi wrth ymgysylltu â gwasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys:
- bod awdurdodau lleol yn aml yn methu â rhoi atebion pendant, a thrwy hynny yn gosod y cyfrifoldeb yn ôl ar ysgolion
- bod rhai awdurdodau lleol wedi dod yn llai cydweithredol a chefnogol yn eu dull gweithredu a'u bod yn mabwysiadu mwy o rôl fonitro
- methiant ar ran awdurdodau lleol i ddeall goblygiadau llwyth gwaith y Ddeddf ADY ar leoliadau addysgol, na'r swm anghynaliadwy o waith papur mae disgwyl i Gydlynwyr ADY ymgymryd ag ef
- nad yw cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn mynychu adolygiadau nac yn treulio amser wyneb yn wyneb gyda disgyblion

- nad yw awdurdodau lleol yn rhoi sylw i ysgolion cyfrwng Cymraeg
- anawsterau cyfathrebu fel diffyg gwybodaeth am bwy yw swyddogion cyswllt eu hawdurdod lleol neu dimau arbenigwyr i ofyn am gyngor, neu os oeddent yn gwybod, diffyg ymateb i e-byst a galwadau ffôn
- systemau ar-lein nad ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan awdurdodau lleol

Cyllid i leoliadau addysgol

Roedd ychydig dros hanner y penaethiaid a arolygwyd (53% neu 124 o 236) wedi cael gwybod faint o gyllid y bydd eu lleoliad addysgol yn ei dderbyn gan eu hawdurdod lleol i weithredu'r Ddeddf. Mae hyn yn cymharu â dau o bob pump o holl ymatebwyr yr arolwg (40% neu 288) a oedd wedi cael gwybod faint o gyllid y bydd eu lleoliad addysgol yn ei dderbyn. Mae'n ymddangos bod ymatebwyr yr arolwg sydd wedi'u lleoli yn rhanbarth consortiwm CSC ychydig yn fwy gwybodus na'r rhai mewn rhanbarthau eraill am lefel eu cyllid ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ADY ond nid oes patrwm clir yn dod i'r amlwg ar lefel awdurdod lleol.

Mae dau o bob pump o benaethiaid yn yr arolwg (40% neu 95 o 236) yn deall sut mae eu hawdurdod lleol wedi penderfynu faint o gyllid y bydd pob lleoliad addysgol yn ei dderbyn i weithredu'r Ddeddf ond nid yw'r tri o bob pump sy'n weddill (60% neu 141) yn gwybod.

O'r 165 o benaethiaid a fynegodd farn, mae dau o bob pump o'r rhai a holwyd yn credu bod fformiwla ariannu yr awdurdod lleol ar gyfer dyrannu arian i weithredu'r Ddeddf ADY naill ai'n deg iawn (6% neu 10) neu'n weddol deg (33% neu 54). Nid yw'r tri o bob pump sy'n weddill (61% neu 101) yn credu bod y fformiwla ariannu yn deg, fel y dangosir yn Ffigur 5.10.

Ffigur 5.10 P'un a yw fformiwla cyllido awdurdodau lleol ar gyfer dyrannu cyllid i ddarparu'r Ddeddf ADY yn deg (n = 165 penaethiaid)



O'r 215 o benaethiaid a fynegodd farn, nid yw dwy ran o dair (68% neu 147) yn credu y bydd gan eu lleoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth tra bod traean (32% neu 68) yn credu hynny, fel y nodir yn Ffigur 5.11

Ffigur 5.11 I ba raddau bydd gan leoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth (n = 215 penaethiaid)



Mae sylwadau ansoddol a ddarparwyd drwy'r arolwg i gyd yn awgrymu'n gryf bod ymatebwyr o'r farn nad yw'r Ddeddf ADY yn cael ei hariannu'n ddigonol ac er mwyn iddi weithio mae angen ei hariannu'n briodol. Roedd sylwadau'n cynnwys y canlynol:

> "Bydd cyllid digonol yn rhwystr i weithredu'r Ddeddf."

> "Mae ysgolion yn cael eu hymestyn i'r eithaf yn fwy nag erioed o'r blaen. Mae staff yn ceisio eu gorau i ddarparu CDU ond nid yw'r cyllid yno. Mae gennym nifer o ddisgyblion lefel uchel yn ein hysgol, disgyblion sydd angen cefnogaeth 1:1 parhaus am 32.5 awr, sydd wedyn yn tynnu'r gefnogaeth i ffwrdd o'r plant hynny sydd angen CDU."

Roedd sawl un yn dadlau nad yw'r cyllid i ryddhau CADY o'r dosbarth yn ddigonol ar hyn o bryd a bod hyn, ynghyd â diffyg staff cyflenwi, yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu'r Ddeddf ADY:

> "Fel CADY ac athro dosbarth mae'n hynod flinedig ond allwn ni ddim fforddio cyflenwi mwy nag yr ydym ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhoi mwy o faich ar staff a phlant."

> "Ar hyn o bryd dyw e ddim yn edrych fel bod digon o gyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion - does dim digon o gyllid i ariannu Cydlynwyr ADY a chynnig amser nad yw'n addysgu i wneud y gwaith."

Canolbwyntiodd sylwadau'n ymwneud â fformiwlâu awdurdodau lleol ar gyfer cyllido'r Ddeddf ADY ar y broblem nad yw'r trefniadau presennol yn ystyried anghenion disgyblion:

> "Dylai cyllid fod yn canolbwyntio ar y plentyn unigol ac ni ddylai gael ei gyffredinoli gyda fformiwla."

> "Bydd cyllid bloc o'n ALl, heb ystyried angen, yn golygu dyraniad annheg o adnoddau yn ein hachos ni a bydd yn arwain at doriadau staff."

Mewn un achos, dadleuwyd bod adborth gan leoliadau addysgol ar fformiwlâu cyllido arfaethedig wedi arwain at:

> "Yr ALl yn adolygu'r fformiwla cyllido drwy ymgynghori."

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod y modelau cyllido presennol yn rhoi'r ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion Prydau Ysgol am Ddim dan anfantais:

> "Nid oes digon o gefnogaeth ariannol i'r angen, yn enwedig mewn ysgolion mewn ardaloedd cymharol gefnog, yn rhannol oherwydd bod Prydau Ysgol am Ddim yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd mewn ffordd hollol anghywir, yn rhannol oherwydd nad oes digon o gyllid ar gyfer addysg beth bynnag."

> "Mae cyllid yn her i ni, fel ysgol dau ddosbarth mynediad gyda nifer cyfyngedig o Brydau Ysgol am Ddim mewn dalgylch sydd heb ei amddifadu. Er nad oes gennym lefel yr amddifadedd sydd gan ysgolion eraill, mae gennym nifer sylweddol o blant gydag anghenion cymhleth iawn o hyd a phlant ag ADY sydd angen cymorth llawn amser un i un."

Roedd eraill yn dadlau bod y fformiwla cyllido yn annog lleoliadau i beidio â chefnogi disgyblion drwy eu darpariaeth gyffredinol, yn hytrach na thrwy ddarpariaeth ADY:

> "Mae'r gwahaniaethau enfawr yn y ddarpariaeth gyffredinol ledled Cymru yn golygu y bydd ysgolion fel ein hysgolion ni sydd â darpariaeth gyffredinol eang yn derbyn llai o gyllid gan ein bod wedi gostwng o 51% ADY i 30%. Cyn hyn, roedd y plant hyn ar CAU a Gweithredu Ysgol. Dydyn ni ddim am leihau ein cynnig darpariaeth gyffredinol gan fy mod yn teimlo mai dyna ddylai ysgolion ei ddarparu ond mae gormod o anghysondeb a diffyg arweiniad ar sut mae hyn yn cael ei fonitro o ysgol i ysgol."

Esboniodd rhai ymatebwyr pam nad oeddent yn deall lefel y cyllid sydd ar waith yn eu lleoliad neu'r fformiwla ar gyfer penderfynu hyn:

> "Mae gennym nifer fawr o staff i gefnogi ADY a systemau cadarn ar waith ond mae hyn yn bennaf ar lefel darpariaeth gyffredinol wedi'i thargedu. Rydyn ni ond wedi rhoi CDU i'n disgyblion mwy eithafol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion ADY ar CYBLD. Does neb wedi dweud wrtha i os ydw i'n llenwi fy map darpariaeth sydd wedi'i gostio'n gywir ac os yw CYBLD yn chwarae rhan mewn penderfyniadau cyllido. Rwy'n teimlo ar goll a phan fyddaf yn gofyn am gyngor cyd-gydlynwyr ADY, mae dryswch a dim atebion clir yn fy marn i gan fod pawb yn credu rhywbeth gwahanol. Mae angen eglurder arnom."

5.2 Dadansoddiad cyfweliad lled-strwythuredig

Mae'r naratif canlynol yn ddadansoddiad o'r ymatebion a roddwyd i set o gwestiynau (Atodiad 4) a gynhyrchwyd o'r arolwg. Mae'r cwestiynau wedi'u cyfosod i'r penawdau canlynol:

- Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar
- Cefnogaeth ar gyfer bylchau sgiliau a chapasiti a nodwyd ar gyfer ADY yn y Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar
- Cefnogaeth i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar
- Pontio
- Darpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY
- Recriwtio a chadw staff
- Llwyth gwaith a lles
- Ariannu
- Cyfraniad amlasiantaeth

Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar

Wrth ddadansoddi'r arolwg, nodwyd nad oedd unrhyw ymatebion gan arweinwyr nac arweinwyr ADY mewn lleoliadau a oedd ond yn lleoliadau cyn ysgol neu feithrinfa; Roedd hyn yn cynnwys y rhai yn y sectorau a gynhelir neu'r sectorau nas cynhelir. Mae'r Cymdeithion yn cydnabod bod ystod o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ledled Cymru ar gyfer plant cyn ysgol, gan gynnwys yn yr ysgol, a lle mae hyn yn wir roedd arweinwyr ysgolion yn cynnwys eu barn ar ddarpariaeth ADY blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, roedd y Cymdeithion o'r farn ei bod yn bwysig cael dealltwriaeth ehangach am ddarpariaeth ADY yn y blynyddoedd cynnar, yn enwedig yn y lleoliadau hynny sydd ar gyfer cyn ysgol yn unig, a defnyddiwyd y cyfweliadau lled-strwythuredig i gasglu gwybodaeth.

Mae'r ymatebion yn y cyfweliadau lled-strwythuredig yn awgrymu bod ystod o ffactorau wedi arwain at ddiffyg ymatebion gan leoliadau a oedd ond yn lleoliadau cyn ysgol yn cwblhau'r arolwg. Mae sylwadau'n nodi, yn y lle cyntaf, y gallai fod problemau wedi bod ynghylch yr arolwg yn cyrraedd y bobl gywir yn y lleoliadau neu y gallai newidiadau staff mynych fod wedi arwain at yr ohebiaeth yn methu â chyrraedd arweinwyr y lleoliadau. Maent hefyd yn awgrymu y gallai staff sy'n gweithio'n rhan-amser, heb fawr o gyfle am amser di-gyswllt, fod wedi arwain at gyfyngiadau amser oedd yn effeithio ar gwblhau'r holiadur. Mae'r Cymdeithion hefyd yn cydnabod efallai nad oedd arweinwyr yn y lleoliadau hyn wedi ystyried eu hunain yn arweinwyr ysgolion ac wedi penderfynu nad oedd yr holiadur yn berthnasol iddynt.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr y Clwstwr oedd:

> "Mae hyn yn ddiddorol. Yn aml mae gan sefydliadau blynyddoedd cynnar bwyllgorau o wirfoddolwyr ac yna maen nhw'n cyflogi pobl i arwain. Mae cyflogau yn isel ar y cyfan a dydyn nhw ddim yn cyfateb i'r gwaith dan sylw."

> "Mae nifer uchel o'r lleoliadau yn gweithio o dan gyfyngiadau amser anodd. Mae gan yr arweinwyr 14 awr yr wythnos ac mae 10 ohonynt mewn cysylltiad uniongyrchol â'r plant."

> "Mae'n siomedig gan ein bod wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas gyda lleoliadau gofal plant. Nid oes angen CADY ar leoliadau cyn ysgol. Rydyn ni'n annog lleoliadau i fod ag ymarferydd ADY arweiniol er nad oes un gan lawer o leoliadau. A oedd yr arolwg yn cael ei rannu gyda darparwyr gofal plant?"

Cymorth ar gyfer bylchau sgiliau a chapasiti a nodwyd ar gyfer ADY yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar

Mae'r ymatebwyr yn nodi bod y rhan fwyaf o dimau ADY Blynyddoedd Cynnar yn cynnig ystod o gymorth mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ac mae cyfleoedd hyfforddi pwrpasol yn gyffredin. Mae arweinwyr a swyddogion Awdurdodau Lleol yn ystyried hyn fel proses gefnogol iawn sy'n cynnwys mynediad at sesiynau galw heibio, dewislenni hyfforddi ac ymgynghoriadau anffurfiol a thrafodaethau ar gyfer cymorth.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr y Clwstwr oedd:

> "Mae staff yn elwa o'r cynnig hyfforddi Blynyddoedd Cynnar, sy'n cynnwys ADY ac sy'n cael ei ailadrodd. Mae cyfarfodydd ymgynghori tymhorol i drafod materion ADY (ymgynghorydd ADY yr ALl)."

> "Mae yna ddewislen helaeth o gymorth mae'r ALl yn ei chynnig ... fodd bynnag, mae diffyg arweiniad a gwybodaeth gan LlC hefyd."

> "Dewislen hyfforddi gadarn, wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer lleoliadau cyn ysgol. Hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn ar wahanol adegau i ddarparu ar gyfer ... Ymweliadau â lleoliadau i gefnogi lleoliadau gyda'u darpariaeth gyffredinol."

Cymorth i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar

Mae crynodeb o'r ymatebion yn awgrymu materion sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth cyn ysgol. Nododd yr ymatebwyr mater recriwtio gweithwyr cymorth, y gofynnir iddynt weithio oriau afreolaidd yn aml ar gontractau tymor byr sydd yn ei dro yn arwain at drosiant staff uchel. Tanlinellodd swyddogion yr Awdurdod Lleol hefyd nad yw'n ofynnol i leoliadau blynyddoedd cynnar gael CADY ac nad ydynt yn weithredol ym mhob lleoliad, er eu bod yn cydnabod bod cael ymarferydd arweiniol ADY yn ddymunol.

Mae ymatebion yn dangos, o ganlyniad, bod swyddogion Arweiniol Blynyddoedd Cynnar Awdurdodau Lleol ADY yn ystyried eu hunain yn hanfodol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer lleoliadau cyn ysgol yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir. Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

> "Mae'r ALl yn gefnogol iawn, ac mae'n bendant yn berthynas waith. Mae pobl ar gael i gynnig cymorth a chyngor ar unwaith. Rydyn ni i gyd yn dysgu gyda'n gilydd... Mae'r gefnogaeth ar lefel ysgol wedi bod yn anhygoel."

> "Mae fy rôl yn un sy'n ymwneud â'r ysgol ei hun a byddwn yn gobeithio y bydd staff yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth dda. Mae gweithredu ac ariannu wedi bod ar gael i gefnogi'r trawsnewid ac mae'r tîm yn ceisio bod mor hygyrch â phosibl."

> "Rydyn ni wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddi ynghylch y Ddeddf ADY ac mae niferoedd da o'n lleoliadau nas cynhelir wedi'u mynychu. Mae hyfforddiant pellach wedi'i lunio a'i ddatblygu o amgylch y pynciau y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas ag ADY... cymaint o sesiynau hyfforddi a chymorth gyda'r nos er mwyn sicrhau'r presenoldeb gorau posib."

> "Gall lleoliadau hefyd fynychu ymgynghoriadau ADY tymhorol i ofyn am gyngor a chymorth manylach. Bydd tîm ADY y Blynyddoedd Cynnar weithiau'n darparu cymorth a hyfforddiant pwrpasol ychwanegol os oes angen... Mae dod o hyd i staff a'r cyllid i dalu am hyfforddiant wedi bod yn rhwystr. Mae'r sesiynau galw heibio wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi cael derbyniad da, mae llawer o leoliadau yn gwerthfawrogi gwrando ar brofiadau ymarferwyr eraill a bydd ambell leoliad yn cysylltu â'i gilydd i gael cymorth a chyngor."

Pontio

Mae ymatebion gan swyddogion ADY Awdurdodau Lleol, gan gynnwys timau'r Blynyddoedd Cynnar, yn nodi ystod o faterion a heriau yn ymwneud â phontio. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg cysondeb, er enghraifft, mewn rhai timau Blynyddoedd Cynnar Awdurdodau Lleol mae gweithiwr achos i gefnogi teuluoedd wrth bontio, ond nid yw'r arfer hwn ar gael bob amser. Nododd yr ymatebwyr hefyd y gall trosglwyddiadau o sir i sir gael eu cymhlethu ymhellach gan gyllid.

Cydnabyddir diffyg cysondeb ac amrywiaeth pellach yn y ddarpariaeth o sir i sir, o leoliad i leoliad ac o ysgol i ysgol, yn enwedig o ran yr hyn y mae darpariaeth gyffredinol yn ei olygu.

Yn ogystal, nodir diffyg hyfforddiant ynghylch pontio; fodd bynnag, mae'r ymatebwyr yn ei gwneud yn glir bod cynlluniau ar gyfer hyn ar waith neu'n cael eu hystyried gan Swyddogion Awdurdodau Lleol.

Mae'r ymatebwyr yn nodi bod offer a dogfennau ar gael i gefnogi pontio'n effeithiol ond maent yn cydnabod bod rhai datblygiadau pellach yn dal yn bosibl. Er enghraifft, mae ymatebwyr yn awgrymu creu protocol pontio gydag arweiniad ac adnoddau ychwanegol.

Mae'r ymatebwyr hefyd yn cydnabod materion eraill gan gynnwys oedi wrth uwchlwytho gwybodaeth, anawsterau wrth rannu gwybodaeth ar draws lleoliadau a rheoli disgwyliadau rhieni wrth bontio.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

> "Mae'n anodd achos does dim cysondeb rhwng darpariaeth gyffredinol. Mae'r Cynradd yn mynd i CDU yn gyflymach nag uwchradd. Gobeithio y bydd pethau'n gwella dros amser."

> "Mae 'na oedi wrth uwchlwytho gwybodaeth ... a hefyd oedi wrth gael mynediad ... cafwyd enghreifftiau o Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gofyn i'r lleoliadau uwchlwytho adroddiadau yn hytrach na gwneud hyn eu hunain. Yn gyffredinol, ymddengys mai'r broblem yw'r ffaith nad yw'r broses o drosglwyddo gwybodaeth yn cael ei chwblhau yn brydlon."

> "Mae hyfforddiant pontio yn rhywbeth y gallwn ei ystyried fel ALl ... Mae symud i'r ysgol yn gallu bod yn broblem - setlo. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau 'symudiadau mawr' gyda chynllun manwl ond nid yw symudiadau llai eraill yn cael eu cefnogi cystal."

> "Gall pontio fod yn her ac rwy'n cydnabod hyn ... Ond yn aml, y teimlad yw nad yw lleoliadau nas cynhelir a'r wybodaeth sydd ganddynt yn cael eu gwerthfawrogi gan yr ysgol sy'n derbyn oherwydd y newidiadau yn y broses yn sgil y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer darparwyr gofal plant."

> "Mae'r Blynyddoedd Cynnar yn fater o bwys. Mae angen i bob sector wybod ei rôl a'r hyn y gellir ei gynnig. Mae'r ALl wedi buddsoddi arian i ddatrys hyn ac mae systemau bellach yn cyd-fynd yn fwy i leihau effaith. Mae angen rheoli disgwyliadau rhieni ym mhob sector yn well ... Mae trosglwyddiadau o sir i sir yn anodd oherwydd gwahanol fodelau cyllido a gwahanol lefelau o Ddarpariaeth Gyffredinol."

Darpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag ADY

Wrth ddadansoddi'r arolwg, nododd mwyafrif yr arweinwyr ysgolion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg eu bod o leiaf yn weddol gymwys i gefnogi disgyblion ag ADY yn yr ysgol. Roedd y Cymdeithion o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau dealltwriaeth ehangach am ddarpariaeth ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Nododd ymatebion i'r cyfweliadau lled-strwythuredig ddiffyg cydraddoldeb penodol o ran yr adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg. Er enghraifft, mae lleoliadau Blynyddoedd Cynnar o'r farn eu bod yn gwneud yn dda gyda'u hasesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn nodi bod diffyg gweithwyr proffesiynol eraill, fel Therapyddion Lleferydd, i gwblhau eu hasesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Nododd y Cymdeithion fod sylwadau gan ymatebwyr wedi'u lleoli mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth ac mae cydnabyddiaeth efallai nad yw rhai ysgolion wedi deall perthnasedd y cwestiwn yn llawn. Roedd rhai ysgolion yn cydnabod bod gan rieni yr opsiwn i ddewis iaith ar gyfer dogfennaeth ac y byddai'n bosibl cael yr awdurdod lleol i'w chyfieithu, ond ar y cyfan, nid oedd llawer o geisiadau am gyfieithiadau.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

> "Mae hyn yn amrywio ar draws y sir ac mae'n her heb yr ADY. Mae'r lleoliadau'n gwneud yn dda gydag asesu, ond mae angen cymorth yn Gymraeg gan asiantaethau partneriaeth eraill, e.e. Therapi Lleferydd ac Iaith yn defnyddio rhaglen Saesneg gyda phlentyn sy'n siarad Cymraeg."

> "Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar y lleoliadau unigol a'r staff. Yn y lleoliadau mwy gwledig, efallai nad ydynt wedi dod ar draws cymaint o achosion ADY."

> "Dw i'n meddwl bod lleoliadau Cymraeg yn gallu adnabod ADY - o bosib yn anoddach penderfynu ar anghenion iaith gan fod llawer o blant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dod o aelwydydd Saesneg eu hiaith."

Recriwtio a chadw staff

Wrth ddadansoddi'r arolwg, y prif reswm dros broblemau recriwtio a chadw yw diffyg staff profiadol neu gymwys addas sy'n ymgeisio am swyddi gwag. Nododd ymatebion i'r cyfweliadau lled-strwythuredig bryderon pellach ynghylch cadw a recriwtio oherwydd lefel y pwysau ar Gydlynwyr ADY. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod paratoi CDU o ansawdd da yn cymryd amser; fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gyffredinol y bydd angen llai o amser wrth i'r broses wreiddio.

Nododd ymatebion i gwestiynau'r cyfweliad hefyd, yn ogystal â materion cyflog ac amodau fel cyfraddau cyflog fesul awr, fod pryderon hefyd ynghylch ansawdd ac addasrwydd y cynorthwywyr addysgu sydd ar gael i'w recriwtio; er enghraifft, lefelau isel o lythrennedd a rhifedd.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

> "Mae hwn yn fater pwysig - llwyth gwaith Cydlynwyr ADY - pam y byddwn i eisiau bod yn CADY?"

"Problemau mawr o ran Cynorthwywyr - maen nhw'n gallu gweithio mewn archfarchnad am fwy ... ond fel Cynorthwywyr efallai fod gofyn iddynt gwblhau gweithdrefnau meddygol fel defnyddio peniau epi ac ati."

"Mae problem recriwtio cyffredinol yn y sector nas cynhelir. Gall fod yn anodd dod o hyd i unrhyw staff ychwanegol, ond yn enwedig staff sydd â phrofiad neu wybodaeth ADY. Mae recriwtio staff arbenigol ar gyfer ADY yn her."

"Yn aml does gan staff ddim hyfforddiant penodol ar gyfer y gwahanol faterion ADY."

"Ydy, mae'n bryder. Mae rhywfaint ohono'n ymwneud â'r radd cyflog a gynigir, peth yn ymwneud â diogelwch swyddi a pheth yn gysylltiedig â modelau ariannu."

Llwyth gwaith a Lles Staff

Nododd dadansoddiad o'r ymatebion i'r arolwg bryderon am y llwyth gwaith a'r cyfrifoldebau ychwanegol, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â rôl CADY, a'r effaith ar les personol. Nododd yr ymatebion ystod o faterion a allai fod wedi cael effaith negyddol ar arweinwyr ysgolion, yn enwedig lles Cydlynwyr ADY, gan gydnabod bod cyfran o waith y CADY yn cael ei wneud yn ei amser ei hun, bod agwedd statudol y Ddeddf ADY yn achosi straen a phryder a bod llawer o Gydlynwyr ADY yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Er enghraifft, efallai fod gan Gydlynwyr ADY gyfrifoldebau addysgu eisoes a'u bod dan bwysau wrth ystyried Cwricwlwm i Gymru yn ogystal â rheoli newid ysgol gyfan yn y broses drawsnewid o dan y Ddeddf ADY. Mae ymatebion gan swyddogion Awdurdodau Lleol yn nodi'r angen i ddarparu cyfleoedd pellach ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys dewislenni ar-lein, i bob aelod o staff ysgol ac i gefnogi staff i ddeall rolau a chyfrifoldebau. Mae nifer o gamau cadarnhaol hefyd yn cael eu nodi gan ymatebwyr yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys rhwydweithio clwstwr ar gyfer Cydlynwyr ADY, cymorth rheoli straen a gwell cyfathrebu i leihau pryder a straen yn y gweithle.

Yn ogystal â materion eraill sy'n effeithio ar les personol a llwyth gwaith, mae'r ymatebion i'r arolwg yn nodi mai'r amser a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer ysgrifennu CDU yw 10 awr. Gofynnodd y Cymdeithion i swyddogion Awdurdodau Lleol nodi pam eu bod o'r farn bod hyn yn digwydd a beth allai fod yn ddatrysiad. Mae cydnabyddiaeth o'r amser a gymerwyd, y pwysau o weithio o fewn proses gyfreithiol ac awgrym bod astudiaeth amser llwyth gwaith ar gyfer Cydlynwyr ADY yn cael ei chwblhau.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

"Mae CDU yn golygu llawer o waith paratoi a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fod mewn sefyllfa i baratoi cynllun. Ai dyma'r broses gyfan - cwrdd â'r rhieni ac ati? Bydd amser i baratoi yn amrywio yn ôl anghenion. Os yw hynny'n 10 awr o waith o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda llawer o ymgysylltu â disgyblion a rhieni, wel ie, defnydd da o amser."

"Amser ydy'r broblem fawr yma - ydy LlC wedi cwblhau astudiaeth amser o lwyth gwaith Cydlynwyr ADY? Mae cymorth lles ar gyfer Cydlynwyr ADY yn hanfodol."

"Mae cwblhau unrhyw waith papur ADY yn aml yn golygu bod ymarferwyr yn cwblhau'r gwaith papur yn eu hamser eu hunain."

Cyllid

Wrth ddadansoddi ymatebion yr arolwg a'r cyfweliadau lled-strwythuredig, mae cyllid - gan gynnwys cyllid teg a thryloywder - yn cael ei nodi ar sawl achlysur. Er enghraifft, mae ymatebion gan dimau Blynyddoedd Cynnar Awdurdodau Lleol yn nodi nad yw lleoliadau Blynyddoedd Cynnar bob amser yn gallu darparu'r cymorth sydd ei angen oherwydd lefelau cyllido. Fodd bynnag, mae enghreifftiau hefyd o gyllid grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, er enghraifft, nodir bod prosiect Arweinwyr Clwstwr (Cydlynwyr ADY) a ariennir trwy Grant Trawsnewid yr ALl, yn cael effaith gadarnhaol ar weithredu'r Ddeddf ADY ac yn cynnig cyfle rhwydweithio gwerthfawr.

Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

"Mae cyllid bob amser yn mynd i fod yn broblem. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae hyn yn anodd. Yn fy marn i, nid yw staff lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn cael eu talu'n ddigonol am y rôl y gofynnir iddynt ei chyflawni."

"Y ffaith anodd yw nad oes digon o arian, ond gallwn ei wneud yn deg. Ar hyn o bryd ein nod yw cael cyllid llawn i ysgolion a fydd yn diddymu'r angen i fynd i'r panel i ofyn am gyllid pellach. Bydd hyn yn deg ond ni fydd yn ddigon a dylid cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth gyffredinol yn hyn."

"Nododd grŵp ffocws y gyllideb argymhellion ar Gyllid Fformiwla ADY i Fforwm Cyllideb Ysgolion. Does dim un ateb yn addas i bawb - demograffeg siroedd mor wahanol."

"Dydy'r mwyafrif o Gydlynwyr ADY ddim yn gwybod beth yw'r cyllid; Felly sut y gallan nhw reoli'r cyllid?"

"O ran tegwch - a fyddwn ni'n ei gael yn iawn, ac a yw diffyg gwybodaeth am degwch yn gysylltiedig â diffyg dealltwriaeth o'r broses?"

"Wedi'i arwain gan anghenion unigol, gydag arian yn cael ei ddyrannu yn ôl dwyster anghenion y plant yn hytrach na fformiwla generig fel mewn ALlau eraill - mae hyn yn lleihau amwysedd ac yn cynyddu tegwch y system. Ar y cyfan, serch hynny - does dim digon o arian i ddelio ag anghenion cynyddol yr ysgolion."

Gwaith amlasiantaethol

Nododd gwaith dadansoddi fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod gwasanaethau'r awdurdodau lleol naill ai'n ymgysylltu'n dda iawn neu'n weddol dda wrth weithredu'r Ddeddf ADY ac yn awgrymu, er bod gwasanaethau'r awdurdodau lleol wedi ymgysylltu'n fwy ar y cyfan ers cyflwyno'r Ddeddf, nid yw gwasanaethau eraill wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, o ran partneriaethau allweddol eraill fel y gwasanaeth iechyd, nododd ymatebwyr nad oes ganddynt unrhyw gapasiti i ymgysylltu â lleoliadau addysgol.

Nododd ymchwil, rhagchwilio cychwynnol a chyfweliadau lled-strwythuredig fod y SACDA yn rôl strategol ym maes diwygio ADY, ac mae'r cyswllt yn uniongyrchol gyda'r Awdurdod Lleol, yn hytrach na'r ysgolion. Mae cydweithio yn cael ei adeiladu ar seilwaith sydd eisoes yn bodoli, megis grwpiau llywio ADY Iechyd ac ALl, a grwpiau Ôl-16. Mae adran 65 o'r Ddeddf yn amlinellu'r angen i Iechyd a'r ALl gyd-gysylltu.

Roedd y Cymdeithion eisiau dysgu mwy am rolau a chyfrifoldebau'r SACDA ac effaith partneriaethau allweddol. Nododd pob SACDA a gafodd eu cyfweld yr angen i iechyd ac addysg weithio gyda'i gilydd ac i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Roedd y materion a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys cydnabod bod aliniad gwael o ran amserlenni cydymffurfiaeth statudol ar gyfer Iechyd ac Addysg ac mae Adran 20 y Ddeddf ADY yn cyfeirio at hyn. Ar hyn o bryd mae prinder gweithwyr proffesiynol, yn enwedig ym maes Lleferydd ac iaith. Mae iechyd yn gorfod blaenoriaethu cyfranogiad lle caiff eu cyfranogiad y gwerth mwyaf.

Mae'r ymatebion yn nodi, pan ofynnwyd, mai dim ond ychydig o ymatebwyr oedd yn gymwys i baratoi a chwblhau CDU, ac maent hefyd yn nodi bod profiad lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn profi cefnogaeth anghyson gan asiantaethau eraill, gyda rhai ardaloedd yn derbyn cefnogaeth ragorol ac ardaloedd eraill llai felly. Yn ogystal, maent yn tynnu sylw at yr angen am well dealltwriaeth o rôl y Gwasanaethau Iechyd wrth lunio CDU, hynny yw, os yw'r angen meddygol neu iechyd yn effeithio ar ddysgu, yna dylid cynnwys Iechyd wrth ddatblygu'r CDU. Mater arall yw'r diffyg cysondeb, ac felly cyfathrebu, mewn gwybodaeth electronig a rennir. Nid yw rhai gweithwyr proffesiynol yn defnyddio systemau ADY electronig yr ALl eto, ac nid yw systemau a ddefnyddir gan wahanol bartneriaid yn gydnaws. Nodwyd materion hyder hefyd gan ymatebwyr, gan fod angen uwchsgilio i gefnogi'r staff yn y lleoliad i fynychu cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol. Ymhlith y sylwadau a wnaed gan swyddogion Blynyddoedd Cynnar ac arweinwyr Clwstwr oedd:

> "Anodd cael asiantaethau i ddod i gyfarfodydd ... Mae llawer o hyn yn dibynnu ar y berthynas a threfniadaeth ... Rwyf wedi datblygu fy mherthynas gydag unigolion allweddol ac felly yn gweld cyfathrebu'n haws ac yn fwy effeithiol."

> "Nid yw lleoliadau'n derbyn gwybodaeth yn gyson gan yr amlasiantaethau. Mae bylchau yn y niferoedd sy'n mynychu cyfarfodydd TAT. Cynhelir cyfarfodydd asesu ar y cyd, ond nid yw'r gynrychiolaeth ehangach o asiantaethau yn mynd ymlaen i gyfarfodydd y TAT. Mae materion hyder yn bodoli ac mae angen uwchsgilio i gefnogi staff yn y lleoliad i fynychu cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol."

> "Dydw i ddim wedi fy synnu'n ormodol gan fod hon yn broses newydd ac mae Cydlynwyr ADY yn ymwybodol iawn ei bod yn ddogfen statudol - mae'r goblygiadau cyfreithiol a'r pryderon ynghylch creu dogfen gyfreithiol wedi bod yn broblem ... Mae'r ALl

yn ceisio gweithio'n agos gyda chydweithwyr Iechyd ... Mae rhai materion wedi'u nodi... Mae iechyd yn dyfynnu capasiti'r gweithlu ond mae'n rhaid cwestiynu pam nad yw hyn wedi cael ei ystyried o'r blaen."

"Rydyn ni wedi cael heriau gydag Iechyd sy'n cael eu datrys yn barhaus."

"Mae lleoliadau'n rhwystredig iawn nad ydyn nhw'n derbyn gwybodaeth gyson gan yr amlasiantaethau... yn enwedig adroddiadau lleferydd ac iaith nad ydynt yn cael eu rhannu â'r lleoliad. Nid yw llawer o leoliadau yn cael y wybodaeth gan Therapi Lleferydd ac Iaith mewn modd amserol; mae hyn yn gwneud iddynt deimlo na allant gyfrannu ac ychwanegu awgrymiadau at CDU."

"Iechyd yw'r anoddaf i ymgysylltu â nhw, ond rydyn ni'n cwrdd yn rheolaidd â SACDA i gefnogi prosesau. Mae hyn hefyd yn cael ei wneud yn rhanbarthol gyda gwell dealltwriaeth o ganlyniad."

6. Themâu allweddol

Mae'r Cymdeithion o'r farn bod rôl yr arweinydd yn un strategol i gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau wrth nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ag ADY.
(Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau | LLYW.CYMRU)

Yn dilyn dadansoddi'r arolwg a'r cyfweliadau lled-strwythuredig, craffu ar bolisi a dogfennau, nododd y Cymdeithion y themâu allweddol canlynol fel meysydd o bryder arbennig i arweinwyr wrth gyflawni eu rôl o wireddu diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru.

Lles arweinwyr – Rhesymeg: Roedd llawer o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod gweithredu'r cod wedi cael effaith negyddol ar eu lles eu hunain, yn enwedig lle mai'r Cydlynydd ADY oedd wedi ymateb.

> "Mae'n gwneud i mi fod eisiau ymddiswyddo ac mae wedi effeithio ar fy lles a'm hiechyd meddwl."

> "Bydd hyn yn sicrhau y byddaf yn gadael y proffesiwn."

> "Mae'r Ddeddf wedi arwain at ffrwydrad o gyfrifoldeb, llwyth gwaith a straen sy'n gysylltiedig â gwaith i'r person yn rôl y CADY. Roedd dirfawr angen diwygiadau, ond cafodd y gofynion statudol eu glastwreiddio yn y Ddeddf ADY derfynol fel argymhellion, ac mae hyn wedi arwain at ysgolion yn gweithredu'r newidiadau trwy gynyddu llwyth gwaith person a oedd eisoes yn gweithio hyd yr eithaf."

> "Mae gwerth i'r ddamcaniaeth ond mae'r system wedi cael ei chyflwyno cyn bod unrhyw un yn barod ... Dydw i erioed wedi profi straen fel hyn oherwydd diffyg hyder llwyr yn yr hyn rwy'n ei wneud."

> "Rwy'n pryderu bod cyfreithlondeb CDU yn rhoi straen enfawr ar y CADY sy'n ei ysgrifennu ac mae'r pryder ynghylch tribiwnlys posib bob amser yng nghefn meddwl y CADY."

> "Erbyn hyn rwy'n cael fy hun yn ysgrifennydd, yn gyfrifol am ddiagnosis, yn gyfreithiwr, therapydd lleferydd, therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd a mwy. Rwy'n gweithio mewn ardal lle mae gan rieni sgiliau llythrennedd cyfyngedig ac yn cael fy hun yn gorfod llenwi ffurflenni gyda nhw sydd hefyd yn cyfrannu at y llwyth gwaith."

Recriwtio a Chadw – Rhesymeg: Er bod y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig wedi trosglwyddo i rôl CADY mewn llawer o achosion, pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn parhau, dywedodd lleiafrif (dros draean) eu bod yn llai tebygol o wneud hynny.

> "Mae pob CADY rwy'n ei adnabod yn ceisio ffeindio ffordd allan o'r swydd."

> "Rwy'n teimlo ei bod yn amhosibl bod yn CADY effeithiol ac yn Athro Dosbarth. Mae rôl CADY yn cymryd llawer iawn o fy wythnos addysgu ac rwy'n ei chael hi'n annheg arnaf i a'r plant rwy'n eu haddysgu."

Mae llawer o ymatebwyr yn nodi problem recriwtio a chadw cynorthwywyr addysgu am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys tâl ac amodau, a diffyg staff profiadol neu hyfforddedig sydd ar gael, gan gynnwys y rhai yn y sector Cymraeg.

> "Diffyg cynorthwywyr addysgu Cymraeg. Rydym wedi colli 4 cynorthwyydd dysgu / cynorthwyydd cymorth dysgu profiadol Cymraeg i swyddi y tu allan i fyd addysg oherwydd y cyflog isel maen nhw'n ei dderbyn fel cynorthwyydd lefel 3. Mae'n anodd i ni recriwtio unrhyw un i gymryd eu lle."

> "Mae penodi staff â phrofiad arbenigol bron yn amhosib. Mae penodi staff dibrofiad a'u hyfforddi yn dal yn anodd iawn."

> "Mae staffio cyfrwng Cymraeg, yn enwedig cymorth/cynorthwywyr dosbarth, yn amhosib, dros y tair blynedd diwethaf, yr unig ymgeiswyr oedd gennym oedd myfyrwyr 6ed dosbarth oedd yn cymryd blwyddyn allan. Nid yw'r unigolion hyn yn aros ac nid oes ganddynt unrhyw brofiad o'r gwaith."

Partneriaethau amlasiantaethol / lleoliadau addysg – Rhesymeg: Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod y problemau capasiti a wynebir yn y gwasanaethau iechyd, mater allweddol a nodwyd oedd diffyg ymgysylltiad a chefnogaeth gan y sector iechyd. Nododd y Cymdeithion ddiffyg aliniad clir o ran cyfranogiad y sector iechyd o safbwynt y Ddeddf ADY a gofynion yr ysgolion o ran cefnogi'r gwaith o ddarparu ar gyfer ADY i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

> "Nid yw'r sector iechyd yn gweithredu fel partner wrth weithredu'r ddeddfwriaeth hon. Mae hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei hysgrifennu."

> "Diffyg cefnogaeth gan asiantaethau allanol, yn enwedig Iechyd - oedi hir. Dim llwybr clir a phrydlon i gael gafael ar gymorth a darpariaeth arbenigol."

Problem arall a nodwyd o ran partneriaethau gan dros hanner yr ymatebwyr yw'r pontio rhwng lleoliadau addysgol. Cyfeiriwyd at amrywiaeth o themâu gan gynnwys:

i. Problemau gyda rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau gan gynnwys iechyd, trosglwyddo o ysgolion yn Lloegr, pontio rhwng gwahanol gyfnodau addysg.

"Dydy cynlluniau ddim yn cael eu rhannu'n brydlon neu dydy anghenion ADY ddim yn cael eu datgelu'n llawn."

"Dydy'r CDU a ariennir heb gael eu trosglwyddo ar draws ffiniau siroedd, nac wrth i bobl symud o Loegr. Mae'r rhain hefyd wedi amrywio o ran lefel eu hangen, gyda rhai CDU 'y tu allan i'r sir' yn dod â throthwy llawer is o ADY."

ii. Anallu i ddarparu'r lefel o gymorth a nodwyd yn y CDU gan leoliadau eraill am resymau amrywiol gan gynnwys diffyg cyllid neu staff â sgiliau neu brofiad digonol.

"Methu darparu darpariaeth ddysgu ychwanegol[4]sydd wedi cael ei phenderfynu gan leoliad arall. Gallai hyn fod oherwydd staffio, cyllid neu diffyg adnoddau sydd ar gael yn ein lleoliad."

"Canfod ac ariannu'r lefel o gymorth sydd ei angen pan fo cyllidebau a staff presennol eisoes wedi'u hymestyn i'r eithaf."

Cyllid – Rhesymeg: Ymhlith yr ymatebwyr nid oedd ychydig o dan hanner wedi cael gwybod eto sut y byddai eu lleoliad yn cael ei ariannu i weithredu'r Ddeddf wrth symud ymlaen. Dim ond ychydig iawn sy'n credu y byddant yn derbyn yr arian angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth. Dywedodd sawl ymatebydd nad yw fformiwlâu cyllido awdurdodau lleol yn ystyried anghenion disgyblion.

"Dylai cyllid fod yn canolbwyntio ar y plentyn unigol ac ni ddylai gael ei gyffredinoli gyda fformiwla."

"Bydd cyllid bloc o'n ALl, heb ystyried angen, yn golygu dyraniad annheg o adnoddau yn ein hachos ni a bydd yn arwain at doriadau staff."

"Staff â sgiliau lefel isel oherwydd cyfyngiadau cyllidebol."

Roedd problem sylweddol arall a godwyd gan yr ymatebwyr yn gysylltiedig â rôl y CADY. Amlygodd yr ymatebion ddwy brif thema; Yn gyntaf, cyllid i sicrhau bod modd i'r CADY gwblhau'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rôl y CADY yn ystod oriau ysgol ac yn ail, er mwyn sicrhau bod tâl y CADY yn gymesur â lefel y cyfrifoldeb a gynhwysir yn y rôl.

"Mae angen ystyried cyflogau Cydlynwyr ADY - dyw'r cyflog ddim yn adlewyrchu eu llwyth gwaith a'u cyfrifoldeb."

"Rwy'n credu y dylai'r CADY fod yn rôl ar wahân ar ei graddfa arweinyddiaeth ei hun a'r arian yn cael ei ddyrannu i'r gyllideb i adlewyrchu hyn. Hefyd, i adlewyrchu'r amser rhyddhau sydd ei angen er mwyn i'r CADY fod allan o'r ystafell ddosbarth."

"Ar hyn o bryd dyw e ddim yn edrych fel bod digon o gyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion - does dim digon o gyllid i ariannu Cydlynwyr ADY a chynnig amser nad yw'n addysgu i wneud y gwaith. Mae asiantaethau'n cwyno bod ganddyn nhw brinder staff ac o ganlyniad dyw plant ddim yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw mewn pryd."

"Mae'r hyn a ddisgwylir ohonynt [Cydlynwyr ADY] yn hynod o heriol yn aml am ychydig iawn o arian ychwanegol, os o gwbl, ac ni waeth faint o amser a chymorth maen nhw'n ei gael, dyw e byth yn ddigon. Mae Cydlynwyr ADY yn athrawon dosbarth, ac maen nhw'n gweld nad yw ceisio jyglo rôl athro dosbarth a CADY yn bosibl."

"Mae angen ystyried cyflogau Cydlynwyr ADY."

Diwallu anghenion dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg – Rhesymeg: Mae darlun cyferbyniol iawn yn y maes hwn gyda hanner yn teimlo eu bod mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, dim ond traean o'r ymatebwyr yn y sector oedd yn teimlo bod ganddynt hyfforddiant a chefnogaeth ddigonol; fodd bynnag, nid oedd dros hanner yn credu hyn. Roedd yr ymatebwyr yn nodi ystod eang o broblemau sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg.

"Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn anghyfartal. Yn aml iawn yr unig ddarpariaeth i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yw symud i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg."

"Mae 'na ddiffyg adnoddau, hyfforddiant a chymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion sy'n mynychu addysg Gymraeg dan anfantais. Mae rhai disgyblion yn gadael addysg Gymraeg oherwydd y diffyg cefnogaeth sydd ar gael yn y Gymraeg."

"Mae fy ysgol yn rhannu safle gydag ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf mae 21 o ddisgyblion wedi trosglwyddo o naill ai'r ysgol Gymraeg honno neu eraill yn y dref. Roedd bron pob un ohonynt wedi cael eu nodi fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol ac y byddent yn elwa o addysg cyfrwng Saesneg. Gallai rhywrai awgrymu ein bod wedi dod yn adran ADY i'r ysgol Gymraeg!"

"Mae darparu ADY drwy'r Gymraeg yn anodd iawn. Mae'r mwyafrif helaeth o'r holl adnoddau ar gael yn Saesneg yn unig, gan gynnwys hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg ac mae cyngor gan asiantaethau allanol drwy gyfrwng y Saesneg. Nid yw profi am ddyslecsia ar gael drwy'r Gymraeg, mae hyn yn rhoi ein

dysgwyr dan anfantais. Nid yw gwasanaethau cymorth llythrennedd ar gael yn Gymraeg chwaith i gefnogi gyda materion llythrennedd penodol. Mae cynlluniau darllen a ffoneg Cymraeg yn gyfyngedig, ac yn aml mae'n rhaid i ysgolion greu eu hadnoddau eu hunain i gefnogi'r unigolion."

7. Argymhellion

Lles - Er mwyn gwella lles, mae tystiolaeth i awgrymu bod arweinwyr angen:

1. Adnoddau digonol i sicrhau y gall arweinwyr gyflawni eu rôl o fewn oriau gwaith y lleoliad. Yn ogystal, adnoddau gan gynnwys cyllid, amser a staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

2. Mwy o gyfle i ddatblygu'r elfen rhwydweithio a chydweithio. Lle nodir arfer da yn yr arolwg a'r cyfweliadau lled-strwythuredig, mae enghreifftiau o rwydweithio effeithiol sydd angen ei ddatblygu ymhellach e.e. prosiect Arweinwyr Clwstwr a ariennir drwy Grant Trawsnewid yr ALl.

Recriwtio a Chadw – Er mwyn cefnogi arweinwyr gyda recriwtio a chadw o fewn lleoliadau, mae arweinwyr angen:

1. Cydnabyddiaeth y bydd angen i staff sy'n cefnogi dysgwyr ag ADY, gan gynnwys y CADY a'r cynorthwywyr addysgu, gael gwell amodau gwaith a chyflog, gan gynnwys amser rhyddhau penodol, sy'n adlewyrchu pwysigrwydd eu rôl. Bydd hyn yn gofyn am gyllid.

2. Cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n hawdd eu cyrchu ar gyfer yr holl staff. Er enghraifft, mae staff wedi tynnu sylw at fanteision dewislenni hyfforddi helaeth a ddarperir gan rai ALlau, sy'n cynnwys dulliau cyfunol a hyblygrwydd.

Partneriaethau amlasiantaethol / lleoliad addysg – Er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn effeithiol, mae arweinwyr angen:

1. Eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau gyda'r Ddeddf ADY, er enghraifft, sut mae gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi ysgolion.

2. Adolygiad o brosesau pontio'r Ddeddf.

Cyllid – Sicrhau y gall arweinwyr ddarparu cymorth i ddysgwyr ag ADY:

1. Dylai fod mecanwaith ariannu cyson a theg sy'n dryloyw.

2. Adolygiad o'r cyllid sydd ei angen i gyflawni gofyniad statudol y Ddeddf ADY.

3. Lle nodwyd arferion arloesol, dylid eu rhannu, er enghraifft, y defnydd effeithiol o'r grant trawsnewid yn y broses weithredu a nodwyd gan swyddogion yr ALl.

Cyfrwng Cymraeg – Cefnogi arweinwyr i ddarparu darpariaeth deg i blant a phobl ifanc ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg:

1. Cynyddu argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg gan gynnwys staff amlasiantaethol i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.

2. Datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r broses asesu ac anghenion dysgwyr, er enghraifft cronfa adnoddau ganolog i rannu'r arferion da presennol a nodwyd yn yr arolwg.

8. Casgliad

Mae'r comisiwn hwn wedi canfasio barn arweinwyr ledled Cymru. Casglwyd 730 o ymatebion manwl gan yr arolwg a chyfweliadau lled-strwythuredig manwl ar draws ystod o randdeiliaid. Mae'n darparu tirwedd fanwl o'r ddarpariaeth bresennol ledled Cymru ac yn tynnu sylw at yr ymrwymiad sydd gan arweinwyr ysgolion i drawsnewid a gweithredu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc ag ADY yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'r gwaith hwn wedi nodi themâu pwysig ac arwyddocaol. Fodd bynnag, er bod agweddau cadarnhaol, mae themâu sy'n peri gofid yn dod i'r amlwg ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn argymhellion y comisiwn hwn.

Rydym yn galw ar bob haen o fewn y system ADY i ystyried yr argymhellion hyn gan adeiladu ar arferion da i gyflawni safonau uchel a dyheadau i bawb. Credwn y bydd yr argymhellion hyn yn cynnig map ffordd i arweinwyr gyflawni eu dyletswyddau o ran cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i sicrhau ethos cynhwysol.

9. Cyfeirnodau

Clarke, V., Braun, V. a Hayfield, N., 2015. Dadansoddiad thematig. *Qualitative psychology: A practical guide to research methods, 3, pp.222-248.*

Boyatzis, R.E., 1998. *Transforming qualitative information: Thematic analysis and code development. Sage.*

Braun a Clarke (2006) *Using thematic analysis in Psychology, Qualitative Research yn Psychology, 3:2, 77-101, DOI: 10.1191/1478088706qp063oa*

Clarke, V. a Braun, V., 2013. *Teaching thematic analysis: Overcoming challenges and developing strategies for effective learning. The psychologist, 26(2).*

10. Rhestr Atodiadau

Atodiad 1 - Adroddiad Llawn yr Arolwg

Atodiad 2 - Dadansoddiad Ansoddol Y Cymdeithion o Gwestiwn 6

Atodiad 3 - Cwestiynau Cyfweliad lled-strwythuredig

Atodiad 4 - Methodoleg ar gyfer dadansoddi cyfweliadau lled-strwythuredig

Atodiad 5 - Dadansoddiad cyfweliadau lled-strwythuredig

Atodiad 1

Ionawr 2023

Arolwg o arweinwyr ysgolion

Adroddiad i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru

Awdur: Nia Bryer

Browerdd
Heol yr Ysgol Llanarthne,
Sir Gâr SA32 8HJ
nia@ob3research.co.uk

99, Fairwater Grove West
Llandaf
Caerdydd CF5 2JP
heledd@ob3research.co.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Proffil ymatebwyr yr arolwg
3. Dealltwriaeth bersonol o'r Ddeddf ADY
4. Dealltwriaeth a gweithrediad lleoliadau addysgol o'r Ddeddf ADY
5. Diwallu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
6. Sgiliau, arbenigedd a gallu mewn lleoliadau addysgol
7. Ymgysylltu rhwng lleoliadau addysgol a phartneriaid allweddol
8. Cyllid i leoliadau addysgol
9. Sylwadau terfynol

Atodiad A: Arolwg gwe Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru)

1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3 Research gan Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i gefnogi ei Chymdeithion i gynnal arolwg o arweinwyr ysgolion yng Nghymru.

1.2 Gweithiodd Ymchwil OB3 Research gyda grŵp o Gymdeithion i ddylunio arolwg dwyieithog ar-lein a fyddai'n casglu barn ar ba mor barod oedd arweinwyr ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) newydd. Y bwriad oedd i'r arolwg ffurfio un elfen o ymchwil yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru gydag arweinwyr ysgolion gan ategu cyfweliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gydag arweinwyr a gynhaliwyd gan y Cymdeithion. Dyluniwyd yr arolwg (a nodir yn Atodiad A) i'w gwblhau gan benaethiaid ysgolion, uwch arweinwyr a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) ar draws pob lleoliad ysgol a'i nod oedd archwilio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r Ddeddf yn ogystal â pha mor barod oeddent i'w gweithredu.

1.3 Roedd yr arolwg yn fyw rhwng 14 Rhagfyr 2022 ac 16 Ionawr 2023 ac fe'i ddosbarthwyd gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'i Chymdeithion. Derbyniwyd cyfanswm o 730 o ymatebion i'r arolwg. O'r rhain, cwblhaodd 122 o'r ymatebwyr yr arolwg yn Gymraeg a 608 yn Saesneg.

1.4 Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn cyflwyno proffil o ymatebwyr yr arolwg
- Mae Pennod 3 yn ystyried dealltwriaeth bersonol a hyder ymatebwyr yr arolwg gyda'r Ddeddf
- Mae Pennod 4 yn nodi'r canfyddiadau ar ddealltwriaeth a gweithredu'r Ddeddf mewn lleoliadau addysgol
- Mae Pennod 5 yn archwilio pa mor gymwys yw lleoliadau addysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae Pennod 6 yn ystyried y sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu mewn lleoliadau addysgol i weithredu'r Ddeddf
- Mae Pennod 7 yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg ar ymgysylltu rhwng lleoliadau addysgol a phartneriaid allweddol
- Mae Pennod 8 yn adolygu sut mae cyllid i weithredu'r Ddeddf yn cael ei weld gan ymatebwyr yr arolwg
- Mae Pennod 9 yn nodi rhai sylwadau olaf gan ymatebwyr yr arolwg ynghylch y Ddeddf ADY.

2. Proffil ymatebwyr yr arolwg

2.1 Gofynnodd yr arolwg i ymatebwyr nodi eu prif rôl yn eu lleoliad addysgol. Roedd gan ychydig yn llai na hanner (49% neu 355) o holl ymatebwyr yr arolwg rywfaint o gyfrifoldebau pennaeth, tra nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd yn weddill mai rôl fel CADY oedd ganddynt (45% neu 326). Dewisodd nifer fach o ymatebwyr rôl arall, ac roedd y rhain yn cynnwys cynorthwyydd ADY, llywodraethwr, a rheolwyr cyfleusterau addysgu arbenigol.

Tabl 2.1: Rôl ymatebwyr yr arolwg

Rôl	Nifer	Cyfran
Pennaeth	237	32%
Pennaeth Dros Dro	12	2%
Dirprwy Bennaeth	61	8%
Pennaeth Cynorthwyol	43	6%
Pennaeth Gweithredol	2	0%
Uwch arweinydd	11	2%
Arweinydd canol	13	2%
Athro / Darlithydd	8	1%
CADY	326	45%
Cynorthwyydd Addysgu	1	0%
Arall	16	2%
Cyfanswm	**730**	**100%**

2.2 Gofynnwyd i'r 404 o ymatebwyr yr arolwg nad nododd eu prif rôl fel CADY, a oedd disgwyl iddynt ymgymryd â rôl CADY yn eu lleoliad addysgol, yn ogystal â'u prif rôl. O'r rhain, nododd traean (31% neu 124) fod disgwyl iddynt wneud. Felly, mae disgwyl i gyfanswm o 450 o ymatebwyr yr arolwg (62%) ymgymryd â rôl CADY yn eu lleoliad.

2.3 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg yn gweithio naill ai mewn ysgol gynradd (69% neu 502) neu uwchradd (18% neu 130), fel y dangosir yn Nhabl 2.2. Cafwyd nifer fach o ymatebion hefyd gan ymatebwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill fel ysgol arbennig, ysgol 3-16 neu 3-19, coleg addysg bellach / coleg chweched dosbarth neu uned cyfeirio disgyblion. Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliad cyn ysgol neu ysgol ganol.

Tabl 2.2: Math o leoliad addysgol yr ymatebwyr i'r arolwg

Math	Nifer	Cyfran
Cyn ysgol	0	0%
Meithrin	5	1%
Cynradd	502	69%
Uwchradd	130	18%
Ysgol ganol	0	0%
Ysgol 3-16 neu 3-19	20	3%
Ffederasiwn	8	1%
Coleg addysg bellach / chweched dosbarth	15	2%
Ysgol arbennig	28	4%
Uned Cyfeirio Disgyblion	8	1%
Arall	14	2%
Cyfanswm	**730**	**100%**

2.4 Nododd bron i ddau o bob pump o ymatebwyr yr arolwg (39% neu 252 o'r 645 a oedd wedi'u lleoli mewn ysgol feithrin, cynradd, uwchradd neu 3-16/3-19) fod darpariaeth addysgu arbenigol yn eu hysgol.

2.5 Fel y dangosir yn Nhabl 2.3, nododd tri chwarter yr ymatebwyr arolwg (73% neu 513) eu bod wedi'u lleoli mewn lleoliadau addysgol cyfrwng Saesneg tra bod un o bob pump wedi'u lleoli mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg (19% neu 136). Roedd nifer fach (6% neu 42) wedi'u lleoli mewn lleoliad dwyieithog.

Tabl 2.3: Categori iaith lleoliad addysgol ymatebwyr yr arolwg

Categori iaith	Nifer	Cyfran
Cyfrwng Saesneg	513	73%
Cyfrwng Cymraeg	136	19%
Dwyieithog	42	6%
Dwy ffrwd	5	1%
Ddim yn berthnasol	2	0%
Gwell gennyf beidio â dweud / Dim ateb	32	4%
Cyfanswm	**730**	**100%**

2.6 Roedd nifer y disgyblion yn lleoliadau addysgol ymatebwyr yr arolwg yn amrywio, fel y dangosir yn Nhabl 2.4. Roedd chwarter y rhai a ymatebodd (25% neu 166) wedi'u lleoli mewn lleoliad addysgol gyda dros 500 o ddisgyblion tra bod tua un o bob deg (11% neu 83) wedi'u lleoli mewn lleoliad gyda hyd at 100 o ddisgyblion.

Tabl 2.4: Maint lleoliad addysgol ymatebwyr yr arolwg

Nifer y disgyblion	Nifer	Cyfran
Hyd at 50	17	2%
51-100	66	9%
101-150	87	12%
150-300	211	30%
301-500	136	19%
500+	166	25%
Gwell gennyf beidio â dweud / Dim ateb	47	6%
Cyfanswm	**730**	**100%**

2.7 Cwblhawyd yr arolwg gan ymatebwyr o bob rhan o Gymru, gyda'r nifer fwyaf o ymatebion yn dod o siroedd Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Gwynedd. Dim ond un ymateb a gafwyd gan ymatebydd oedd yn gweithio ym Merthyr Tudful a niferoedd gweddol isel o ymatebion a gafwyd gan siroedd Conwy, Ynys Môn a Blaenau Gwent hefyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd 14% o'r ymatebwyr (99) yn dymuno datgelu ardal eu hawdurdod lleol, fel y dangosir yn Nhabl 2.5.

Tabl 2.5: Awdurdod Lleol lleoliad addysgol ymatebwyr yr arolwg

Awdurdod lleol	Nifer	%	Awdurdod lleol	Nifer	%
Blaenau Gwent	10	1%	Sir Fynwy	13	2%
Pen-y-bont ar Ogwr	18	2%	Castell-nedd Port Talbot	42	6%
Caerffili	31	4%	Casnewydd	52	8%
Caerdydd	63	9%	Sir Benfro	20	3%
Sir Gâr	37	5%	Powys	32	5%
Ceredigion	15	2%	Rhondda Cynon Taf	42	6%
Conwy	7	1%	Abertawe	85	12%
Sir Ddinbych	23	3%	Torfaen	15	2%
Sir y Fflint	30	4%	Bro Morgannwg	16	2%
Gwynedd	44	6%	Wrecsam	26	4%
Ynys Môn	9	1%	Gwell gennyf beidio â dweud / Dim ateb	99	14%
Merthyr Tudful	1	0%			
Cyfanswm				**730**	**100%**

2.8 Cafwyd ymatebion o bob ardal consortiwm/rhanbarth gyda niferoedd cymharol gyfartal o bob rhan o'r pedwar rhanbarth (wrth gyfuno'r ymatebion ar gyfer Partneriaeth a Chanolbarth a Gorllewin Cymru). Ni wnaeth bron i un o bob pump o ymatebwyr yr arolwg (18% neu 128) ddatgelu eu rhanbarth neu ardal gonsortiwm.

Tabl 2.6: Lleoliad rhanbarthol lleoliad addysgol ymatebwyr yr arolwg

Rhanbarth neu ardal gonsortiwm	Nifer	Cyfran
CSC	140	21%
EAS	127	19%
GwE	154	23%
Partneriaeth	136	20%
Canolbarth a Gorllewin Cymru	45	7%
Gwell gennyf beidio â dweud / Dim ateb	128	18%
Cyfanswm	**730**	**100%**

3. Dealltwriaeth bersonol o'r Ddeddf ADY

3.1 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg naill ai'n hyderus iawn (11% neu 83) neu'n weddol hyderus (68% neu 493) ynghylch weithredu'r Ddeddf ond nid oedd lleiafrif naill ai'n arbennig o hyderus (16% neu 119) neu ddim yn hyderus o gwbl (4% neu 27), fel y dangosir yn Ffigur 3.1.

Ffigur 3.1: Hyder ymatebwyr yr arolwg i gyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



3.2 Mae Ffigur 3.2 yn nodi pa mor dda yr oedd ymatebwyr yr arolwg yn teimlo eu bod yn deall gwahanol elfennau o God ADY Cymru. Mae'n dangos bod gan ymatebwyr ddealltwriaeth dda o rôl y CADY a sut i gynnwys disgyblion a'u rhieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau, tra bod ganddynt lai o ddealltwriaeth am baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol a sicrhau cyfraniad amlasiantaethol i'r broses hon.

3.4 Rhoddodd cyfanswm o 77 o ymatebwyr enw darparwr arall a oedd wedi eu cefnogi i ddarparu gofynion y Ddeddf ADY.

3.5 Nododd cyfanswm o 378 o ymatebwyr i'r arolwg y gefnogaeth a fu'n ddefnyddiol iddynt wrth ddarparu'r Ddeddf ADY.

3.6 Roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr o'r farn bod gweithredu'r Ddeddf naill ai wedi cael effaith negyddol iawn (19% neu 139) neu eithaf negyddol (44% neu 322) ar eu lles eu hunain. Nid oedd chwarter y rhai a holwyd (25% neu 183) o'r farn iddo gael unrhyw effaith tra bod un o bob deg o'r farn ei fod naill ai'n cael effaith gadarnhaol iawn (1% neu 8) neu effaith eithaf cadarnhaol (9% neu 63) ar eu lles, fel y dangosir yn Ffigur 3.4.



4. Dealltwriaeth a gweithrediad lleoliadau addysgol o'r Ddeddf ADY

4.1 Fel y dangosir yn Ffigur 4.1, disgwylir i ystod eang o staff ymgymryd â rôl CADY, gydag uwch arweinwyr (35% neu 256) ac arweinwyr canol (19% neu 142) yn cyfrif am dros hanner yr holl ymatebion. Mewn 29% o achosion (neu 213), disgwylir i'r Pennaeth, Pennaeth dros dro, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol ymgymryd â'r rôl.

Ffigur 4.1: Staff y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl CADY (n = 730)



4.2 Nododd nifer fach (16) fod disgwyl i ddeiliad swydd arall ymgymryd â rôl CADY. Roedd y rhain yn cynnwys chwe ymateb lle roedd mwy nag un person yn y lleoliad addysgol yn gyfrifol am y rôl (mewn rhai achosion oherwydd bod y lleoliad yn ysgol arbennig ac mae'r holl ddarpariaeth yn seiliedig ar CDU) a dau achos lle roedd y swyddog awdurdod lleol yn ymgymryd â'r rôl.

4.3 Mewn un o bob pump o achosion (20% neu 143), y CADY yn y lleoliad addysgol yw'r CADY arweiniol ar gyfer clwstwr yr ysgol, ond nid yw hyn yn wir gyda'r rhan fwyaf o'r achosion sy'n weddill (77% neu 541). Roedd tua 2% (17) naill ai ddim yn gwybod neu ddim wedi ateb.

4.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliadau ysgol (701) a oedd eu Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig wedi trosglwyddo i rôl CADY. Yn y rhan fwyaf o achosion (78% neu 550 o 701), roedd yr Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig wedi trosglwyddo i rôl CADY, er nad oeddent wedi gwneud hynny mewn 14% o achosion (neu 97). Nododd yr ymatebwyr oedd yn weddill naill ai nad yw hyn yn berthnasol iddynt (6% neu 43) neu nad oeddent yn gwybod neu heb ateb (2% neu 11).

4.5 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl CADY (cyfanswm o 450) a oeddent yn fwy neu'n llai tebygol o aros yn rôl CADY. Nodir y canfyddiadau yn Ffigur 4.2 ac maent yn awgrymu darlun cymysg. Mae'r data'n dangos bod dros draean (37% neu 167) yn llai tebygol o wneud hynny tra bod un o bob pump (20% neu 89) yn fwy tebygol o aros yn y rôl. Ar gyfer ychydig llai na thraean (31% neu 139) nid yw'r newid yn gwneud unrhyw wahaniaeth ac nid oedd 12% (neu 55) yn gwybod neu nid oeddent wedi ateb y cwestiwn.

Ffigur 4.2: Tebygolrwydd y bydd deiliaid swyddi CADY yn aros yn eu rôl yn dilyn gweithredu'r Ddeddf ADY (n = 450)



4.6 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi'u lleoli mewn lleoliad ysgol (cyfanswm o 701 o ymatebwyr) pa gyfran o'r dysgwyr sydd ganddynt, a oedd gynt ar weithredu gan yr ysgol, sydd bellach yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi yn Ffigur 4.3 ac yn awgrymu bod ysgolion wedi gwneud cynnydd amrywiol. Er bod chwarter y rhai a holwyd yn nodi bod hyd at 20% o'r disgyblion hyn ar ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol, (25% neu 175) mae tua 15% (neu 101) wedi symud dros 80% o'r disgyblion hyn i ddarpariaeth gyffredinol.

Ffigur 4.3: Cyfran y dysgwyr a oedd yn flaenorol ar weithredu gan yr ysgol sydd bellach yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol (n = 701)



[1] h.y. y rhai sydd wedi'u lleoli mewn ysgol feithrin, cynradd, uwchradd, ysgol 3-16 neu 3-19 oed, ffederasiwn, ysgol arbennig ac uned cyfeirio disgyblion

4.7 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl CADY (450) faint o amser maent yn ei dreulio yn paratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Gofynnwyd iddynt nodi cyfanswm yr oriau a dreuliwyd o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd a fynychwyd. Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan 435 o'r ymatebwyr hyn, mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd yn cyfateb i 10 awr 36 munud. Mae hyn yn amrywio o lai nag awr i hyd at 100 awr. Mae tri chwarter y rhai a ddarparodd ddata (73% neu 318) yn treulio hyd at a chan gynnwys 10 awr ar bob CDU.

4.8 Yn seiliedig ar ddata a ddarperir gan 420 o ymatebwyr, ar gyfartaledd mae tua thraean o gyfrifoldebau CADY (36%) yn cael eu cwblhau yn ystod amser ysgol. Mae'r gyfradd hon yn amrywio'n sylweddol o ddim i 100%. Efallai y bydd angen dileu rhywfaint o'r data a gofnodwyd gan ymatebwyr yr arolwg i'r cwestiwn hwn o'r dadansoddiad gan ei bod yn ymddangos bod ymatebwyr wedi nodi nifer yr oriau a dreulir yn hytrach na darparu amcangyfrif o'r gyfran o'u hamser a dreulir ar yr holl gyfrifoldebau CADY yn ystod amser ysgol.

4.9 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod eu lleoliad addysgol naill ai'n barod iawn (26% neu 189) neu'n gymharol barod (64% neu 465) i weithredu'r Ddeddf ac ychydig iawn oedd yn credu nad yw eu lleoliad yn barod, fel y dangosir yn Ffigur 4.4.

Ffigur 4.4: Pa mor barod yw lleoliadau addysgol i gyflwyno'r Ddeddf (n = 730)



4.10 Mae Ffigur 4.5 yn awgrymu bod ymatebwyr yr arolwg yn gyffredinol o'r farn bod eu lleoliad addysgol naill ai'n barod iawn neu'n weddol barod i gyflwyno gwahanol elfennau o'r Cod. Roedd ymatebwyr o'r farn bod eu lleoliad yn barod iawn o ran cynnwys disgyblion a'u rhieni/gofalwyr yn y broses o wneud penderfyniadau, tra eu bod yn llai hyderus bod eu lleoliad addysgol yn barod i fabwysiadu dull amlasiantaeth o gynllunio a chreu CDU.

Ffigur 4.5 Pa mor barod yw lleoliadau addysgol i gyflwyno elfennau o'r Cod ADY (n = 730)



4.11 Atgyfnerthir y sefyllfa hon ymhellach wrth ddadansoddi dewis ymatebwyr yr arolwg o'r datganiad sy'n adlewyrchu sefyllfa eu lleoliad addysgol orau o ran paratoi a chynnal CDU fel y gwelir yn Ffigur 4.6. Roedd ychydig dros draean (39% neu 284) o'r farn bod eu lleoliad addysgol mewn sefyllfa sicr (yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r Uwch Dîm Arwain (UDA) ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r newidiadau allweddol a bod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol wedi'u nodi a'u cynllunio ar eu cyfer) ac roedd hanner (50% neu 366) o'r farn bod eu lleoliad addysgol yn datblygu (yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r UDA ymwybyddiaeth gadarn). Roedd ychydig o dan un o bob deg (9% neu 66) o'r farn bod sefyllfa eu lleoliad addysgol yn 'dod i'r amlwg' yn yr ystyr bod gan Gydlynwyr ADY a'r UDA rywfaint o ymwybyddiaeth. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr (1% neu 14) naill ai'n gwybod neu ddim wedi ateb.

Ffigur 4.6 Sefyllfa lleoliadau addysgol o ran paratoi a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (n = 730)



4.12 Y gred oedd bod ymwybyddiaeth ymysg cyrff llywodraethu o'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth yn amrywio. Roedd ychydig llai na dau o bob pump o'r rhai a holwyd (18% neu 130) o'r farn bod pob llywodraethwr yn eu lleoliad addysgol yn gwbl ymwybodol tra bod ymwybyddiaeth yn is ar draws gweddill sampl yr arolwg fel y gwelir yn Ffigur 4.7.

Ffigur 4.7 Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth ADY ymhlith aelodau cyrff llywodraethu (n = 730)(n=730)



4.13 Nododd ychydig dros hanner y rhai a holwyd (52% neu 379) fod eu lleoliad addysgol wedi wynebu heriau wrth dderbyn dysgwr ADY o leoliad addysgol arall. Nid oedd dros draean wedi gwneud (37% neu 268) ac nid oedd y gyfran sy'n weddill (11% neu 83) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn hwn. .

4.14 Darparodd cyfanswm o 358 o'r ymatebwyr i'r arolwg fanylion am yr heriau a brofwyd wrth dderbyn dysgwr ADY o leoliad addysgol arall.

4.15 Nododd cyfanswm o 439 o ymatebwyr fuddion y maent yn eu rhagweld o weithredu'r Ddeddf yn eu lleoliad addysgol.

5. Diwallu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

5.1 Atebodd ychydig dros hanner holl ymatebwyr yr arolwg rai cwestiynau yn ymwneud ag ADY drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu darlun cyferbyniol iawn o ran pa mor dda gall lleoliadau addysgol ddiwallu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd am ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.2 Er bod hanner (50% neu 198 o 396) yn credu bod eu lleoliad addysgol naill ai'n gymwys iawn (23% neu 90) neu'n weddol gymwys (27% neu 108) i ddelio ag anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd yr hanner arall o'r farn nad oeddent yn arbennig o gymwys (21% neu 82) neu nad oeddent yn gymwys o gwbl (29% neu 116) i wneud hynny.

Ffigur 5.1: Pa mor gymwys yw lleoliadau addysgol i asesu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd eisiau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (n=396)



5.3 Yn yr un modd, er bod ychydig llai na hanner o'r bod eu lleoliad addysgol naill ai'n gymwys iawn (26% neu 201) neu'n weddol gymwys (20% neu 78) i gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd dros hanner yn meddwl nad oeddent naill ai'n arbennig o gymwys (22% neu 86) neu ddim yn gymwys o gwbl (31% neu 122).

Ffigur 5.2: Pa mor gymwys yw lleoliadau addysgol i gyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg (n=388)



5.4 O'r rhai sydd angen mynediad at adnoddau ADY drwy gyfrwng y Gymraeg (cyfanswm o 364), dim ond ychydig dros un o bob pump (23% neu 85) o ymatebwyr yr arolwg oedd yn credu bod ganddynt fynediad digonol. Nid oedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr oedd yn weddill (66% neu 240) yn credu bod hynny'n wir. Nid oedd un o bob deg (11% neu 39) yn gwybod.

5.5 Roedd traean o ymatebwyr yr arolwg (31% neu 112 o 360) yn credu bod gan eu staff fynediad digonol at hyfforddiant a chymorth i gyflawni gofynion y Ddeddf ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oedd dros hanner (56% neu 202 o 360) o'r farn bod hyn yn wir ac nid oedd y 13% oedd yn weddill (neu 46) yn gwybod.

5.6 Rhoddodd cyfanswm o 166 o ymatebwyr yr arolwg sylwadau pellach ar weithredu'r Ddeddf ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

6. Sgiliau, arbenigedd a gallu mewn lleoliadau addysgol

6.1 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod gan eu lleoliad addysgol weithlu medrus i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth, naill ai i raddau helaeth (25% neu 185) neu i ryw raddau (64% neu 470). Roedd llai na un o bob deg o'r farn nad oedd eu lleoliad addysgol yn gymwys, fel y dangosir yn Ffigur 6.1.

Ffigur 6.1: I ba raddau y mae gan leoliadau addysgol weithlu medrus i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth (n = 730)



6.2 Er gwaethaf hyn, roedd dau o bob pump o'r rhai a holwyd (41% neu 302) o'r farn bod gan eu lleoliad addysgol fylchau o ran sgiliau neu wybodaeth ar draws eu gweithlu a allai eu rhwystro rhag bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Roedd yr un gyfran (42% neu 304) o'r farn nad oedd hyn yn wir ac nid oedd y 18% oedd yn weddill (neu 124) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn.

6.3 Ymhelaethodd cyfanswm o 247 o ymatebwyr yr arolwg ar y bylchau sgiliau a gwybodaeth yn eu lleoliad addysgol.

6.4 Dywedodd tua dwy ran o dair o'r rhai a holwyd (65% neu 472) fod eu lleoliad addysgol wedi wynebu problemau wrth recriwtio a chadw staff gyda'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i weithredu'r Ddeddf ADY ond nid oedd chwarter (25% neu 186) wedi wynebu problemau. Nid oedd y rhai oedd yn weddill (10% neu 70) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn. Rhoddodd cyfanswm o 425 o ymatebwyr fanylion pellach am y materion hyn.

6.5 Gofynnwyd i ymatebwyr raddio pedair nodwedd arweinyddiaeth addysgol effeithiol wrth ddarparu'r Ddeddf yng Nghymru yn nhrefn pwysigrwydd. Rhestrwyd y pedair nodwedd yn y drefn bwysigrwydd ganlynol:

- Cyd-weledigaeth gyda 42% (neu 308) yn dewis hyn fel eu nodwedd bwysicaf
- Cyfathrebu gyda 32% (neu 237) yn dewis hyn fel eu nodwedd bwysicaf
- Cydweithio gyda 15% (neu 110) yn dewis hyn fel eu nodwedd bwysicaf a chwarter (24% neu 175) yn dewis hyn fel eu nodwedd lleiaf pwysig
- Ymrwymiad gyda 15% (neu 113) unwaith eto'n dewis hyn fel eu nodwedd bwysicaf ond traean (36% neu 265) yn dewis hyn fel eu nodwedd lleiaf pwysig.

Ffigur 6.2: Graddio nodweddion arweinyddiaeth addysgol (n = 730)



[2] Fel y nodwyd gan Goleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion

7. Ymgysylltu rhwng lleoliadau addysgol a phartneriaid allweddol

7.1 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg roi sylwadau ar yr ymgysylltiad rhwng eu lleoliad addysgol a phartneriaid allweddol fel y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol. Fel y dangosir yn Ffigur 7.1, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod gwasanaethau'r awdurdodau lleol naill ai'n ymgysylltu'n dda iawn neu'n weddol dda wrth weithredu'r Ddeddf tra bod lefelau ymgysylltu ar draws y gwasanaeth iechyd yn llawer is.

Ffigur 7.1: Ymgysylltu â phartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



7.2 Ar ben hynny, mae canfyddiadau'r arolwg yn awgrymu, er bod gwasanaethau awdurdodau lleol wedi ymgysylltu'n fwy ar y cyfan ers cyflwyno'r Ddeddf, nid yw ymgysylltiad y gwasanaeth iechyd wedi newid llawer gyda dim ond 20% (neu 146) o'r farn bod eu hymgysylltiad wedi cynyddu dros amser.

Ffigur 7.2: Ym mha ffordd mae'r ymgysylltu â'r partneriaid allweddol wedi newid ers cyflwyno'r Ddeddf ADY (n = 730)



7.3 Rhoddodd cyfanswm o 338 o ymatebwyr yr arolwg fanylion am y materion roedd eu lleoliad addysgol wedi'u profi wrth ymgysylltu â'r partneriaid allweddol hyn.

8. Cyllid i leoliadau addysgol

8.1 O'r ymatebwyr hynny a allai ateb y cwestiwn (503 o 730), roedd ychydig dros hanner (57%, neu 288 o 503) wedi cael gwybod faint o gyllid y byddai eu lleoliad addysgol yn ei dderbyn gan eu hawdurdod lleol i ddarparu'r Ddeddf ADY. Nid oedd y 215 (43%) oedd yn weddill wedi cael gwybod ar adeg cwblhau'r arolwg.

8.2 Roedd traean o holl ymatebwyr yr arolwg (32% neu 237 neu 730) yn deall sut roedd eu hawdurdod lleol wedi pennu faint o gyllid y bydd pob lleoliad addysgol yn ei dderbyn i gyflwyno'r Ddeddf ADY ond nid oedd y ddwy ran o dair arall yn gwybod.

8.3 Er nad oedd lleiafrif mawr yn gwybod (42% neu 312) nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn weddill (39% neu 283) yn credu bod y fformiwla ariannu a fabwysiadwyd gan eu hawdurdod lleol ar gyfer dyrannu'r cyllid hwn i leoliadau addysgol yn deg, fel y dangosir yn Ffigur 8.1.

Ffigur 8.1 A yw fformiwla ariannu awdurdodau lleol ar gyfer dyrannu cyllid i ddarparu'r Ddeddf ADY yn deg (n = 730)



8.4 Nid oedd dros hanner ymatebwyr yr arolwg (53% neu 389) o'r farn y byddai gan eu lleoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth, tra bod ychydig dros chwarter (28% neu 204) yn credu hynny, fel y nodir yn Ffigur 8.2. Nid oedd un o bob pump (19% neu 137) naill ai'n gwybod neu heb ateb y cwestiwn hwn.

Ffigur 8.2 A fydd gan leoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth (n = 730)



9. Sylwadau terfynol

9.1 Disgrifiodd cyfanswm o 470 o ymatebwyr yr arolwg y Ddeddf ADY mewn un gair. Mae Ffigur 9.1 yn nodi'r 50 gair a ddefnyddir fwyaf gan yr ymatebwyr hyn, naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae gan y rhan fwyaf o'r geiriau cyffredin a ddefnyddir, megis heriol, straen, trwm a dryslyd arwyddocâd negyddol, er bod nifer llai o ymatebwyr yn dyfynnu geiriau mwy cadarnhaol fel blaengar, uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ffigur 9.1: Cwmwl geiriau yn disgrifio ADY mewn un gair

9.2 Rhoddodd cyfanswm o 284 o ymatebwyr yr arolwg sylwadau eraill am y Ddeddf ADY.

Atodiad A: Arolwg gwe Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2017

Mae Ymchwil OB3 Research yn cefnogi tîm o Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i gynnal ymchwil ymhlith arweinwyr lleoliadau addysgol ledled Cymru am y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (Deddf ADYTA).

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r arolwg byr hwn i ddweud wrthym am eich dealltwriaeth o Ddeddf ADY a'r cynnydd sydd yn cael ei wneud gan eich lleoliad addysg i roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Mae eich cyfranogiad i'r arolwg hwn yn gwbl wirfoddol a bydd eich ymatebion yn cael eu hystyried yn gyfrinachol. Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir yn ddienw ac ni fydd yn cael ei briodoli mewn unrhyw ffordd i chi neu eich lleoliad addysgol.

A1. A hoffech lenwi'r holiadur yma yn / Would you like to complete this questionnaire in:

- ❑ Saesneg / English
- ❑ y Gymraeg / Welsh

B1. Beth yw eich rôl?

- ❑ Pennaeth
- ❑ Pennaeth Dros Dro
- ❑ Dirprwy Bennaeth
- ❑ Pennaeth Cynorthwyol
- ❑ Pennaeth Gweithredol
- ❑ Uwch Arweinydd
- ❑ Arweinydd canol
- ❑ Cydlynydd ADY
- ❑ Athrawes / Darlithydd
- ❑ Cynorthwy-ydd dysgu
- ❑ Arall

[If other] Nodwch os gwelwch yn dda:

.....

.....

.....

B2. Ym mha fath o leoliad addysgol ydych chi'n gweithio ynddo?

- ❑ Cyn ysgol
- ❑ Meithrin
- ❑ Cynradd
- ❑ Uwchradd
- ❑ Ysgol ganol
- ❑ Ysgol 3-16 neu 3-19
- ❑ Ffederasiwn
- ❑ Coleg addysgu bellach / chweched dosbarth
- ❑ Ysgol arbennig
- ❑ Uned Cyfeirio Disgyblion
- ❑ Arall
- ❑ Gwell gennyf beidio â dweud

[If B2=Is a school] B3. A oes gennych unrhyw ddarpariaeth addysgu arbenigol yn eich ysgol?

- ❑ Oes
- ❑ Nac oes
- ❑ Ddim yn gwybod

[If B1=Not ALNCo] B4. A oes disgwyl i chi ymgymryd â rôl Cydlynydd ADY yn eich lleoliad addysgol?

- ❑ Oes
- ❑ Nac oes
- ❑ Ddim yn gwybod

Mae'r cwestiynau cyntaf hyn yn canolbwyntio ar eich dealltwriaeth bersonol o'r Ddeddf ADY a pha mor hyderus ydych chi'n teimlo am weithredu'r ddeddfwriaeth.

C1. Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am gyflwyno'r Ddeddf ADY?

- ❑ Hyderus iawn
- ❑ Gweddol hyderus
- ❑ Ddim yn arbennig o hyderus
- ❑ Ddim yn hyderus o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

C2. Pa mor dda ydych chi'n deall yr elfennau canlynol o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru?

	Yn dda iawn	Yn weddol dda	Ddim yn arbennig o dda	Ddim yn dda o gwbl	Ddim yn gwybod
Rôl y Cydlynydd ADY	❑	❑	❑	❑	❑
Darparu gwybodaeth a chyngor i ddisgyblion, a'u rhieni/gofalwyr	❑	❑	❑	❑	❑
Cynnwys disgyblion, a'u rhieni/gofalwyr, i wneud penderfyniadau	❑	❑	❑	❑	❑
Gwneud penderfyniadau am ddysgwyr sydd ag ADY	❑	❑	❑	❑	❑
Gwneud penderfyniadau am y cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag ADY	❑	❑	❑	❑	❑
Paratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU)	❑	❑	❑	❑	❑
Cyfraniad amlasiantaethol i gynllunio a chreu CDU	❑	❑	❑	❑	❑

C3. Pa mor dda ydych chi wedi cael eich cefnogi gan y sefydliadau canlynol i ddarparu'r Ddeddf ADY?

	Yn dda iawn	Yn weddol dda	Ddim yn arbennig o dda	Ddim yn dda o gwbl	Ddim yn gwybod
Eich lleoliad addysgol	❑	❑	❑	❑	❑
Eich corff llywodraethu	❑	❑	❑	❑	❑
Eich awdurdod lleol	❑	❑	❑	❑	❑
Eich consortia addysgol	❑	❑	❑	❑	❑
Ysgolion neu lleoliadau addysgol eraill	❑	❑	❑	❑	❑
Gwasanaeth iechyd	❑	❑	❑	❑	❑
Darparwyr eraill	❑	❑	❑	❑	❑

Nodwch os gwelwch yn dda y darparwyr eraill hyn sydd wedi eich cefnogi i ddarparu'r Ddeddf ADY?

.....

C4. Pa gefnogaeth, os o gwbl, sydd wedi bod yn ddefnyddiol i chi wrth gyflwyno'r Ddeddf ADY?

.....

.....

C5. Pa effaith, os o gwbl, y mae gweithredu'r Ddeddf ADY hyd yma wedi'i gael ar eich lles chi?

- ❑ Effaith gadarnhaol iawn
- ❑ Effaith eithaf cadarnhaol
- ❑ Dim effaith
- ❑ Effaith eithaf negyddol
- ❑ Effaith negyddol iawn
- ❑ Ddim yn gwybod

Mae'r set nesaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth a gweithrediad eich lleoliad addysgol o'r Ddeddf ADY.

D1. Pwy o fewn eich lleoliad addysgol y disgwylir iddynt ymgymryd â rôl Cydlynydd ADY?

- ❑ Pennaeth
- ❑ Pennaeth Dros Dro
- ❑ Dirprwy Bennaeth
- ❑ Pennaeth Cynorthwyol
- ❑ Pennaeth Gweithredol
- ❑ Uwch arweinydd
- ❑ Arweinydd canol
- ❑ Athro / Athrawes / Darlithydd
- ❑ Cynorthwyydd addysgu
- ❑ Arall
- ❑ Ddim yn gwybod

[If other] Nodwch os gwelwch yn dda:

.....

[If B2=school setting] D2. A yw eich Cydlynydd ADY yn Gydlynydd ADY arweiniol ar gyfer eich clwstwr ysgol?

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod

[If B2=school setting] D3. A yw eich Cydlynydd AAA wedi trosglwyddo i wneud rôl Cydlynydd ADY?

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Ddim yn berthnasol

[If B1=8 OR B4=1] D4. Yn dilyn gweithredu'r Ddeddf ADY, a ydych yn fwy neu'n llai tebygol o aros yn y rôl fel Cydlynydd ADY?

- ❑ Yn fwy tebygol
- ❑ Yn llai tebygol
- ❑ Dim gwahaniaeth
- ❑ Ddim yn gwybod

[If B2=school setting] D5. Yn fras, pa gyfran o ddysgwyr sydd gennych chi, a oedd yn flaenorol ar 'weithredu gan yr ysgol', sydd bellach yn rhan o ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol?

- ❑ Hyd at 20%
- ❑ 21 - 40%
- ❑ 41 - 60%
- ❑ 61 - 80%
- ❑ Dros 80%
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Ddim yn berthnasol

[If B1=8 OR B4=1] D6. Faint o amser, ar gyfartaledd, yr ydych chi'n ei dreulio yn paratoi Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

.....

[[Nodwch gyfanswm yr oriau yr ydych fel arfer yn eu treulio yn paratoi un CDU o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys amser mewn unrhyw gyfarfodydd a fynychwyd]

.....

[If B1=8 OR B4=1] D7. Sut mae'r amser a dreuliwch yn paratoi CDU yn wahanol i'r hyn a dreuliwyd ar baratoi cynlluniau gweithredu ysgol?

- ❑ Mae CDU yn cymryd llawer mwy o amser
- ❑ Mae CDU yn cymryd ychydig mwy o amser
- ❑ Mae CDU yn cymryd yr un faint o amser
- ❑ Mae CDU yn cymryd ychydig llai o amser
- ❑ Mae CDU yn cymryd llawer llai o amser
- ❑ Ddim yn gwybod

D8. Tua faint o'ch cyfrifoldebau Cydlynydd ADY fedrwch chi eu cwblhau o fewn amser ysgol?

.....

[Rhowch ganran bras o'r amser a dreuliwch ar holl gyfrifoldebau cydlynu ADY mae modd i chi eu cyflawni yn yr ysgol yn ystod amser ysgol]

.....

D9. Pa mor barod yw eich lleoliad addysgol i gyflwyno'r Ddeddf ADY?

- ❑ Parod iawn
- ❑ Gweddol barod
- ❑ Ddim yn arbennig o barod
- ❑ Ddim yn barod o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

D10. Pa mor barod yw eich lleoliad addysgol i gyflwyno'r elfennau canlynol o'r Ddeddf ADY?

	Parod iawn	Gweddol barod	Ddim yn arbennig o barod	Ddim yn barod o gwbl	Ddim yn gwybod
Darparu gwybodaeth a chyngor i ddisgyblion, a'u rhieni/gofalwyr	❑	❑	❑	❑	❑
Cynnwys disgyblion, a'u rhieni/gofalwyr, wrth wneud penderfyniadau	❑	❑	❑	❑	❑
Gwneud penderfyniadau am ddysgwyr sydd ag ADY	❑	❑	❑	❑	❑
Gwneud penderfyniadau am y cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr ag ADY	❑	❑	❑	❑	❑
Paratoi a chynnal CDU	❑	❑	❑	❑	❑
Mabwysiadu dull amlasiantaethol o gynllunio a chreu CDU	❑	❑	❑	❑	❑
Darparu ADY i ddisgyblion	❑	❑	❑	❑	❑

D11. Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau sefyllfa eich lleoliad addysgol o ran paratoi a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU)?

- ❑ Yn sicr: Mae gan y Cydlynydd ADY a'r Uwch Dîm Arwain ymwybyddiaeth gadarn iawn o'r newidiadau allweddol, ac mae'r heriau sy'n wynebu'r ysgol wedi eu hadnabod a'u cynllunio ar eu cyfer
- ❑ Yn datblygu: Mae gan y Cydlynydd ADY a'r Uwch Dîm Arwain ymwybyddiaeth gadarn o'r newidiadau allweddol, ac mae cynllunio gweithredu yn cael ei ystyried
- ❑ Yn dod i'r amlwg: Mae gan y Cydlynydd ADY a'r Uwch Dîm Arwain ychydig o ymwybyddiaeth o'r newidiadau allweddol, ac mae camau gweithredu ar gychwyn
- ❑ Ddim yn gwybod

D12. Pa mor ymwybodol yw aelodau eich corff llywodraethu o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf ADY?

- ❑ Mae pob un o'r llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol
- ❑ Mae rhai llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol
- ❑ Mae gan y llywodraethwyr ychydig o ymwybyddiaeth
- ❑ Does gan y llywodraethwyr ddim ymwybyddiaeth o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

D13. A yw eich lleoliad addysgol wedi profi unrhyw heriau wrth dderbyn dysgwr ADY o leoliad addysgol arall??

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod

[If D13=1] D14. Beth oedd natur yr heriau yma?

.....

.....

.....

D15. Pa fanteision, os o gwbl, ydych chi'n eu rhagweld a ddaw o weithredu'r Ddeddf ADY yn eich lleoliad addysgol?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mae'r cwestiynau canlynol yn canolbwyntio ar ba mor gymwys yw eich lleoliad addysgol i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag ADY sydd eisiau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

E1. Pa mor gymwys yw eich lleoliad addysgol i asesu anghenion dysgwyr a allai fod angen ADY sydd eisiau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?

- ❑ Yn gymwys iawn
- ❑ Yn weddol gymwys
- ❑ Ddim yn arbennig o gymwys
- ❑ Ddim yn gymwys o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Nid yw hyn yn berthnasol i'n lleoliad addysgol

E2. Pa mor gymwys yw eich lleoliad addysgol i gyflwyno darpariaeth dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg?

- ❑ Yn gymwys iawn
- ❑ Yn weddol gymwys
- ❑ Ddim yn arbennig o gymwys
- ❑ Ddim yn gymwys o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Nid yw hyn yn berthnasol i'n lleoliad addysgol

E3. A oes gan eich lleoliad addysgol fynediad digonol at adnoddau ADY trwy gyfrwng y Gymraeg?

- ❑ Oes
- ❑ Nac oes
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Nid yw hyn yn berthnasol i'n lleoliad addysgol

E4. A oes gan staff eich lleoliad addysgol fynediad digonol at hyfforddiant a chymorth i gyflwyno gofynion y Ddeddf ADY drwy gyfrwng y Gymraeg?

- ❑ Oes
- ❑ Nac oes
- ❑ Ddim yn gwybod
- ❑ Nid yw hyn yn berthnasol i'n lleoliad addysgol

E5. A hoffech wneud unrhyw sylw pellach ar ddarpariaeth ADY trwy gyfrwng y Gymraeg?

.....

.....

.....

Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn am y sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu sydd yn weithredol yn eich lleoliad addysgol i gyflwyno'r Ddeddf ADY.

F1. I ba raddau y mae gan eich lleoliad addysgol weithlu medrus i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth?

- ❑ I raddau helaeth
- ❑ I ryw raddau
- ❑ I ddim graddau penodol
- ❑ I ddim graddau o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

F2. A oes gan eich lleoliad addysgol unrhyw fylchau sgiliau neu wybodaeth ar draws eich gweithlu a allai eich rhwystro rhag cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth?

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod

[If F2=1] Beth yw'r problemau hyn?

.....

.....

.....

F3. A yw eich lleoliad addysgol yn wynebu unrhyw broblemau o ran recriwtio a chadw staff sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i gyflwyno'r Ddeddf ADY?

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod

[If F3=1] Beth yw'r problemau hyn?

.....

.....

.....

F4. Beth fyddech chi'n ystyried yw nodweddion pwysig arweinyddiaeth addysgol effeithiol wrth ddarparu'r Ddeddf ADY yng Nghymru?

Llusgwch a gollyngwch y nodweddion Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion isod i'r golofn wag, yn nhrefn pwysigrwydd lle mae 1=pwysicaf a 4=lleiaf pwysig]

	1 Pwysicaf	2	3	4	5 Lleiaf Pwysig
Cyd-weledigaeth	❑	❑	❑	❑	❑
Ymrwymiad	❑	❑	❑	❑	❑
Cydweithio	❑	❑	❑	❑	❑
Cyfathrebu	❑	❑	❑	❑	❑

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymdrin ag ymgysylltiad rhwng eich lleoliad addysgol a phartneriaid allweddol wrth gyflwyno'r Ddeddf ADY.

G1. O'ch profiad chi, i ba raddau y mae'r partneriaid allweddol canlynol yn ymgysylltu â darpariaeth y Ddeddf ADY?

	Ymgysylltu yn dda iawn	Ymgysylltu yn weddol dda	Ddim yn ymgysylltu'n arbennig o dda	Ddim yn ymgysylltu o gwbl	Ddim yn gwybod
Gwasanaeth iechyd	❑	❑	❑	❑	❑
Gwasanaethau awdurdod lleol	❑	❑	❑	❑	❑

G2. What issues, if any, has your educational setting experienced in engaging these key partners?

	Wedi cynyddu llawer	Wedi cynyddu ychydig	Dim newid	Wedi lleihau ychydig	Wedi lleihau llawer	Ddim yn gwybod
Gwasanaeth iechyd	❑	❑	❑	❑	❑	❑
Gwasanaethau awdurdod lleol	❑	❑	❑	❑	❑	❑

G3. Pa faterion, os o gwbl, y mae eich lleoliad addysgol wedi'u profi wrth ymgysylltu â'r partneriaid allweddol hyn?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mae'r cwestiynau nesaf yn gofyn am y cyllid sydd ar gael i'ch lleoliad addysgol i gyflwyno'r Ddeddf ADY.

H1. A yw eich lleoliad addysgol wedi cael gwybod faint o gyllid y bydd yn ei gael gan yr awdurdod lleol i gyflwyno'r Ddeddf ADY?

- ❑ Ydy
- ❑ Nac ydy
- ❑ Ddim yn gwybod

H2. A ydych chi'n deall sut mae eich awdurdod lleol wedi pennu faint o gyllid y bydd pob lleoliad addysgol yn ei gael i gyflwyno'r Ddeddf ADY?

- ❑ Ydw
- ❑ Nac ydw
- ❑ Ddim yn gwybod

H3. A ydych chi'n credu bod y fformiwla ariannu sydd wedi ei fabwysiadu gan eich awdurdod lleol ar gyfer dyrannu cyllid i leoliadau addysgol i ddarparu'r Ddeddf ADY yn:

- ❑ Deg iawn
- ❑ Gweddol deg
- ❑ Ddim yn arbennig o deg
- ❑ Ddim yn deg o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

H4. I ba raddau yr ydych chi'n ystyried y bydd gan eich lleoliad addysgol y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth?

- ❑ I raddau helaeth
- ❑ I ryw raddau
- ❑ I ddim graddau penodol
- ❑ I ddim graddau o gwbl
- ❑ Ddim yn gwybod

H5. Yn olaf, pe bai'n rhaid i chi grynhoi'r Ddeddf ADY mewn un gair, pa air unigol fyddech chi'n ei ddewis?

.....

H6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Ddeddf ADY?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddewisol, ond byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau cymaint ohonynt â phosibl gan y byddant yn ein helpu i ddatblygu proffil o ymatebwyr yr arolwg. Bydd eich ymatebion yn aros yn gyfrinachol ac ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd a allai adnabod cyfranogwyr neu leoliadau addysgol.

J1. Pa gategori iaith yw eich lleoliad addysgol?

- ❑ Cyfrwng Saesneg
- ❑ Cyfrwng Cymraeg
- ❑ Dwyieithog
- ❑ Ffrwd ddeuol
- ❑ Amherthnasol
- ❑ Arall
- ❑ Gwell gennyf beidio â dweud

J2. Faint o ddisgyblion sydd yn eich lleoliad addysgol?

- ❑ Hyd at 50
- ❑ 51-100
- ❑ 101-150
- ❑ 150-300
- ❑ 301-500
- ❑ 500+
- ❑ Gwell gennyf beidio â dweud

J3. Ym mha awdurdod lleol y mae eich lleoliad addysgol wedi'i leoli?

- ❑ Blaenau Gwent
- ❑ Pen-y-bont ar Ogwr
- ❑ Caerffili
- ❑ Caerdydd
- ❑ Sir Gaerfyrddin
- ❑ Ceredigion
- ❑ Conwy
- ❑ Sir Ddinbych
- ❑ Sir y Fflint
- ❑ Gwynedd
- ❑ Ynys Môn
- ❑ Merthyr Tudful
- ❑ Sir Fynwy
- ❑ Castell-nedd Port Talbot
- ❑ Casnewydd
- ❑ Sir Benfro
- ❑ Powys
- ❑ Rhondda Cynon Taf
- ❑ Abertawe
- ❑ Torfaen
- ❑ Bro Morgannwg
- ❑ Wrecsam
- ❑ Gwell gennyf beidio â dweud

J4. Ym mha gonsortiwm neu ranbarth mae eich lleoliad addysgol wedi'i leoli?

- ❑ CSC
- ❑ EAS
- ❑ GwE
- ❑ Partneriaeth
- ❑ Canolbarth a Gorllewin Cymru
- ❑ Gwell gennyf beidio â dweud

Diolch am gwblhau'r holiadur hwn.

Atodiad 2

Dadansoddiad o atebion i C 6.3 ynghylch rhesymau dros fylchau sgiliau wrth ddarparu ADY

Tri maes allweddol a nodwyd o'r ymatebion agored i'r cwestiwn hwn.

1. Sgiliau Cynorthwywyr Addysgu

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr anawsterau wrth recriwtio a chadw Cynorthwywyr Addysgu fel y prif reswm dros fylchau yn set sgiliau'r staff. Roedd hyn i'w weld ar sawl ffurf wahanol ond roedd y teimlad yr un fath o ran bod y sefyllfa yn gwaethygu. Y prif resymau a roddwyd am yr anallu hwn i recriwtio a chadw Cynorthwywyr Addysgu oedd;

- Diffyg ymateb i hysbysebion a niferoedd isel yn cael eu nodi.
- Diffyg sgiliau i reoli dysgwyr ag ADY - roedd hyn yn arbennig o wir gyda staff 1:1. Roedd niferoedd uchel iawn yn nodi'r rheswm hwn.
- Cyflog gwael a'r gallu i ddod o hyd i waith mewn mannau eraill gyda llai o heriau a mwy o gyflog. Nodwyd archfarchnadoedd yn aml fel dewis amgen. Yn yr un modd, nododd niferoedd uchel y rheswm hwn.
- Diffyg diogelwch swydd. Dyfynnwyd hyn sawl gwaith yn enwedig gan y gellir cyfyngu oriau i 2 y dydd ac mae disgyblion yn aml yn symud ymlaen. Cynorthwywyr yn aml yw'r cyntaf i gael eu diswyddo pan gaiff cyllidebau eu tocio.
- Y gallu i ddarparu DDdY neu ADY drwy gyfrwng y Gymraeg

Roedd dyfyniadau penodol ynghylch y maes hwn yn cynnwys:

> "Methu cael Cynorthwywyr ar gyfer 1:1 oherwydd tâl gwael"
>
> "Mae llawer o Gynorthwywyr profiadol yn gadael gydag ymddeoliad cynnar neu salwch a neb yn dod yn eu lle."
>
> "Mae cyflogi Cynorthwywyr gyda sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth addas yn rhwystr. Cyflogi Cynorthwywyr sydd ag awydd gweithio gydag anghenion ADY heriol a chael eu talu'n wael am hynny."
>
> "Mae staff sy'n gweithio gyda disgyblion ag ADY yn gadael yn eu niferoedd am swyddi sy'n talu'n well. Mae llawer o staff yn dod o asiantaethau gyda phrofiad cyfyngedig a diffyg sgiliau."
>
> "Anghenion meddygol lefel uchel - dim digon o staff hyfforddedig."

Mae'n ymddangos bod yr anallu i ddenu staff medrus fel Cynorthwywyr yn rhwystr i'r ddarpariaeth gan nad oes modd diwallu anghenion disgyblion. Mae ysgolion yn symud i staff asiantaeth ac ychydig iawn sy'n cael eu hyfforddi.

2. Sgiliau CADY

O ran y CADY, nododd sawl ymatebydd fod y rôl yn un anodd i'w rheoli a'r llwyth gwaith yn llethol. Mae hyn yn arwain at lai o bobl yn dymuno gwneud y swydd. Dywedodd rhai nad oedd y cyflog ychwanegol yn cyfateb i'r pwysau ychwanegol.

> "Mae rôl ADY yn amhosib i'w rheoli - does neb eisiau hynny a does neb yn ymgeisio."

> "Ychydig iawn o dâl ychwanegol am y rôl."

Dywedodd un ymatebydd fod Cydlynwyr ADY yn aml yn teimlo'n annigonol o'i gymharu â gweithwyr proffesiynol eraill ac felly maent yn digalonni. Dywedodd un arall, oni bai mai'r CADY yw'r Dirprwy Bennaeth yna mae'r rôl yn amhosib.

I grynhoi, mae pwysau gwaith, cymhelliad cyflog isel a chanfyddiad o ddiffyg sgiliau yn atal staff rhag ymgeisio ac mae hyn yn arwain at fwlch sgiliau yn y maes hwn – ble mae Cydlynwyr ADY y dyfodol?

3. Cyllid

Roedd cyllidebau a rheolaeth ariannol hefyd wedi'u nodi gan nifer sylweddol fel rhesymau dros y bwlch sgiliau. Pan fydd arian yn cael ei gwtogi yna mae gan ysgolion ddewis rhwng athrawon neu Gynorthwywyr Addysgu profiadol. Fel arfer y Cynorthwywyr sy'n gadael ac yn mynd â'u set sgiliau gyda nhw.

> "Mae pwysau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi arwain at ddiswyddiadau gwirfoddol ymhlith staff cymorth allweddol gan arwain at leihad yn ein gallu i ddarparu ADY."

Pryderon eraill

- Roedd y rhai a godwyd yn yr ymatebion yn cynnwys:
- Ymddygiad heriol cynyddol fel ACEY , ASD ac ati, yn gwneud y rôl yn llai apelgar a staff yn gadael.
- Sgiliau arbenigol nad ydynt ar gael fel BSL, sgiliau nam ar y clyw a sgiliau nam ar y golwg.
- Gorweithio a llwyth gwaith ymhlith Cynorthwywyr Addysgu a Chydlynwyr ADY
- Mae nifer cynyddol o blant Blynyddoedd Cynnar ag anghenion ADY yn arwain at staff yn cael eu tynnu o ymyriadau eraill ac yna mae diffyg sgiliau ar gael i ddisgyblion hŷn.
- Diffyg sgiliau wrth adael y Brifysgol a'r Coleg. Nid yw staff newydd yn cael eu haddysgu am ADY yn ddigon manwl ac yna ni allant ddisodli'r rhai sy'n gadael y proffesiwn. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylai darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon neilltuo mwy o amser i'r maes hwn.

Atodiad 3

Semi-structured Interview Questions

Cyfweliad lled-strwythuredig ar gyfer Swyddogion sy'n gyfrifol am leoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gynhelir a nas Cynhelir "Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru?"

Dyddiad	Enw cyfwelai neu ddienw	Sector y cyfwelai	Rôl y cyfwelai	Cydymaith

1. Yn ein harolwg ni chafwyd unrhyw ymatebion gan arweinwyr neu Gydlynwyr ADY mewn lleoliadau cyn ysgol. Beth yw eich barn am hyn?
2. Yn ein harolwg, teimlai'r ymatebwyr nad oedd lefel dda o gyfraniad amlasiantaethol o ran cynllunio a pharatoi CDU. Beth yw eich dealltwriaeth chi am brofiad lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a gynhelir a nas cynhelir?
3. Nododd 378 o ymatebwyr yr arolwg fod ganddynt gymorth a oedd yn ddefnyddiol iddynt wrth weithredu gofynion Deddf ADY. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o gymorth o'r fath yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar?
4. Dywedodd ychydig dros hanner ein hymatebwyr eu bod wedi wynebu heriau wrth dderbyn dysgwr ADY o leoliad arall. A oes gennych unrhyw fanylion am yr heriau hyn ynghylch pontio yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar?
5. Sut ydych chi'n cefnogi unrhyw fylchau sgiliau neu faterion capasiti mewn perthynas ag ADY mewn lleoliadau Blynyddoedd Cynnar?
6. Ydych chi wedi nodi unrhyw broblemau o ran recriwtio a chadw staff sydd â'r sgiliau cywir i ddarparu'r Ddeddf ADY?
7. Pa mor gymwys yw lleoliadau i asesu anghenion dysgwyr a allai fod ag ADY sydd am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?
8. Yr amser a dreulir ar gyfartaledd i gwblhau CDU yw 10 awr 36 munud. Sut mae hyn wedi effeithio ar lwyth gwaith staff, cydbwysedd bywyd a lles yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar?
9. A fyddech chi'n ystyried bod gan y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar y cyllid angenrheidiol i gyflawni gofynion deddfwriaeth ADY?
10. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud o safbwynt y Ddeddf ADY a Blynyddoedd Cynnar?

Atodiad 4

Methodoleg ar gyfer Dadansoddi Trawsgrifiad lled-strwythuredig - Dadansoddiad Thematig

Methodoleg ar gyfer Dadansoddi Trawsgrifiad lled-strwythuredig - Dadansoddiad Thematig

Dadansoddiad thematig yw'r broses o nodi patrymau neu themâu o fewn data ansoddol. Mae Braun a Clarke (2006) yn awgrymu mai'r dull ansoddol cyntaf y dylid ei ystyried oherwydd ei fod yn "darparu sgiliau craidd a fydd yn ddefnyddiol ar gyfer cynnal llawer o fathau eraill o ddadansoddi" (t.78). Mantais ychwanegol, yn bennaf o safbwynt dysgu ac addysgu, yw ei fod yn ddull yn hytrach na methodoleg (Braun a Clarke, 2006; Clarke a Braun, 2013) Yn wahanol i fethodolegau ansoddol niferus eraill, nid yw'n gysylltiedig â phersbectif epistemolegol neu ddamcaniaethol penodol. Mae hyn yn ei gwneud yn ddull hyblyg, sef mantais sylweddol o ystyried lluosedd ffactorau mewn ysgolion a nod ac amcanion yr ymchwil.

Mae dadansoddiad thematig yn nodi themâu neu batrymau yn y data ac yn defnyddio'r themâu/patrymau hyn i fynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Mae Braun a Clarke (2006) yn gwahaniaethu rhwng dwy lefel o themâu: semantig a chudd. Themâu semantig "... o fewn ystyron penodol neu arwynebol y data ac nid yw'r dadansoddwr yn chwilio am unrhyw beth y tu hwnt i'r hyn y mae cyfranogwr wedi'i ddweud na'r hyn a ysgrifennwyd" (t.84). Mewn cyferbyniad, mae'r lefel gudd yn edrych y tu hwnt i'r hyn a ddywedwyd ac "... yn dechrau nodi neu archwilio'r syniadau, tybiaethau a chysyniadoliadau sylfaenol – ac ideolegau -sy'n cael eu damcaniaethu fel rhai sy'n llunio neu'n hysbysu cynnwys semantig y data" (t.84).

Mae Braun a Clarke (2006) yn nodi bod dadansoddiad thematig yn ymwneud yn benodol â'r broses o nodi, archwilio a chofnodi patrymau mewn setiau data sy'n gysylltiedig â chwestiwn ymchwil penodol ac yn disgrifio ffenomen benodol. Mae dadansoddiad thematig yn cynnig methodoleg briodol. Mae'n caniatáu i swm mawr o ddata gael ei ddadansoddi gan nifer o gyfranogwyr i'w ddadansoddi a'i syntheseiddio'n ystyrlon. Mae'n darparu methodoleg strwythuredig ar gyfer nodi themâu allweddol o fewn set ddata ac nid yw'n cael ei chyfyngu'n ormodol trwy alinio ag unrhyw un sefyllfa epistemolegol (Boyatzis, 1998).

Trafododd y Cymdeithion y wybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau a'r arolwg ar-lein. Yn seiliedig ar y canlyniadau, cytunwyd ar argymhellion.

Atodiad 5:

Dadansoddiad Cyfweliad Lled-strwythuredig

Dadansoddiad Cyfweliad Lled-strwythuredig

Y naratif canlynol yw'r dadansoddiad o'r ymatebion a roddwyd i set o gwestiynau (atodiad 6) a gynhyrchwyd o'r arolwg. Mae'r cwestiynau wedi'u cyfosod i'r penawdau canlynol:

- Cyn ysgol
- Cyfraniad amlasiantaethol i CDU
- Cymorth i Leoliadau Blynyddoedd Cynnar
- Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar
- Cymorth ar gyfer bylchau sgiliau/capasiti a nodwyd ar gyfer ADY yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar
- Recriwtio a chadw staff i ddarparu'r Ddeddf ADY
- Asesiad cyfrwng Cymraeg o anghenion ADY
- CDU a'r amser a gymerir i'w hysgrifennu
- Cyllid ar gyfer Deddf ADY yn y Blynyddoedd Cynnar

Mae cyfanswm o 15 o ymatebion manwl. Mae'r ymatebion hyn yn ddienw ac maent wedi'u codio yn ôl teitl y swydd yn unig. Ni chyfeirir at enw na pha Awdurdod Lleol. Er enghraifft, mae cod ADY ALl yn cyfeirio at swyddog sydd â chyfrifoldeb am ADY mewn awdurdod lleol. Mae Tabl 1 yn nodi'r cod. Mae P yn dynodi'r cyfranogwr a'u hymateb. Yn yr adran hon nid yw ymatebion SACDA wedi'u cynnwys gan fod eu cwestiynau cyfweliad nhw yn wahanol.

Tabl 1: Cod ar gyfer math o swydd yn y cyfweliadau lled-strwythuredig

Cod	Math o swydd
ADY ALl.	Rheolwr ADY, cynghorydd
SACDA	Iechyd
BC ALl	Ymgynghorydd Blynyddoedd Cynnar neu reolwr gwasanaeth.
Arall	Estyn, Pennaeth Gwasanaeth yr ALl, Consortia
CADY	Unigol neu fel grŵp.

Cyn ysgol

Ymatebion cyfranogwyr:

P: "Mae hyn yn ddiddorol. Yn aml mae gan sefydliadau blynyddoedd cynnar bwyllgorau o wirfoddolwyr ac yna maen nhw'n cyflogi pobl i arwain. Mae cyflogau yn isel ar y cyfan a dydyn nhw ddim yn cyfateb i'r gwaith dan sylw. O bosib, Arolygiaeth AGC, Estyn – gwaith papur yn drwm am swydd sy'n talu cyn lleied ..." (CADY, clwstwr).

P1: Sut cafodd ei ddosbarthu i leoliadau cyn ysgol? Cyfeirio at ysgolion yn unig? Sut gwnaethon ni ei gyfeirio at leoliadau meithrin... does gan leoliadau meithrin ddim Cydlynwyr ADY (ymgynghorydd ADY ALl).

P2: Mae nifer uchel o'r lleoliadau'n gweithio o dan gyfyngiadau amser anodd. Mae gan yr arweinwyr 14 awr yr wythnos ac mae 10 ohonynt mewn cysylltiad uniongyrchol â'r plant (ymgynghorydd ADY ALl).

P3: Dim ond yn y lleoliadau Dechrau'n Deg y mae gan dîm ADY yr ALl bresenoldeb ynddynt. Nid oes angen CADY ar leoliadau cyn ysgol. Rydyn ni'n annog lleoliadau i gael ymarferydd ADY arweiniol er nad oes gan lawer o leoliadau un (BC ALl).

P4: Efallai y byddai'r Arolygwyr Cofrestredig wedi bod yn grŵp gwell i anfon yr arolwg ato wrth i arweinwyr lleoliadau newid cryn dipyn. Efallai nad yw arweinwyr y lleoliadau wedi gweld perthnasedd yr arolwg iddynt hefyd (BC ALl).

P5: Mae'n siomedig gan ein bod wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas gyda lleoliadau gofal plant. Nid oes angen CADY ar leoliadau cyn ysgol. Rydyn ni'n annog lleoliadau i fod ag ymarferydd ADY arweiniol er nad oes un gan lawer o leoliadau. A gafodd yr arolwg ei rannu gyda darparwyr gofal plant? (BC ALl).

P6:

- Cyfyngiadau amser - mae ganddynt lawer o waith papur i'w gwblhau ar hyn o bryd
- Hyder i wybod beth i'w ddweud
- Diffyg amser ac angen blaenoriaethu tasgau
- Diffyg amser, mae ganddynt gymaint yn digwydd a byddai'r rhan fwyaf eisiau rhoi ymateb ystyriol neu beidio â dweud unrhyw beth o gwbl (ymateb grŵp BC ALl).

P7: Mae rhaglen ar gyfer cefnogi pob lleoliad cyn ysgol. Mae swyddog arweiniol ADY blynyddoedd cynnar. A ddaeth yr holiadur o'r cyfeiriad cywir? Mae ganddyn nhw eu corff rheoleiddio eu hunain ac felly efallai na chyrhaeddodd yr holiadur y bobl iawn (ADY ALl).

P8: Mae'r rhan fwyaf o'n lleoliadau cyn ysgol yn rhan-amser. Gallai'r rhesymau dros hyn fod yn niferus:

- Llwyth gwaith, gydag arweinydd a chynorthwyydd rhan-amser, mae eu holl amser bron yn mynd i weithio gyda'r plant - mae'n bosib nad ydynt yn ymwybodol o berthnasedd yr arolwg a gall newidiadau staff mynych olygu nad yw arweinwyr y lleoliadau yn cael yr ohebiaeth... mae problemau cyfathrebu cydnabyddedig yn bodoli rhwng darparwyr BC a'r ALlau. Y broblem i'r lleoliadau yw sut maen nhw'n darparu'r cymorth sydd ei angen? (ADY ALl).

P9: Nid yw'n syndod bod yr ymateb gan leoliadau yn isel. Yn y gorffennol mae wedi bod yn anodd iawn ymgysylltu â nhw ond mae hyn yn gwella. Mae llawer o hyfforddiant bellach ar waith ar gyfer lleoliadau cyn ysgol i gynyddu gwybodaeth ac mae swyddog ALl ar waith i sicrhau hyn. Y broblem yw nad yw CADY yn rôl statudol yn y BC (ADY ALl).

P10: Nid yw'n syndod nad yw'r sector hwn wedi'i gynrychioli'n ddigonol gan eu bod ar daith nad yw mor ddatblygedig ag ysgolion. Nid yw rôl CADY yn statudol yn y BC felly mae'r ALl yn cymryd y rôl hon ac mae pob CDU yn rhai a gynhelir gan yr ALl. Mae cwestiynau'n bodoli ynghylch plant y BC sy'n dod drwy'r system a'r cwestiwn cyffredin yw "Pryd ddylai plentyn sbarduno CDU?" (ADY ALl).
Nid yw cyfraniad amlasiantaethol i CDU yn dda? Pam? Barn

P: Anodd cael asiantaethau i ddod i gyfarfodydd ... Mae llawer o hyn yn dibynnu ar y berthynas â'r sefydliad... Rwyf wedi datblygu fy mherthynas gydag unigolion allweddol ac felly yn gweld cyfathrebu'n haws ac yn fwy effeithiol (CADY Clwstwr).

P1: Mae gennym bobl sy'n gymwys ond a ydyn nhw'n teimlo eu bod nhw'n gymwys? Mae hynny'n fater gwahanol. Byddai disgwyl i bobl beidio â bod 100% yn gymwys oherwydd ei fod mor newydd.

P2: Nid yw lleoliadau'n derbyn gwybodaeth yn gyson gan yr amlasiantaethau.
Mae bylchau yn y niferoedd sy'n mynychu cyfarfodydd TAT. Cynhelir cyfarfodydd asesu ar y cyd, ond nid yw'r gynrychiolaeth ehangach o asiantaethau yn mynd ymlaen i gyfarfodydd y TAT. Mae materion hyder yn bodoli ac mae angen uwchsgilio i gefnogi staff yn y lleoliad i fynychu cyfarfodydd gyda gweithwyr proffesiynol (cynghorydd BC ALl).

P3: Dydw i ddim wedi fy synnu'n ormodol gan fod hon yn broses newydd ac mae Cydlynwyr ADY yn ymwybodol iawn ei bod yn ddogfen statudol - mae'r goblygiadau cyfreithiol a'r pryderon ynghylch creu dogfen gyfreithiol wedi bod yn broblem ... Mae'r ALl yn ceisio gweithio'n agos gyda chydweithwyr Iechyd - Mae rhai problemau a nodir... Mae iechyd yn dyfynnu capasiti'r gweithlu ond mae'n rhaid cwestiynu pam nad yw hyn wedi cael ei ystyried o'r blaen (BC ALl).

P4: Mae'r holl atgyfeiriadau yn mynd at gyfarfod tîm amlasiantaethol; oddi yno mae proffil yn cael ei gymryd i banel ALl yna trefnir ymweliadau asesu yn ôl yr angen. Yn dilyn hyn mae'r adroddiadau'n mynd i'r panel Dyletswydd i Benderfynu, efallai y byddan nhw'n argymell saib i asesu ymhellach ar gyfer addasiadau rhesymol (BC ALl).

P5: Rydyn ni wedi cael heriau gydag Iechyd sy'n cael eu datrys yn barhaus.
Mae gan leoliadau nas cynhelir cefnogaeth gan sawl gweithiwr proffesiynol gwahanol a bydd yr ALl yn arwain ar drefnu cyfarfodydd a pharatoi ac ysgrifennu CDU (BC ALl).

P6: ...Mae lleoliadau'n rhwystredig iawn nad ydyn nhw'n derbyn gwybodaeth gyson gan yr amlasiantaethau... yn enwedig adroddiadau lleferydd ac iaith nad ydynt yn cael eu rhannu â'r lleoliad. Nid yw'n ymddangos bod y cyfarfod Tîm o Amgylch y Teulu lle mae llawer o asiantaethau yn cymryd rhan, yn rhan o'r system addysg ADY ... Nid yw llawer o leoliadau yn cael y wybodaeth gan Therapi lleferydd ac iaith mewn modd amserol; Mae hyn yn gwneud iddynt deimlo na allant ychwanegu cyfraniadau ac awgrymiadau at CDU (grŵp BC ALl).

P7: Ein profiad yw bod ein Cydlynwyr ADY yn arbennig yn magu hyder wrth ysgrifennu'r cynlluniau hyn yn effeithiol. Rydyn ni'n nodi meysydd i'w datblygu ymhellach – gwella ansawdd y canlyniadau ac uwchsgilio athrawon dosbarth ymhellach i ysgrifennu/cyfrannu at y CDU. Mae Cydlynwyr ADY yn dal i fod yn nerfus. Mae hyder yn broblem (ADY ALl).

P8: Nid yw'r canlyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn arolwg canfyddiadau'r Pennaeth (ADY ALl).
P9: Mae'r ALl yn cefnogi drwy hyfforddiant a gynigir drwy sesiynau galw heibio a defnyddio Pencampwyr Clwstwr i gynghori ac archwilio ansawdd CDU ... o ran yr ochr amlasiantaethol, Iechyd yw'r anoddaf i ymgysylltu â nhw ond rydym yn cwrdd yn rheolaidd â SACDA i gefnogi'r broses. Mae hyn hefyd yn cael ei wneud yn rhanbarthol gyda gwell dealltwriaeth o ganlyniad (ADY ALl).
P10: Ddim yn credu ei fod yn cynrychioli'r sefyllfa yn yr awdurdod hwn. Dull cryf o greu CDU sy'n seiliedig ar y clwstwr gyda Hyrwyddwyr Clwstwr a Fforymau Clwstwr ar gyfer ADY. Mae cynlluniau yn seiliedig ar yr unigolyn wedi'u defnyddio ers amser maith ... dealltwriaeth o faterion capasiti yn y GIG i ymdrin â hyn. Ddim yno eto (ADY ALl)
P11: Dim sylw wedi'i wneud.

Cymorth i Leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar - Sylwadau

P: Cytuno Mae'r ALl yn gefnogol iawn, ac mae'n bendant yn berthynas waith. Mae pobl ar gael i gynnig cymorth a chyngor ar unwaith. Rydyn ni i gyd yn dysgu gyda'n gilydd... mae'r cymorth ar lefel ysgol wedi bod yn rhagorol (CADY clwstwr).
P1: Mae canran bositif yn disgwyl iddo fod yn uwch yn XXX yn seiliedig ar adborth gan glystyrau. Newydd wneud holiadur ynglŷn â Llyw Cymru. Mae dogfennau ac adborth yn nodi bod cymorth gan yr ALl wedi bod yn ardderchog (Cynghorydd ADY ALl).
P2: Mae staff yn elwa o'r cynnig hyfforddi Blynyddoedd Cynnar, sy'n cynnwys ADY ac sy'n cael ei ailadrodd. Mae cyfarfodydd ymgynghori tymhorol i drafod materion ADY (ymgynghorydd ADY yr ALl).
P3: Mae fy rôl yn un sy'n ymwneud â'r ysgol. Rwy'n gobeithio y bydd staff yn teimlo eu bod wedi cael cymorth da. Gweithredu ac ariannu wedi bod ar gael i gefnogi'r trawsnewid ac mae'r tîm yn ceisio bod mor hygyrch â phosibl (BC ALl).
P4: Mae yna broses gefnogol iawn. Mae gan leoliadau BC fynediad at:
- sesiwn galw heibio bob dydd Gwener
- dewislen hyfforddi
- polisi drws agored ar gyfer cymorth (BC ALl).
P5: Rydyn ni wedi cynnal nifer o sesiynau hyfforddi ynghylch y Ddeddf ADY ac mae niferoedd da o'n lleoliadau nas cynhelir wedi'u mynychu. Mae hyfforddiant pellach wedi'i lunio a'i ddatblygu ynghylch y pynciau y gofynnwyd amdanynt mewn perthynas ag ADY... cymaint o sesiynau hyfforddi a chymorth gyda'r nos er mwyn sicrhau'r presenoldeb gorau posib."
P6: Gall lleoliadau hefyd fynychu ymgynghoriadau ADY tymhorol i ofyn am gyngor a chefnogaeth fanylach. Bydd tîm ADY y Blynyddoedd Cynnar weithiau'n darparu cymorth a hyfforddiant pwrpasol ychwanegol os oes angen... Mae dod o hyd i staff a'r arian i dalu am hyfforddiant wedi bod yn rhwystr. Mae'r sesiynau galw heibio wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi cael derbyniad da, mae llawer o leoliadau yn gwerthfawrogi gwrando ar brofiadau ymarferwyr eraill a bydd ambell leoliad yn cysylltu â'i gilydd i gael cyngor a chefnogaeth (grŵp BC).
P7: Mae'n adlewyrchu'r hyn rydyn ni'n gobeithio yw'r cymorth a roddir.
P8: Mae hyn yn adlewyrchu arolwg canfyddiadau'r Pennaeth ... Roedd yr ymatebion yn nodi bod y mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
P9: Yn gadarnhaol iawn ac yn gysylltiedig â chefnogaeth. A fyddwn ni byth yn cael hyn uwchlaw 80% fel bob amser, cwestiwn ynghylch beth yw DDdY a beth yw ADY? A all yr ALl byth roi digon? (ADY ALl)
P10: Mae'r ALl yn falch gyda'r ymateb hwn gan ei fod yn credu bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ... Roedd fforwm penaethiaid yn yr ALl yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn darparu llawer llai o gymorth ar y mater hwn (ADY ALl).
P11: DS.

Pontio yn y Blynyddoedd Cynnar - Barn a sylwadau ar brosesau

P: Diddorol - mae'n anodd achos does dim cysondeb rhwng darpariaeth ddysgu gyffredinol. Mae'r Cynradd yn mynd i CDU yn gyflymach nag uwchradd. Gobeithio y bydd pethau'n gwella dros y blynyddoedd (CADY clwstwr).
P1: Annog a hyrwyddo trefniadau pontio gwell ... pecyn cymorth pontio.
Mae'n rhaid i'r ysgol y maent wedi symud iddi ddarparu cymorth iddynt ... dylai fod cynllun wrth gefn, ymyriadau a chymorth a rennir pan fo'n bosibl (cynghorydd BC ALl).
P2: Mae 'na oedi wrth uwchlwytho gwybodaeth ... a hefyd oedi wrth gael mynediad ... cafwyd enghreifftiau o

Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gofyn i'r lleoliadau uwchlwytho adroddiadau yn hytrach na gwneud hyn eu hunain. Yn gyffredinol, ymddengys mai'r broblem yw'r ffaith nad yw'r broses o drosglwyddo gwybodaeth yn cael ei chwblhau yn brydlon (cynghorydd BC ALl).

P3: Mae hyfforddiant pontio yn rhywbeth y gallwn ei ystyried fel ALl ... Mae symud i'r ysgol yn gallu bod yn broblem - setlo. Mae'r Ddeddf ADY wedi cryfhau 'symudiadau mawr' gyda chynllun manwl ond nid yw symudiadau llai eraill yn cael eu cefnogi cystal (BC ALl).

P4: Gall y rhan fwyaf o wybodaeth am ddisgyblion, yn enwedig o ran cyfathrebu ac ASD fod yn broblem i ysgolion wrth gynllunio ar gyfer anghenion y plant hyn; fodd bynnag, mae'r ddogfen Neges Allweddol yn amlinellu'r broses newydd sy'n profi'n ddefnyddiol (BC ALl).
Mae pontio rhwng lleoliadau cyn ysgol o leoliadau 2 oed, Dechrau'n Deg i leoliad cyn ysgol yn dda ... Mae pontio neu blant sydd wedi cael eu cyfeirio at yr ALl cyn eu bod yn 2 oed wedi cael pontio da i'w lleoliad blynyddoedd cynnar (BC ALl).

P5: Gall pontio fod yn her ac rwy'n cydnabod hyn ... Ond yn aml, y teimlad yw nad yw lleoliadau nas cynhelir a'r wybodaeth sydd ganddynt yn cael eu gwerthfawrogi gan yr ysgol sy'n derbyn oherwydd y newidiadau yn y broses yn sgil y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer darparwyr gofal plant (BC ALl).

P6: Weithiau mae rhai lleoliadau'n arafach nag eraill i'w uwchlwytho... fodd bynnag, pan fydd y plentyn yn trosglwyddo, nid oes gan y lleoliad newydd fynediad i'r wybodaeth mewn modd amserol bob amser ac ni all ymateb mewn pryd bob amser ... byddai llawer o leoliadau'n cytuno â'r ymateb uchod (ymateb grŵp cynghori BC ALl).

P7: Creu protocol/arweiniad/adnoddau pontio ac ati. (ADY ALl).

P8: Yr anawsterau yn yr achosion hyn, os yw'r plentyn tu allan i'r sir, mae llai o wybodaeth am y plentyn. Mae yna weithwyr achos sy'n cefnogi pontio (ADY ALl).

P9: Mae Blynyddoedd Cynnar yn broblem fawr. Mae angen i bob sector wybod beth yw ei rôl a'r hyn y gellir ei gynnig. Mae'r ALl wedi buddsoddi arian i ddatrys hyn ac mae systemau bellach yn cyd-fynd yn fwy i leihau unrhyw effaith. Mae angen rheoli disgwyliadau rhieni ym mhob sector yn well ... Mae trosglwyddiadau o sir i sir yn anodd oherwydd gwahanol fodelau ariannu a gwahanol lefelau o Ddarpariaeth Gyffredinol (ADY ALl).

P10: Mae darpariaeth gyffredinol yn wahanol ar draws Awdurdodau Lleol sy'n arwain at anawsterau. Mae angen lefel ddisgwyliad cenedlaethol i leddfu hyn. Mae cyfnod pontio rhwng cyfnodau oherwydd y ddarpariaeth a gynigir a disgwyliadau rhieni (ADY ALl).

P11: DS

Cefnogaeth ar gyfer bylchau sgiliau/capasiti a nodwyd ar gyfer ADY yn y lleoliadau Blynyddoedd Cynnar. Beth sydd ar gael?

P: Anodd, menter genedlaethol i helpu i godi ymwybyddiaeth e.e., Awtistiaeth Cymru. Oes, mae yna fwlch. Mae gwahaniaethu yn parhau i fod yn anodd (ADY Clwstwr).

P1: Bwlch mewn beth? Mae'r ALl wedi darparu llawer o gymorth. Cymorth pwrpasol hyd at raglen hyfforddiant, hyfforddiant yr ALl a hyrwyddo Hyfforddiant Cenedlaethol yr ALl. Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ati. (Cynghorydd ADY ALl).

P2: Gofynnir i unrhyw arweinwyr a staff newydd mewn lleoliadau am eu profiad ADY ac fe'u cyfeirir at hyfforddiant ar-lein perthnasol (BC ALl).

P3: Mae yna ddewislen helaeth o gymorth mae'r ALl yn ei gynnig ... fodd bynnag, mae diffyg arweiniad a gwybodaeth gan LlC hefyd - rhagor o wybodaeth am ganllawiau technegol (BC ALl).

P4: Mae'r arolwg hyfforddiant hwn wedi rhoi adborth da. Mae hyfforddiant parhaus ar gyfer Therapi Lleferydd ac Iaith/ ASD / NDS / y dull graddedig / Syndrom Down's /pontio ynghyd â'r galw heibio wythnosol (BC ALl).

P5: Dewislen hyfforddi gadarn, wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer lleoliadau cyn ysgol. Hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn ar wahanol adegau i ddarparu ar gyfer ... ymweliadau â lleoliadau i gefnogi lleoliadau gyda'u darpariaeth gyffredinol (BC ALl).

P6: Rydym yn darparu hyfforddiant a chymorth ar y safle gyda ffocws ar gynhwysiant sy'n cefnogi'r lleoliad i ddiwallu anghenion y plant sydd yn y ddarpariaeth ddysgu gyffredinol (grŵp BC ALl).

P7: Cynyddu'r gefnogaeth ganolog i feithrin gallu yn yr ysgol. Capasiti mewn ALlau mor wahanol – rhai ALlau gyda thimau enfawr ac eraill gyda thimau bach iawn (ADY ALl).

P8: Yn synnu at y ganran hon gan ei fod o'r farn bod ysgolion yn fwy hyderus, felly mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol (ADY ALl).

P9: Mae angen hyfforddiant cynhwysfawr i bawb ... mae'n rhaid i'r ysgolion fuddsoddi yn hyn. Mae'r ALl wedi nodi cyllid ar gyfer blwyddyn yn hytrach na disgybl sy'n creu mwy o sicrwydd i ysgolion fuddsoddi mewn staff ar gyfer yr hirdymor (ADY ALl).

P10: Mae'r ALl wedi gweld y duedd hon ac mae'n ceisio uwchsgilio staff. Mae angen cymorth a hyfforddiant rheolaidd ar ymarferwyr ychwanegol. Pryder am ansawdd y staff sy'n dod i'r ysgol am y cyflog a gynigir - dim pawb sy'n gwbl lythrennog neu rifol ac eto mae disgwyl iddynt weithio'n fanylach gydag ystod ehangach o blant (ADY ALl).

Recriwtio a chadw staff i ddarparu'r Ddeddf ADY - Sylwadau wedi'u nodi

P: Recriwtio L1 – oherwydd tâl (ADY clwstwr).

P1: Pryder i bawb, nid yn unig i'r ALl (cynghorydd ADY ALl).

P2: Mae mater recriwtio ar draws y sector oherwydd telerau ac amodau, y cyfraddau cyflog fesul awr a'r gwahaniaeth yn y lleoliadau nas cynhelir a'r lleoliadau a gynhelir (BC ALl).
Nid yw'r gyfradd y mae Gweithredu dros Blant yn ei thalu am gefnogaeth 1:1 yn ddigon i dalu am lefel yr arbenigedd angenrheidiol. Hefyd, mae'r rhain yn aml yn slotiau 30 munud y dydd sy'n anodd recriwtio iddynt (BC ALl).

P3: Mae hwn yn fater pwysig - llwyth gwaith Cydlynwyr ADY - pam fyddwn i eisiau bod yn CADY?

ADY: Problemau mawr o ran Cynorthwywyr - maen nhw'n gallu gweithio mewn archfarchnad am fwy ... ond fel Cynorthwywyr efallai fod gofyn iddynt gwblhau gweithdrefnau meddygol fel defnyddio peniau epi ac ati. (BC ALl).

P4: Ymdrinnir â hyn gan leoliadau, ond fy arsylwadau i yw bod recriwtio yn broblem (BC ALl).

P5: Mae problem recriwtio cyffredinol yn y sector nas cynhelir. Gall fod yn anodd dod o hyd i unrhyw staff ychwanegol, ond yn enwedig staff sydd â phrofiad neu wybodaeth ADY. Mae recriwtio staff arbenigol ar gyfer ADY yn her. Mae trosiant mawr mewn staff yn ein lleoliadau ac mae hyn weithiau'n ei gwneud yn anodd cadw cofnod o bwy sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol.
Mae recriwtio BC yn broblem enfawr nawr. Yn aml, does gan staff ddim hyfforddiant penodol ar gyfer y gwahanol faterion ADY (grŵp BC ALl).

P6: Ydy, mae hyn yn broblem (ADY ALl).

P7: Mae hwn yn bryder mawr... Mae'n anodd iawn mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig yn y Gogledd (ADY ALl).

P8: Ydy, mae'n bryder. Mae rhywfaint ohono'n ymwneud â'r raddfa cyflog a gynigir, peth yn ymwneud â diogelwch swyddi a pheth yn gysylltiedig â modelau ariannu.

P9: Problem fawr mewn ardal o amddifadedd (ADY ALl).
Asesiad cyfrwng Cymraeg o anghenion ADY, darpariaeth sydd ar gael (nid ddarparwyd ateb gan bob ymatebydd)

P: Mae hyn yn amrywio ar draws y sir ac mae'n her heb yr ADY. Mae'r lleoliadau'n gwneud yn dda gydag asesu, ond mae angen cefnogaeth Gymraeg gan asiantaethau partneriaeth eraill, e.e. Therapi Lleferydd ac Iaith yn defnyddio rhaglen Saesneg gyda phlentyn sy'n siarad Cymraeg (cynghorydd BC ALl).

P1: Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar y lleoliadau unigol a'r staff. Yn y lleoliadau mwy gwledig, efallai nad ydynt wedi dod ar draws cymaint o achosion ADY (BC ALl).

P2: Mae gennym 1 lleoliad Dechrau'n Deg sydd trwy gyfrwng y Gymraeg a llond dwrn o gylchoedd. Mae gan bob lleoliad fynediad cyfartal at hyfforddiant, cyllid grant ac adnoddau ar gyfer asesu (BC ALl).

P3: Mae'r lleoliad cyfrwng Cymraeg rwy'n ei gefnogi yn gynhwysol iawn. Mae'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg sydd gen i yn gymwys iawn a chanddynt brofiad da ar gyfer adnabod plant ag ADY. Fodd bynnag, dydw i ddim yn siŵr bod cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn dilyn hyn, h.y. cymorth Therapi Lleferydd ac Iaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Dw i'n meddwl bod lleoliadau Cymraeg yn gallu adnabod ADY - o bosib yn anoddach penderfynu ar anghenion iaith gan fod llawer o blant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn dod o aelwydydd Saesneg eu hiaith (grŵp BC ALl)

CDU ac amser a gymerir - dros 10 awr ... eich barn

P: Oes, os yw'r wybodaeth a gesglir o ansawdd da. Ond mae'n rhaid iddo gyrraedd y plentyn. Os bydd pobl yn dechrau torri corneli i arbed amser, yna byddant yn llai effeithiol. Mae'n anochel y bydd angen i ni wanhau'r broses oherwydd diffyg amser, ac mae hyn yn drueni (ADY clwstwr).

P1: Mae CDU yn golygu llawer o waith paratoi a gwaith sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fod mewn sefyllfa i baratoi cynllun? Ai dyma'r broses gyfan - cwrdd â'r rhieni ac ati? Bydd amser i baratoi yn amrywio yn ôl anghenion. Os yw hynny'n 10 awr o waith personol o ansawdd uchel gyda llawer o ymgysylltu â disgyblion a rhieni, wel, ie, defnydd da o amser (ymgynghorydd ADY ALl).

P2: Mae gan Arweinwyr Lleoliadau 3.5 awr o amser digyswllt i wneud eu holl waith gweinyddol. Mae cadw cofnodion ac asesu anghenion sy'n dod i'r amlwg ac anghenion a nodwyd yn cymryd llawer o amser. Oni bai bod rheolwr lleoliad neu aelod o staff uwchrifol, mae gwaith papur yn bryder mawr (BC ALl).
P3: Amser ydi'r broblem fawr yma - ydy LlC wedi cwblhau astudiaeth amser o lwyth gwaith Cydlynwyr ADY? Mae cymorth lles ar gyfer Cydlynwyr ADY yn hanfodol.
P4: Gan fod yr ALl yn cwblhau'r CDU ar gyfer y lleoliadau efallai na fydd hyn yn berthnasol. (BC ALl)
P5: Mae'r Awdurdod Lleol yn ysgrifennu'r CDU ar gyfer pob lleoliad BC. (BC ALl).
P6: mae cwblhau unrhyw waith papur ADY yn aml yn golygu bod ymarferwyr yn cwblhau'r gwaith papur yn eu hamser eu hunain (BC ALl).

Mae llawer o leoliadau'n ystyried bod hyn yn feichus ac nad yw'r amser digyswllt yn ddigon i gwblhau'r holl dasgau. Gall gofynion ADY mewn lleoliadau BC gael effaith negyddol ar les staff - nid oherwydd nad ydyn nhw eisiau plant ag ADY ond oherwydd eu bod eisiau gwneud eu gorau ac yn teimlo bod sicrhau cymorth yn cymryd gormod o amser gyda gormod o waith papur ymlaen llaw. Mae llawer o leoliadau yn canfod nad oes ganddynt ddigon o amser i gwblhau'r holl waith papur yn ddigon da. Mae rhai lleoliadau'n teimlo eu bod bob amser yn "dal i fyny" (grŵp BC ALl).

P7: Mae hefyd yn anodd nodi'r amser y gall CDU ei gymryd gan ei fod yn dibynnu ar ystod mor eang o ffactorau. Lle mae systemau cyn-gynllunio ar waith, dylai'r amser a gymerir leihau i'r mwyafrif. Dylid cofio hefyd mai dim ond ar gyfer y plant mwyaf cymhleth sydd angen DDdY sy'n uwch na chymorth cyffredinol cadarn a dargedwyd (ADY ALl) y mae angen CDU.
P8: Mae hyn yn anodd, oherwydd bod y broses yn statudol. Os nad ydych yn rhoi amser i gyflawni'r CDU hwnnw, rydych yn dechnegol yn torri'r gyfraith, sy'n golygu y gallai'r ysgol, yn ogystal â'r ALl fod mewn perygl o fynd i dribiwnlys. Gobeithio wrth i ni ddod yn fwy cyfarwydd gyda'r broses, bydd yr amser yn gwella (ADY ALl).
P9: Wedi syfrdanu ei bod yn cymryd mor hir - a yw hyn yn cynnwys yr holl broses gan gynnwys cyfarfodydd cynllunio yn seiliedig ar yr unigolyn ac ati? Mae'n feichus ac yn cymryd llawer o amser, ond bydd staff yn cyflymu a bydd y broses yn fwy hwylus (ADY ALl).

Mae dealltwriaeth ansicr ynghylch y cyllid ar gyfer Deddf ADY yn y sector Blynyddoedd Cynnar i gyflawni gofynion - Barn

P: Dim syndod. Mae'n rhaid i ni ymladd am sgyrsiau gydag arweinwyr mewn adrannau cyllid. Rydym yn derbyn cyfandaliad. Rwy'n gwybod sut y deuir at y cyfandaliad. Rydym yn trafod disgyblion lefel uwch a darpariaeth gyffredinol. Mae lle i fwy o dryloywder (CADY Clwstwr).
P1: Dyddiau cynnar iawn ar gyfer cynradd gan mai dim ond blwyddyn yn ôl y dechreuodd y gyllideb ddirprwyedig. Mae dealltwriaeth pobl yn datblygu, gan annog Cydlynwyr ADY i weithio'n agos gyda Therapi Lleferydd ac Iaith i ddeall cyllideb yr ysgol. Roedd proses y gyllideb yn dilyn proses ymgynghori (cynghorydd ADY ALl).
P2: Na, ddim o gwbl. Mae'r pot grant datblygu blynyddoedd cynnar o arian ychwanegol yn helpu, os ydy hyn ganddyn nhw.
Mae cyllid yn cael ei arwain gan staff, felly waeth faint o blant ag ADY, dim ond dau aelod o staff sydd ar gael o hyd ar gyfer 16 o blant (BC ALl).
P3: Dydy'r mwyafrif o Gydlynwyr ADY ddim yn gwybod beth yw cyllid felly sut y gallan nhw reoli'r cyllid (BC ALl)?
P4: Mae cyllid bob amser yn mynd i fod yn broblem. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae hyn yn anodd. Yn fy marn i, nid yw staff lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn cael eu talu'n ddigonol am y rôl y gofynnir iddynt ei chyflawni (BC ALl).
P5: Rydyn ni'n gweithio'n galed iawn i weithio gyda'r lleoliadau hyn fel eu bod yn cymryd rhan gyda ni, ond os ydynt yn dewis peidio â gwneud, mae ein dwylo'n rhwym. I'r rhai sy'n gweithio gyda ni, mae ganddynt fynediad at gyllid ychwanegol yn ôl yr angen.
P6: Na - yn fy marn i mae'r gweithlu yn barod iawn i geisio diwallu anghenion pob plentyn. Fodd bynnag, mae llawer o'r staff yn gweithio mewn llefydd eraill/cyflogau gwael ac ati.
Na, nid ar ben yr holl flaenoriaethau a'r hyfforddiant arall y disgwylir iddynt eu gweithredu.
Na - dylai fod cyllid yn benodol ar gyfer ADY ... Yn bendant ddim, byddai llawer o leoliadau yn cytuno â'r datganiadau uchod (Grŵp BC ALl).
P7: Nododd grŵp ffocws y gyllideb argymhellion ar Gyllid Fformiwla ADY i Fforwm Cyllideb Ysgolion. Does dim un ateb

yn addas i bawb - demograffeg siroedd mor wahanol (ADY ALl).

P8: Y ffaith anodd yw nad oes digon o arian, ond gallwn ei wneud yn deg. Ar hyn o bryd ein nod yw cael cyllid llawn i ysgolion a fydd yn diddymu'r angen i fynd i'r panel i ofyn am gyllid pellach. Bydd hyn yn deg ond ni fydd yn ddigon a dylid cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth gyffredinol yn hyn (ADY ALl).

P9: O ran tegwch - a fyddwn ni'n ei gael yn iawn, ac a yw diffyg gwybodaeth am degwch yn gysylltiedig â diffyg dealltwriaeth o'r broses? Yn meddwl bod eu system yn deg a Phenaethiaid wedi pleidleisio drosti, nodwyd gwahaniaethau mewn cyllid ar gyfer ADY ac anawsterau Meddygol Corfforol - gall hyn greu annhegwch.

P10: Wedi'i arwain gan anghenion unigol, gydag arian yn cael ei ddyrannu yn ôl dwyster y plant yn hytrach na fformiwla generig fel mewn ALlau eraill - mae hyn yn lleihau amwysedd ac yn cynyddu tegwch y system. Ar y cyfan, serch hynny - does dim digon o arian i ddelio ag anghenion cynyddol yr ysgolion.

11. Cymdeithion

Simon Roberts

Mae Simon wedi bod yn Bennaeth Ysgol Gynradd Maesybryn ers 13 mlynedd. Ar hyn o bryd mae wedi'i secondio i Gonsortia Canolbarth y De fel Partner Gwella. Fel Cydymaith, mae Simon wedi ymgymryd â hyfforddiant ardystio, hwyluso gweithdai arloesi, ac wedi cydweithio â'r Athro David Egan. Ar hyn o bryd, mae Simon gweithio yng ngharfan 3 ar y comisiwn ADY ac yn mwynhau bod yn rhan o gorff cenedlaethol sy'n ysbrydoli arweinwyr ac yn dymuno cefnogi'r Academi Arweinyddiaeth fel sefydliad sy'n cefnogi arweinwyr addysgol ledled Cymru.

Ganwyd Simon yn Zambia a bu'n byw yn Affrica am dair blynedd gyntaf ei fywyd. Ar ôl mynd i'r brifysgol, treuliodd chwe mis yn gweithio yn Guiana Ffrengig lle roedd ei fflat yn edrych dros Devil's Island. Mae ei Ffrangeg yn dderbyniol o hyd ond wedi'i gyfyngu i wyliau yn Ffrainc bob blwyddyn. Mae Simon hefyd yn rhedwr brwd.

Sharon Hope

Sharon yw Pennaeth Ysgol Gynradd y Clas yn Abertawe. Mae ganddi gyfoeth o brofiad o fentora a chefnogi darpar arweinwyr, penaethiaid newydd eu penodi, a gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n cynnig cymorth ysgol i ysgol. Mae Sharon yn Gynghorydd Gwella Ysgolion a Gomisiynir yn Abertawe ac yn Hyfforddwr Hwyluso Rhanbarthol ar ystod o raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid. Mae hi hefyd yn gynrychiolydd ar y Bwrdd Strategol ADY a grwpiau Traws Gyfnod ADY yn Abertawe.

Yn ei rôl fel Cydymaith, mae Sharon wedi cyfrannu at gomisiwn carfan 3 ac wedi cymryd rhan mewn hyfforddi a dysgu proffesiynol. Mae'r cyfle i feithrin cysylltiadau proffesiynol trwy rwydweithio ag arweinwyr rhagorol ledled Cymru wedi arwain at ddatblygu prosiectau yn ei hysgol ei hun a'i helpu i gefnogi datblygiad arweinwyr yn ei rhanbarth.

Olwen Corben

Olwen yw Pennaeth Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug. Mae gan Olwen brofiad fel Aseswr CPCP ac Arolygydd Cymheiriaid Estyn.

Yn ei rôl fel Cydymaith, mae Olwen wedi cymryd rhan mewn prosiectau gan gynnwys gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar. Daeth yn Gydymaith ar gyfer cyfleoedd i ddysgu, cydweithio â Phenaethiaid o bob cwr o Gymru a chael ei herio i feddwl yn wahanol. Ei dyheadau yw i'r Academi Arweinyddiaeth gael ei chydnabod ledled Cymru fel sefydliad o safon sy'n cefnogi arweinyddiaeth, cydweithio, ac ysgolion fel sefydliadau dysgu.

Kerina Hanson

Mae Kerina Hanson yn Bennaeth Ysgol Gynradd Pennard yn Abertawe. Mae ganddi brofiad fel Arolygydd Cymheiriaid Estyn, mae'n Ysgrifennydd Cymdeithas Penaethiaid Abertawe ac yn gyn-Lywydd Cymdeithas Genedlaethol Penaethiaid Cymru.

Yn ei rôl fel Cydymaith, mae Kerina wedi cyfrannu at brosiect Ymchwilio, Arloesi ac Archwilio a gysylltodd â'r pedwar diben, lles a datblygu llythrennedd emosiynol trwy stori. Mae hi hefyd yn gwneud ymchwil i gomisiwn carfan 3. Mae Kerina wedi croesawu'r cyfle i gyfrannu at ymchwil a datblygu arweinyddiaeth yng Nghymru, yn enwedig gyda'r bwriad o hyrwyddo tegwch i bob ysgol. Mae hi'n gweld yr Academi Arweinyddiaeth yn chwarae rhan allweddol wrth godi proffil arweinyddiaeth yng Nghymru a sicrhau bod arweinwyr a'u cyflawniadau'n fwy gweladwy.

Dr Joe Cudd

Mae Joe yn Bennaeth Gweithredol Ysgol Pen Rhos ac Ysgol Pen Tip yn Llanelli. Mae gan Joe 14 mlynedd o brofiad fel Pennaeth.

Mae Joe wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau gyda'r Academi Arweinyddiaeth gan gynnwys datblygu arolwg lles Cymru gyfan ar gyfer arweinwyr ysgolion, hwyluso digwyddiadau ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda charfan 3 ar ddiwygio ADY ledled Cymru. Yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Hyrwyddwr Cyrhaeddiad, rôl newydd sy'n darparu cefnogaeth rhwng cymheiriaid i ysgolion ac yn llywio polisi allweddol ar gyrhaeddiad addysgol.

Dr Llinos Jones

Llinos yw Pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin. Mae Llinos yn gynrychiolydd ar sawl grŵp arbenigol gan gynnwys CYDAG (cymdeithas ysgolion addysg cyfrwng Cymraeg), grŵp cyfeirio Penaethiaid CBAC, grŵp llywio gweithlu Cymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru, i enwi ond ychydig.

Ymunodd Llinos â'r Cymdeithion am y cyfle i ddatblygu fel arweinydd ac i gysylltu â chydweithwyr ledled Cymru. Mae hi wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys cynhadledd ar-lein gyntaf yr Academi Arweinyddiaeth, gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth a gweithdai arloesi.

Alison Ellis

Mae Alison yn Bennaeth Gweithredol Ysgol Gynradd Maesyrhandir ac Ysgol Gynradd Brynhafren ym Mhowys. Mae Alison yn gynrychiolydd ar sawl grŵp arbenigol gan gynnwys Grŵp Llywio ADY, Grŵp Ffrwd Waith ADY Blynyddoedd Cynnar a Grŵp Penaethiaid Canolfannau Arbenigol.

Fel Cydymaith, mae Alison wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ardystio ac ymwybyddiaeth ofalgar ac ar hyn o bryd mae'n gwneud ymchwil i gomisiwn carfan 3. Mae hi wedi mwynhau cael y cyfle i glywed gan arweinwyr addysgol amlwg ac ymgysylltu â nhw ac adeiladu perthynas â chydweithwyr ledled Cymru. Mae Alison yn edrych ymlaen at feithrin ei gallu i gefnogi arweinwyr eraill yn effeithiol a chymryd mwy o ran mewn prosiectau ymchwil.

Catrin Thomas

Ar hyn o bryd mae Catrin yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol Bro Preseli, ysgol 3-19 newydd ei ffurfio yn Sir Benfro. Cyn hynny, hi oedd Pennaeth Ysgol Gynradd Aberaeron ac yn ystod y cyfnod hwnnw treuliodd gyfnod hefyd wedi'i secondio i Gyngor Ceredigion fel Cydlynydd Cwricwlwm. Mae gan Catrin brofiad fel Arolygydd Cymheiriaid Estyn, mae wedi cadeirio Rhwydweithiau Penaethiaid ac mae'n asesydd CPCP.

Yn ei rôl fel Cydymaith, mae Catrin wedi hwyluso amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys gweithdai arloesi, sesiynau Pen-i-ben a gweminarau Datgloi Arweinyddiaeth. Mae hi hefyd yn cydweithio gyda'i chyd-Gymdeithion yng ngharfan 3 ar eu comisiwn. Ymunodd Catrin â'r Cymdeithion i gysylltu ag arweinwyr o Gymru a thu hwnt.

12. Diolchiadau

Diolch i'r llu o arweinwyr ysgolion a rhanddeiliaid a roddodd eu hamser gwerthfawr i gefnogi'r comisiwn hwn ar y cyd â thîm yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau
Inspiring Leaders - Enriching Lives

agaa.cymru | nael.cymru